Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Cyllideb Ddrafft 2019-20 Cynigion manwl

## Cyllideb i greu Cymru well

Hydref 2018

llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG35969 ISBN digidol 978-1-78964-323-7

# Cynnwys

Pennod 1: Cyflwyniad ....................................................................................................1
Pennod 2: Ffyniannus a Diogel ......................................................................................3
Pennod 3: Iach ac Egnïol ..............................................................................................11
Pennod 4: Uchelgeisiol ac yn Dysgu..............................................................................16
Pennod 5: Unedig a Chysylltiedig ..................................................................................22
Pennod 6: Ein meysydd blaenoriaeth: ...........................................................................29

- Blynyddoedd cynnar
- Tai
- Gofal Cymdeithasol
- Iechyd meddwl gwell
- Sgiliau a chyflogadwyedd
- Datgarboneiddio

Atodiad A: Atal ..............................................................................................................43
Atodiad B: Cysoni Cylchoedd y Gyllideb Ariannol a'r Gyllideb Carbon ..............................49
Atodiad C: Costau Gweithredu Deddfwriaeth ..................................................................50
Atodiad D: Asesiad Effaith Integredig Strategol ...............................................................59
Atodiad E: Mapio Ffyniant i Bawb ...................................................................................84
Atodiad F: Geirfa ariannol ..............................................................................................87

# Pennod 1: Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb ddrafft amlinellol - *Cyllideb i Greu Cymru Well* - ar 2 Hydref.

1.2 Mae'r Gyllideb ddrafft amlinellol yn cyflwyno blociau adeiladu cyllideb Llywodraeth Cymru, o ble y daw'r cyllid - y grant bloc gan Lywodraeth y DU, benthyca a threthiant - a sut y bydd yn cael ei ddyrannu rhwng y portffolios gwariant gwahanol. Mae Cyllideb eleni yn gam arall ar ein taith datganoli cyllidol - hon yw'r flwyddyn gyntaf y bydd refeniw a godir o'r cyfraddau treth incwm newydd ar gyfer Cymru yn cael ei gynnwys yng nghyllideb Cymru, ar ôl iddynt gael eu cyflwyno ym mis Ebrill 2019.

1.3 Dyma flwyddyn olaf setliad Adolygiad o Wariant presennol Llywodraeth y DU, a osododd gyllideb refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2016-17 i 2019-20 a'r gyllideb cyfalaf tan 2020-21. Hon hefyd yw'r gyllideb olaf cyn y mae disgwyl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth 2019.

1.4 Mae'r Gyllideb ddrafft amlinellol hefyd yn rhoi manylion yr hinsawdd economaidd a chyllidol ehangach lle mae'r cynigion cyllideb refeniw un-flwyddyn ar gyfer 2019-20 a chynlluniau cyfalaf dwy-flynedd ar gyfer 2019-20 a 2020-21 wedi cael eu datblygu. Wrth i ni gychwyn ar y nawfed flwyddyn o gyni, bydd cyllideb Llywodraeth Cymru 5% yn is mewn termau real, ar sail debyg wrth debyg, yn 2019-20 nag ar ddechrau'r degawd yn 2010-11 - mae hyn gyfwerth â £800m i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus. Pe byddai gwariant ar wasanaethau cyhoeddus wedi bod yr un fath â'r twf mewn Cynnyrch Domestig Gros ers 2010-11, byddem wedi cael £4.1 biliwn yn rhagor i'w wario yn 2019-20, dros 20% yn fwy na'n cyllideb wirioneddol.

1.5 Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd yn cyhoeddi ei Chyllideb ar gyfer yr Hydref ar 29 Hydref. Byddwn yn ystyried effaith cyllideb Llywodraeth y DU ar ein cynlluniau gwariant yn ofalus, ac yn cyflwyno unrhyw newidiadau i'n cynlluniau cyhoeddedig adeg y Gyllideb derfynol ym mis Rhagfyr.

1.6 Mae Llywodraeth Cymru heddiw yn pennu ei chynlluniau gwariant manwl ar gyfer 2019-20, ynghyd â chynlluniau cyfalaf dangosol hyd at 2020-21. Mae'r ddogfen hon yn dangos sut rydym yn dyrannu ein cyllideb yn unol â'n blaenoriaethau, sy'n cael eu disgrifio yn ein rhaglen lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen* a'n strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb*. Hefyd, mae ein cynigion manwl yn adlewyrchu'r cytundeb dwy flynedd ar y Gyllideb gyda Phlaid Cymru am y cyfnod 2018-19 a 2019-20.

1.7 Yn y cyfnod hwn o gyni a chyfyngiadau cyllidol parhaus, mae *Ffyniant i Bawb* yn dangos pwysigrwydd canolbwyntio ein hadnoddau ar y meysydd hynny lle gallwn gael yr effaith fwyaf ar wella canlyniadau i ddinasyddion a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol ac yn ddi-dor. Ein nod yw gweithio gyda'n gilydd i ddarparu ymatebion integredig i rai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu Cymru heddiw.

1.8 Ein nod yn yr hirdymor yw creu Cymru sy'n ffyniannus a diogel; yn iach ac egnïol; yn uchelgeisiol ac yn dysgu ac yn unedig a chysylltiedig.

1.9 Mae *Ffyniant i Bawb* yn nodi pum maes blaenoriaeth, gyda chweched maes wedi'i ychwanegu, a fydd, yn ein tyb ni, yn gwneud y cyfraniad mwyaf i ffyniant a llesiant yn yr hirdymor. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r adegau ym mywydau pobl pan fydd angen y cymorth mwyaf arnynt o bosibl a phan all yr ymyrraeth neu'r cymorth cywir gael effaith ddramatig ar eu bywydau, a'r angen i gynnal amgylchedd iach a chynaliadwy ar gyfer byw'r bywydau hyn. Dyma'r meysydd lle mae tystiolaeth yn awgrymu y gall ymyrraeth gynnar a gwasanaethau integredig gael effaith sylweddol. Y chwe maes yw - blynyddoedd cynnar; tai; gofal cymdeithasol; iechyd meddwl gwell; sgiliau a chyflogadwyedd; a datgarboneiddio.

1.10 Mae ein cynigion manwl, sy'n cael eu disgrifio yn y ddogfen hon, yn cael eu gosod yn erbyn ein nodau hirdymor ar gyfer Cymru a'n chwe maes blaenoriaeth.

1.11 Mae'r broses ar gyfer cynllunio'r gyllideb yn cael ei hategu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gyda'i nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Rydym wedi canolbwyntio ar sut y gallwn gymryd rhagor o gamau i wreiddio'r egwyddorion a'r pum ffordd o weithio yn y Ddeddf ym mhroses y gyllideb. Mae gan y Ddeddf rôl sylfaenol yn tywys proses y gyllideb i sicrhau ein bod, fel llywodraeth, yn meddwl am yr hirdymor; gweithio gyda phobl a chymunedau; ceisio atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf yn hytrach na dim ond trin yr effeithiau terfynol a gweithio'n fwy cydlynus, yn draws-lywodraethol ac ar draws sectorau i fynd i'r afael â phroblemau.

1.12 Rydym wedi darparu nifer o astudiaethau achos yn y ddogfen hon i ddangos sut mae'r Ddeddf yn tywys ein gweithgareddau ac yn ein helpu i wneud ein penderfyniadau.

1.13 Mae ein gwaith i sefydlu dull ataliol yn ein gwaith polisi fel llywodraeth ac yn ein gwaith cynllunio ariannol wedi symud ymlaen yn y Gyllideb ddrafft hon. Fel rhan o broses y gyllideb yn ehangach, rydym wedi parhau i weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu diffiniad cyffredin o atal, a chytuno arno. Mae rhagor o fanylion am y ffordd mae'r diffiniad hwn wedi cefnogi'r cynlluniau gwariant manwl i'w gweld yn Atodiad A. Mae'r astudiaethau achos yn y ddogfen hon hefyd yn helpu i ddangos rhai o'r dulliau gweithredu ataliol rydym yn eu defnyddio fel llywodraeth.

1.14 Bydd y cynigion manwl hyn ar gyfer y gyllideb yn cyfrannu at y gwaith o graffu ar gynlluniau'r portffolios gan bwyllgorau polisi'r Cynulliad Cenedlaethol.

## Pennod 2: Ffyniannus a Diogel

2.1 Ein nod yw creu economi yng Nghymru, sy'n cynnig cyfleoedd i bawb ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan sicrhau ffyniant i unigolion ac i'n cenedl. Byddwn yn galluogi pobl i wireddu eu huchelgeisiau ac i wella eu llesiant drwy gyflogaeth ddiogel a chynaliadwy.

*Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant*

*Byddwn yn galluogi pobl i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael y swyddi y maent yn dymuno'u cael, gan helpu busnesau i ddechrau, i arloesi ac i dyfu, gan greu cyflogaeth ddiogel a da.*

2.2 Mae ein dogfen ***Ffyniant i Bawb: y Cynllun Gweithredu ar yr Economi*** yn nodi sut y byddwn yn cyfuno adnoddau, arbenigedd a gwybodaeth i gryfhau ein seiliau economaidd a diogelu'r economi at y dyfodol. Ar ôl cyhoeddi'r cynllun y llynedd, rydym wedi sefydlu contract economaidd newydd - bydd angen i fusnesau sy'n gofyn am gymorth gan Lywodraeth Cymru ymrwymo i egwyddorion twf, gwaith teg, lleihau olion traed carbon, iechyd, sgiliau a dysgu yn y gweithle. Bwriad y contract yw ysgogi twf, gwella cynhyrchiant a gwneud Cymru yn wlad decach a mwy cystadleuol.

2.3 Rydym wedi sefydlu **Cronfa Dyfodol yr Economi** sy'n cyfuno nifer o ffrydiau ariannu a'r rheini'n canolbwyntio ar y pum maes gweithredu yn y contract. Yn 2019-20, mae cyllideb cyfalaf o £45m wedi cael ei dyrannu i roi cymorth uniongyrchol i fusnesau.

2.4 Sefydlwyd **Banc Datblygu Cymru** y llynedd ac mae hyn wedi gwella mynediad i gyllid ac i wasanaethau cymorth o safon uchel a chyngor rheoli. Mae'r Banc wedi cynyddu lefelau buddsoddi yn sylweddol ac wedi lawnsio nifer o gronfeydd newydd sy'n gyfanswm o oddeutu £233m, gan gynnwys Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru a Cronfa Cyd-fuddsoddi Angylion Cymru. Bydd cyllid trafodiadau ariannol ychwanegol o £3m yn 2019-20 a £4m yn 2020-21 ar gyfer Cronfa Fenthyciadau i Ficrofusnesau Cymru yn helpu i feithrin yr amodau sy'n ofynnol i alluogi busnesau i ffynnu. Mae gyllideb yma yn rhoi cyfanswm dyraniad cyfalaf o £21m yn 2019-20 a £7m yn 2020-21.

2.5 Busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn economi Cymru ac rydym yn eu cefnogi'n uniongyrchol drwy ddarparu dros £200m o gymorth iddynt tuag at eu biliau **ardrethi annomestig**. Mae hyn yn cynnwys y cynllun rhyddhad ardrethi busnes bach parhaol, sy'n rhoi cymorth i ryw 70,000 o fusnesau bach ledled Cymru gyda mwy na hanner yn talu dim ardrethi o gwbl.

2.6 O fis Ebrill 2019, bydd yr **holl leoliadau gofal plant** yng Nghymru yn derbyn 100% o ryddhad ar eu biliau ardrethi annomestig mewn pecyn cymorth sy'n werth £7.5m dros dair blynedd. Bydd y cymorth ychwanegol hwn i ddarparwyr gofal plant nid yn unig yn cefnogi busnesau bach, bydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cynnig gofal plant, a fydd yn ei dro, yn gwneud cyfraniad pwysig i'n huchelgeisiau yn y flaenoriaeth blynyddoedd cynnar.

2.7 Mae cyflwyno’r **cynnig gofal plant** yn cynorthwyo teuluoedd sy’n gweithio ledled Cymru, gan alluogi rhieni plant tair a phedair oed i dderbyn cynigion am waith a gwella’u dewisiadau cyflogaeth, gan wella’u hamgylchiadau teuluol.

2.8 Mae’r cynlluniau ar gyfer cyflwyno’r cynnig yn llawn erbyn 2020 yn mynd rhagddynt yn dda ac mae’r adborth cynnar o’r cynlluniau peilot cyntaf yn awgrymu ei fod yn cael effaith gadarnhaol drwy helpu rhieni’n ariannol a’u galluogi i gydbwyso gofynion gwaith a bywyd teulu. Bydd cyllid o £40m ar gael yn 2019-20 i gefnogi rhoi’r cynnig gofal plant ar waith yn gynnar drwy gyfrwng rhaglen dreigl yn cael ei harwain gan y galw. Mae hyn yn £5m o ostyngiad ers y cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2019-20, mewn ymateb i’r lefelau defnyddio a ragwelir a'r amcanestyniadau presennol. Ni fydd y gostyngiad yn effeithio ar y gwaith o gyflwyno’r cynnig.

2.9 Rydym hefyd yn buddsoddi £60m o gyllid cyfalaf dros dair blynedd o 2018-19, er mwyn i ddarpariaeth bresennol y Cyfnod Sylfaen a darpariaeth newydd y cynnig gofal plant fod ar gael ar yr un safle, lle bynnag y bo'n bosibl. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o ofal plant ar gael yn yr ardaloedd iawn, gyda ffocws arbennig ar ddatblygu darpariaeth newydd mewn ardaloedd nad oes ganddynt wasanaethau gofal plant ar hyn o bryd, mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig yn benodol.

2.10 Cafodd ein ***Cynllun Cyflogadwyedd*** ei lansio ym mis Mawrth 2018, yn nodi sut y byddwn yn gweithio i deilwra cymorth cyflogaeth i unigolion, uwchsgilio a chefnogi gweithwyr, diwallu anghenion lleol a rhanbarthol am sgiliau a pharatoi am newid radical ym myd gwaith yn y dyfodol.

2.11 Mae ein cynlluniau, sy’n cael eu disgrifio’n fanylach yn y maes blaenoriaeth sgiliau a chyflogadwyedd, yn cynnwys y rhaglen **Cymru’n Gweithio** newydd o fis Ebrill 2019 a’r **Porth Cyngor Cyflogaeth** i symleiddio mynediad i gymorth ym maes cyflogadwyedd.

2.12 Nod y **Cymoedd Technoleg** yw diogelu’r economi at y dyfodol drwy fanteisio ar y cyfleoedd sy’n codi o’r pedwerydd chwyldro diwydiannol, drwy annog busnesau i fabwysiadu technolegau digidol newydd, sy’n cefnogi diwydiannau ar flaen y gad, gan gynnwys y sector modurol.

2.13 Mae’n un o leoliadau’r saith hyb strategol sydd wedi’u nodi yng nghynllun y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De ***Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*** a bydd yn derbyn cyllid cyfalaf o £10m yn 2019-20 a £10m yn 2020-21. Pwrpas y cyllid yma yw creu diwydiannau’r dyfodol wedi’u hategu gan ysbryd y contract economaidd. Mae’r Cymoedd Technoleg yn rhan o ymrwymiad hirdymor o £100m dros 10 mlynedd i greu o leiaf 1,500 o swyddi cynaliadwy yng Nglyn Ebwy ac ardal ehangach Blaenau Gwent.

2.14 Bydd cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol o £500k yn 2019-20 yn gwella sefyllfa gyfalaf undebau credyd. Bydd **undebau credyd** yn defnyddio’r arian hwn i gryfhau eu mantolenni drwy fenthyciad isradd, a all helpu i ddatblygu cynlluniau twf cadarn.

2.15 Rydym wedi neilltuo £3m, dros dair blynedd o 2019-20, i gefnogi GIG Cymru yn ei gais ar y cyd i greu **Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Cymru a Gorllewin Lloegr** yn Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru. Bydd hyn yn darparu canolfan ar gyfer

arloesi ac ymchwil yn y GIG ac yn darparu canolbwynt i gwmnïau, academyddion a phartneriaid clinigol gydweithio a chynllunio rhagor o ddulliau gweithredu ataliol ar gyfer yr hirdymor.

**Astudiaeth Achos: Swyddi Gwell yn Nes Adref**

Drwy ddefnyddio'r broses caffael cyhoeddus mewn ffordd fwy creadigol a chydgysylltiedig, gallwn gefnogi cymunedau i fod yn gadarnach yn wyneb heriau economaidd drwy greu economïau lleol a rhanbarthol mwy cynaliadwy yng Nghymru.

Mae'r rhaglen Swyddi Gwell yn Nes Adref wedi'i chynllunio i sicrhau bod manteision buddsoddi sylweddol yn dychwelyd i gymunedau Cymru. Mae'r rhaglen wedi dadansoddi'r £6.2 biliwn sy'n cael ei wario ar waith, nwyddau a gwasanaethau gan y sector cyhoeddus yng Nghymru i ddeall beth mae'r sector cyhoeddus yn ei brynu; pa gyflenwyr sy'n cael eu defnyddio ac a yw'r cyflenwyr hyn yn lleol neu wedi'u lleoli yng Nghymru.

Mae'r dadansoddiad wedi darparu llwyfan i alluogi Swyddi Gwell yn Nes Adref i ganfod meysydd posibl ar gyfer arloesi masnachol, a allai arwain at gyfleoedd hirdymor i gyflenwyr lleol a'r rhai sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a darparu gwaith i bobl leol.

Mae cyfres o gynlluniau peilot wedi cael eu sefydlu yng Nghymoedd De Cymru, fel rhan o waith y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

* Hyb cynhyrchu dilladau arbenigol yn gweithio mewn partneriaeth â'r sector cymdeithasol yng Nglyn Ebwy.

* Menter gymdeithasol yn cynhyrchu arwyddion traffig ac arwyddion masnachol

* Cyfrwng at ddibenion arbennig i ail-beiriannu paent gwastraff sy'n cael ei gasglu o safleoedd gwastraff awdurdodau lleol yng Nghymru

* Menter gymdeithasol sy'n casglu, yn didoli ac yn rhwygo papur gwastraff yn fân.

2.16 Bydd arian trafodiadau ariannol o £4m yn 2019-20 a 2020-21 hefyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu **canolfannau arloesi ym maes iechyd** i wella'r gwaith o atal, trin a rheoli cyflyrau cronig hirdymor. Bydd y canolfannau hyn yn dod â GIG Cymru, academia a diwydiant at ei gilydd i ddatblygu gwasanaethau a thechnolegau arloesol yn gyflym ac wrth raddfa a fydd, yn y pen draw, yn gwella'r canlyniadau i gleifion ac yn cefnogi datblygiad economaidd. Mae hyn hefyd yn cyfrannu at ein dull gweithredu ataliol yn y tymor hwy.

2.17 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid i ddeall eu pryderon a'u blaenoriaethau mewn perthynas â **Brexit.** O ganlyniad, rydym wedi sefydlu safbwyntiau polisi ystyrlon i ddylanwadu ar ddull gweithredu Llywodraeth y DU ar gyfer y trafodaethau'n ymwneud ag ymadael â'r UE ac i baratoi ar gyfer nifer o ganlyniadau posibl. Rydym wedi llunio cynigion polisi manwl sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar sut y gall math iawn o gytundeb Brexit ddiogelu swyddi ac rydym hefyd wedi cyflwyno cynigion ar fasnach, mewnfudo, dyfodol y DU a nifer o faterion eraill unwaith y byddwn wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

2.18 Cyhoeddodd y Prif Weinidog yn gynharach eleni fod **Cronfa Bontio'r UE gwerth £50m** yn cael ei datblygu. Mae dyraniadau cyllid penodol yn cael eu gwneud fel rhan o Gyllideb ddrafft 2019-20. Nod y Gronfa yw helpu busnesau a sefydliadau yn

y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru i baratoi ar gyfer Brexit. Bydd yn darparu cymorth ariannol uniongyrchol i sectorau ledled Cymru er mwyn iddynt allu cynllunio ar gyfer y newidiadau sylweddol a fydd yn gysylltiedig ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

2.19 Mae'r ymyriadau rydym yn eu cefnogi gyda Chronfa Bontio'r DU hyd yma yn cynnwys £5m i gefnogi'r sectorau ffermio, bwyd a physgota ar ôl Brexit; £6m ar gyfer hyfforddi ac uwchsgilio gweithwyr yn y sector modurol a'r diwydiant awyrennau yng Nghymru; £200k i waith ymchwil ar y goblygiadau a'r effeithiau tebygol ar y gweithlu gofal cymdeithasol; cymorth o £150k i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i helpu llywodraeth leol i gynllunio a pharatoi ar gyfer Brexit; a £3.5m i brifysgolion Cymru i sbarduno partneriaethau rhyngwladol a hyrwyddo Cymru fel man i astudio.

2.20 Roedd y cytundeb dwy flynedd gyda Phlaid Cymru ar y gyllideb yn dyrannu £5m ar gyfer paratoi am Brexit, gan gynnwys **cymorth i fusnesau**, dros ddwy flynedd. Bydd yr arian hwn yn cael ei fuddsoddi mewn porth Brexit, gan adeiladu ar yr wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad sydd eisoes yn cael ei ddarparu gan Busnes Cymru i gefnogi busnesau i baratoi ar gyfer Brexit. Datblygodd Llywodraeth Cymru ap i helpu'n busnesau bwyd a diod i ystyried y camau y bydd angen eu cymryd cyn Brexit. Rydym hefyd yn ehangu ein gweithrediadau dramor i ddiogelu marchnadoedd presennol.

2.21 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried ei **pharodrwydd gweithredol** ei hun, ac wedi sefydlu tîm Pontio Ewropeaidd pwrpasol i gydlynu gweithgarwch yn ymwneud â Brexit. Cafodd tîm Brexit ei greu yn yr adran Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig o gofio am faint y materion polisi a deddfwriaethol sy'n dod o dan y portffolio, a chafodd tîm polisi masnach ei greu o gofio am bwysigrwydd y berthynas fasnachu yn y dyfodol. Rydym wedi cyhoeddi y byddwn yn recriwtio rhagor o staff dros y misoedd nesaf i sicrhau bod adnoddau effeithiol gennym i ateb yr heriau sy'n cael eu creu gan Brexit.

2.22 Mae cyllid refeniw o £600k yn 2019-20 a chyllid cyfalaf o £4m yn 2019-20 a £4m pellach yn 2020-21 wedi'u cynnwys yn ein cynlluniau i gefnogi arloesedd. Mae rhaglenni Ewropeaidd **Arbenigedd SMART** a **SMART Cymru** yn hwyluso cydweithio rhwng y byd academaidd, y sector cyhoeddus a'r sector preifat ac yn helpu mentrau yng Nghymru i ffynnu ac i dyfu.

*Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol a hybu gwaith teg*

*Byddwn yn targedu'r ymyriadau at anghenion economaidd gwahanol bob un o ranbarthau Cymru, gan sicrhau bod pob rhan o'r wlad yn elwa o dwf, a hyrwyddo hawl pob gweithiwr i gael bargen deg.*

2.23 Rydym wedi cynnal y cyllid refeniw o £27.6m i hyrwyddo twf cynhwysol er mwyn diogelu'r economi at y dyfodol. Mae hwn yn cynnwys £2.5m i gefnogi'r dyheadau ar gyfer **datblygu rhanbarthol** a datblygu cynlluniau rhanbarthol. Mae mynediad at swyddi a gwasanaethau yn cael effaith bwysig ar berfformiad economaidd rhanbarth, gan y gwyddom fod gan wahanol rannau o Gymru gryfderau economaidd gwahanol.

2.24 Bydd ein cynlluniau'n cysoni buddsoddiad mewn seilwaith â chynlluniau datblygu rhanbarthol i wneud y gorau o effaith twf. Mae portffolio cytbwys o **adeiladau a safleoedd cyflogaeth** modern, sy'n bodloni amserlenni cwmnïau ar gyfer meddiannu, yn rhoi mantais gystadleuol wirioneddol i Gymru dros leoliadau eraill.

2.25 Mae ein cynlluniau'n cynnwys buddsoddiad cyfalaf o £8.6m yn 2019-20 ac £8.3m yn 2020-21 ar gyfer datblygu safleoedd strategol, a fydd hefyd yn ysgogi buddsoddiad sylweddol gan y sector preifat ac arian Ewropeaidd.

2.26 Yn unol â'r ymrwymiadau yn y cynllun ***Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*** i gryfhau saith hyb strategol ledled Cymoedd y De – ardaloedd lle mae arian cyhoeddus yn canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd i'r sector preifat fuddsoddi a chreu swyddi newydd – byddwn yn buddsoddi £9m o gyllid cyfalaf yn 2019-20 a £16m o gyllid cyfalaf yn 2020-21 er mwyn bwrw ymlaen â'r cynlluniau ar gyfer pob un o'r hybiau hyn.

2.27 Mae'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer yr hybiau strategol wedi cael ei arwain gan awdurdodau lleol ymhob un o'r saith ardal mewn partneriaeth â busnesau lleol, cymunedau lleol a sefydliadau lleol eraill, a'u bwriad yw ymateb i anghenion unigryw pob ardal. Bydd hefyd yn cyfrannu at un o nodau'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru o gau'r bwlch cyflogaeth rhwng y rhanbarth a gweddill Cymru drwy helpu 7,000 yn rhagor o bobl i gael gwaith a chreu miloedd o swyddi newydd, teg, diogel a chynaliadwy yn y Cymoedd.

**Astudiaeth Achos: Ardaloedd Gwella Busnes**

Mae Ardaloedd Gwella Busnes yn dod â busnesau a sefydliadau eraill mewn ardal benodol at ei gilydd - fel tref neu ddinas - gyda'r nod o ddatblygu prosiectau a gweithgareddau a fydd yn rhoi hwb i'r economi leol.

Mae deuddeg ardal wedi cael eu sefydlu yng Nghymru – mewn ardaloedd fel Caerdydd, Abertawe ac Aberystwyth – gan gynhyrchu dros £15m o fuddsoddiadau preifat. Mae £260k ar gael yn 2018-19 a 2019-20 ar gyfer Ardaloedd Gwella Busnes newydd.

Mae Ardal Gwella Busnes yn cael ei sefydlu drwy bleidlais mwyafrif o drethdalwyr annomestig mewn ardal. Mae cronfa yn cael ei chreu drwy ardoll fechan ar fusnesau yn yr ardal, sy'n cael ei defnyddio ar gyfer prosiectau. Mae'r cynllun busnes ar gyfer yr ardal yn cael ei ddatblygu ymysg y gymuned fusnes leol. Mae'r gymuned fusnes yn cyfrannu'n uniongyrchol at y broses gyllidebu ac mae ganddi reolaeth dros y gronfa gyffredinol a gynhyrchir drwy osod cyfradd yr ardoll.

Mae'r buddsoddi'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Ond gan amlaf mae'n cefnogi gweithgareddau, digwyddiadau ac ymgyrchoedd marchnata a hyrwyddo, glanhau strydoedd, gwella mynediad a gwelliannau ffisegol. Y nod yn gyffredinol yw gwella bywiogrwydd a hyfywedd yr ardal.

Mae'r rhaglen Ardaloedd Gwella Busnes yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel catalydd, gan alluogi pobl a busnesau i sbarduno ffyniant yn eu cymuned leol.

2.28 Mae **Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** sy'n werth £1.2 biliwn eisoes yn cyflenwi rhaglenni sy'n ceisio gwella cysylltedd a gwella seilwaith ffisegol a digidol yn ogystal â llywodraethu busnes rhanbarthol. Mae **Bargen Ddinesig Bae Abertawe** sy'n werth £1.3 biliwn yn cynnwys 11 prosiect. Eu bwriad yw sbarduno twf ar draws y rhanbarth. Bydd cyllid cyfalaf o £10m yn 2019-20 a £10m yn 2020-21 yn cefnogi'r gweithgareddau hyn. Mae trafodaethau am fargeinion twf ar gyfer Gogledd Cymru a Chanolbarth Cymru yn parhau i fynd rhagddynt yn y ddau ranbarth a gyda Llywodraeth y DU.

2.29 Fel rhan o'r cytundeb ar y gyllideb gyda Phlaid Cymru, mae £2m wedi'i ddyrannu dros ddwy flynedd i ddarparu cymorth ysgrifenyddol a buddsoddi i Arfor. Mae cynnig i sefydlu **Cronfa Arloesi Arfor** i hyrwyddo entrepreneuriaeth, twf busnesau a chadernid cymunedol gyda ffocws ar hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

2.30 I sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni canlyniadau cyflogaeth, adfywio economaidd a'r sgiliau cysylltiedig yn rhai o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig, bydd cyllid cyfalaf o £28.7m yn 2019-20 a £36.8m yn 2020-21 yn cefnogi adfywio drwy ddwy brif raglen – rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio a'r rhaglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol a ariennir gan yr UE – a fydd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol mewn ardaloedd a fydd yn cael eu targedu. Bydd cyllideb refeniw o £560k yn 2019-20 yn cefnogi ymdrechion adfywio cymunedol ehangach, gan gynnwys ehangu'r rhaglen **Ardaloedd Gwella Busnes**.

2.31 Rydym yn ymrwymedig i hybu gwaith teg yng Nghymru ac rydym wedi sefydlu **Comisiwn Gwaith Teg** i gynghori'r llywodraeth am y newidiadau sy'n ofynnol er mwyn cefnogi gwaith teg, gan gynnwys diogelu incwm, enillion fesul awr teg a sicr, cyfleoedd teg i ddatblygiad cyflog, a mynediad at dâl salwch a phensiwn i bob gweithiwr. Mae £200k yn cael ei ddyrannu yn y Gyllideb ddrafft hon ar gyfer y Comisiwn Gwaith Teg.

*Hybu twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd*

| |
|---|
| Byddwn yn meithrin ffyniant mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn cynnal amgylchedd naturiol hyfryd Cymru, gan sicrhau y bydd cenedlaethau heddiw a'r dyfodol parhau i elwa, ac yn gwneud cyfraniad pwysig i'r frwydr yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. |

2.32 Rydym wedi cael ein hatgoffa'n ddiweddar o'r niwed a'r trafferthion y gall llifogydd eu hachosi. I liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, rydym yn cyflwyno rhaglen gyfalaf gwerth £55m dros ddwy flynedd (£27m yn 2019-20 a £28m yn 2020-21) i wella'r gwaith o **amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn y glannau** a chefnogi gweithgareddau rheoli risg llifogydd ledled Cymru. Mae ein buddsoddiad yn hanfodol i liniaru'r risgiau ac i leihau'r tebygolrwydd o golledion economaidd sylweddol ar ôl llifogydd. Dengys ymchwil diweddar fod buddsoddiad o £100m yn gostwng y risg ar gyfer 7,000 o gartrefi a busnesau, yn diogelu dros 14,000 o swyddi ac yn creu dros 1,000 o swyddi.

2.33 Rydym wedi diogelu'r gyllideb refeniw ar gyfer y rhaglen rheoli perygl llifogydd ac arfordirol, gan roi cyfanswm cyllideb o £24.7m yn 2019-20.

2.34 Rydym yn rhoi rhagor o arian ar gyfer **ailgylchu gwastraff** a newid cydweithredol i gefnogi ein huchelgais i ddod yn wlad ddiwastraff. Rydym yn dyrannu £4.3m yn ychwanegol o refeniw yn 2019-20 ar gyfer y rhaglen ailgylchu gwastraff i gynnal

effeithlonrwydd adnoddau a datblygu'r economi gylchol. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb refeniw ar gyfer gwastraff i £36.6m yn 2019-20. Gyda'r £25m o arian cyfalaf ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf (£12.5m yn 2019-20 a £12.5m yn 2020-21) i ariannu'r rhaglen newid gydweithredol a'r rhaglen caffael gwastraff, mae hyn yn darparu buddsoddiad ychwanegol o dros £29m yn y Gyllideb ddrafft hon. Cyfanswm y cyllid cyfalaf ar gyfer gwastraff yw £23m yn 2019-20 a £16.5m yn 2020-21.

**Astudiaeth Achos: Brexit a'n Tir**

Mae tir a rheolwyr tir Cymru yn bwysig i bawb ohonom. Gyda'i gilydd, maent yn darparu bywoliaeth, yn cynnal cymunedau ac yn sicrhau adnoddau naturiol hollbwysig rydym i gyd yn dibynnu arnynt.

Y Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP), sy'n werth £235m y flwyddyn i Gymru, sy'n pennu'r trefniadau sy'n cael eu cefnogi ar hyn o bryd. Ond nid yw'r CAP wedi gwneud digon i wella cynhyrchiant amaethyddol ac mae wedi arwain at ganlyniadau cymysg i amgylchedd naturiol Cymru.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynigion ar gyfer polisi penodol i Gymru a chymorth ar gyfer rheoli tir yng Nghymru yn dilyn Brexit ac yn y tymor hwy.

Mae rhanddeiliaid wedi amlygu risgiau a chyfleoedd. Er enghraifft, archwilio'r peirianweithiau cymorth ac ariannol sy'n ofynnol i hwyluso'r gwaith o greu coetiroedd yn yr hirdymor i gyrraedd targedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru erbyn 2050. Mae'r cyfraniadau hefyd wedi ystyried y posibilrwydd o atal rhai arferion rheoli tir sy'n lleihau cyfleoedd economaidd ac amgylcheddol eraill, fel atal problemau llygredd dŵr sydd wedi bodoli ers amser ac, o ganlyniad, wireddu cyfleoedd i'r dyfodol ar gyfer gwella iechyd y cyhoedd a thwristiaeth sy'n seiliedig ar ddŵr.

Mae angen ystyried y risgiau a'r cyfleoedd hyn o fewn cyd-destun hyfywedd parhaus busnes coedwigo neu ffermio; rhywbeth sydd o bosib yn unigryw ymysg y sectorau busnes amrywiol, yw'r awydd hollbwysig ymysg llawer o ffermwyr a rheolwyr tir eraill i drosglwyddo busnesau fferm cynaliadwy a hyfyw i'w plant a'u hwyrion.

Mae'r ymgysylltu yma'n nodi dechrau sgwrs newydd am y broses o ddosbarthu arian cyhoeddus i gefnogi'r gwaith o reoli tir. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi pum egwyddor i dywys y gefnogaeth ar gyfer y dyfodol a chyfres o gynlluniau i ddisodli'r Polisi Amaeth Cyffredin - Cynllun Cadernid Economaidd a Chynllun Nwyddau Cyhoeddus.

Yn ddiweddar, yr egwyddorion a'r cynlluniau hyn sydd wedi fframio trafodaethau â rhanddeiliaid am flaenoriaethau ariannu, cyflwyno, y cydbwysedd rhwng yr opsiynau gwahanol a sut i integreiddio peirianweithiau cymorth gwahanol er mwyn sicrhau manteision lluosog.

Bydd y cynigion yn cefnogi rheolwyr tir i fod yn fwy cadarn yn sgil trefniadau masnachu newydd, a bydd yn cynnig ffrwd ariannu newydd, sy'n cydnabod y cyfraniad y gall rheolwyr tir ei wneud tuag at fynd i'r afael â rhai o'n heriau amgylcheddol mwyaf dybryd, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, dirywiad bioamrywiaeth ac ansawdd dŵr gwael ac ansawdd aer niweidiol.

Mae'r cynigion wedi'u nodi yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, *Brexit a'n Tir*, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 30 Hydref.

2.35 Mae **troseddau gwastraff** yn fygythiad difrifol i'r amgylchedd, gan lygru tir ac afonydd ag olew a chemegau gwenwynig. Mae safleoedd gwastraff anghyfreithlon hefyd yn gallu andwyo iechyd pobl ac yn niweidio cymunedau, gan fygwth ansawdd yr aer oherwydd y mygdarth gwenwynig o ddeunyddiau sy'n cael eu llosgi'n anghyfreithlon ac achosi problemau sŵn ac arogl o weithrediadau ger ysgolion a chartrefi. Byddwn yn dyrannu £296k yn 2019-20 i fynd i'r afael â throseddau gwastraff.

2.36 Cyflwynwyd y dreth gwarediadau tirlenwi yng Nghymru ym mis Ebrill 2018 pan gafodd y dreth dirlenwi ei datganoli. Roedd y Gyllideb ddrafft amlinellol yn cynnwys rhagolygon refeniw ar gyfer y dreth ar gyfer 2019-20 ac yn cadarnhau y byddai cyfraddau'r dreth yn codi flwyddyn nesaf yn unol â chwyddiant (mynegai prisiau manwerthu).

2.37 Sefydlwyd **Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi** i gefnogi prosiectau cymunedol ac amgylcheddol mewn ardaloedd yr effeithir arnynt gan wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Dechreuodd y cynllun ar 1 Ebrill 2018 a derbyniwyd y cynigion cyntaf gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sef y corff dosbarthu ar gyfer y cynllun, ym mis Gorffennaf 2018. Bydd y cynllun yn ariannu prosiectau sy'n cefnogi bioamrywiaeth, lleihau gwastraff a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, a gwelliannau amgylcheddol. Bydd panel annibynnol, gyda chynrychiolwyr o gyrff fel Cadw Cymru'n Daclus, Cyfoeth Naturiol Cymru a Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau, yn asesu'r cynigion. Bydd y prosiectau sy'n ceisio cymorth yn gorfod dangos eu bod yn cydweithio, yn ymgysylltu'n ystyrlon ac yn defnyddio dulliau gweithredu ataliol ar gyfer yr hirdymor.

2.38 Dros y pedair blynedd nesaf, mae £1.5m y flwyddyn o'r refeniw a godir gan y dreth gwarediadau tirlenwi wedi ei ddyrannu i'r cynllun i gefnogi cymunedau y mae gwaredu gwastraff ar safleoedd tirlenwi yn effeithio arnynt. Mae hyn yn darparu ffrwd ariannu sefydlog ar gyfer y cynllun.

2.39 Rydym yn cefnogi datblygiad cynaliadwy ein cymunedau gwledig drwy'r **Cynllun Datblygu Gwledig,** cyllideb amlflwydd, sy'n ymateb i'r galw ac yn cael ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae angen i'n cyllidebau domestig, sy'n cydgyllido, fod yn hyblyg, a rhaid inni sicrhau ein bod yn cael y gorau o'n gwariant i ennyn cymaint ag y medrwn o gyfraniad gan yr UE dros gyfnod y rhaglen 2014-2020. £26.5m ydy cyllideb refeniw y cynllun datblygu gwledig yn 2019-20, ac yn seiliedig ar ragolygon. Mae cyllid cyfalaf o £10.3m yn 2019-20 a £9.4m yn 2020-21 wedi'i neilltuo dros y ddwy flynedd i gyfateb i broffil cyfalaf disgwyliedig y cynllun datblygu gwledig ac i sicrhau bod yr holl arian cyfatebol Ewropeaidd yn cael ei ddefnyddio.

2.40 Rydym yn dyrannu cyfanswm o £9.5m i **awdurdodau'r parciau cenedlaethol** a £66.3m i **Cyfoeth Naturiol Cymru** yn 2019-20, sy'n adlewyrchu pwysigrwydd diogelu a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol i iechyd a lles y genedl.

## Pennod 3: Iach ac Egnïol

3.1 Ein nod yw gwella iechyd meddwl a chorfforol a llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau yng Nghymru. Rydym eisiau canolbwyntio ar atal achosion afiechyd a thrin afiechyd.

*Darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas ar gyfer y dyfodol*

*Byddwn yn darparu triniaeth o safon uchel yn amserol, ac yn cefnogi a hyrwyddo iechyd da, llesiant ac annibyniaeth, gan gydnabod bod yn rhaid i bawb chwarae rhan weithredol yn y gwaith o lywio'u hiechyd eu hunain er mwyn bod yn gynaliadwy yn y dyfodol.*

3.2 Bydd y **GIG yng Nghymru**, a ddathlodd ei ben-blwydd yn 70 oed eleni, yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r llywodraeth hon ar gyfer buddsoddi – roedd yr adborth a gafwyd o sesiynau cyllidebu cyfranogol y llynedd wedi pennu'r GIG yn flaenoriaeth.

3.3 Y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer dyraniadau craidd y GIG, gyda chyfanswm buddsoddiad o £6.866 biliwn yn 2019-20, yw'r gyllideb unigol fwyaf yn Llywodraeth Cymru, ac mae'n cynnwys ein cyllid craidd ar gyfer byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru. Mae'r cyllid yn cefnogi gwasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan ddeintyddion, fferyllwyr cymunedol a meddygon teulu annibynnol; gwasanaethau yn y gymuned, gan gynnwys nyrsio yn y gymuned; gwasanaethau iechyd meddwl a gofal arbenigol ac mewn ysbyty. Fe'i defnyddir i gomisiynu gwasanaethau gan ddarparwyr yn y GIG mewn gwledydd eraill yn y DU a gan ddarparwyr gofal iechyd annibynnol, fel y bo'n briodol.

3.4 Mae'r llinell wariant yma yn cynnwys £220m yn ychwanegol o fuddsoddiad, a gadarnhawyd yng Nghyllideb 2018-19 i gau'r "bwlch Nuffield" – y swm blynyddol yn ôl Ymddiriedolaeth Nuffield sydd ei angen i dalu costau cynyddol y GIG a'r cynnydd yn y galw, sy'n gysylltiedig yn bennaf â phoblogaeth sy'n heneiddio - a buddsoddiad pellach o £94.6m ar gyfer y **dyfarniad cyflog o dan yr Agenda ar gyfer Newid**.

3.5 Mae hyn yn £315m o gynnydd yn arian craidd y GIG yn 2019-20 o gymharu â 2018-19. Bydd yn cael ei ddefnyddio i dalu costau dyfarniadau cyflog ar gyfer ein staff gwerthfawr yn y GIG, gan gynyddu ein buddsoddiad mewn gofal sylfaenol a diwallu blaenoriaethau eraill yn y gwasanaeth a thwf costau. Byddwn yn cadarnhau'r dyraniadau refeniw ar gyfer byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG ym mis Rhagfyr 2018 i'w cefnogi i baratoi eu cynlluniau integredig yn y tymor canolig ar gyfer 2019-20 a thu hwnt.

3.6 Rydym yn buddsoddi £192m yn rhagor yn 2019-20 i roi **Cymru Iachach** ar waith, ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Datblygwyd y cynllun mewn ymateb i'r adroddiad gan yr Adolygiad Seneddol o Ddyfodol Hirdymor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'n adeiladu ar y ddwy egwyddor o atal a gofal iechyd darbodus a'r bwriad yw dylanwadu ar iechyd a lles pobl gydol eu bywydau.

3.7 Bydd pwyslais ar atal salwch a chefnogi pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, a'u galluogi i fyw'n annibynnol am gyn hired â phosibl.

3.8 Yn 2019-20, byddwn yn buddsoddi £50m yn ein **cronfa trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol** i gefnogi'r gwaith o ddatblygu modelau iechyd a gofal cymdeithasol integredig newydd, a'u rhoi ar waith. Cefnogir y rhain gan y byrddau partneriaeth rhanbarthol, sy'n dod ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a phartneriaid eraill at ei gilydd i wneud penderfyniadau ar y cyd ac ar sail arloesi lleol. Bydd y gronfa'n cael ei defnyddio i gyflymu cynnydd a datblygu modelau cyflenwi gwasanaethau newydd.

3.9 Rydym yn parhau i sicrhau bod cyllid ar gael i gyflwyno'r **Gronfa Triniaethau Newydd** gwerth £80m. Yn y gyllideb hon, rydym yn dyrannu £16m yn 2019-20.

3.10 Mae cyfraddau goroesi canser yng Nghymru yn dal yn is nag yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop, ond mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bob modd gwella. Byddwn yn buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu un llwybr canser, yn unol â'r ***Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser yng Nghymru***. Byddwn hefyd yn buddsoddi er mwyn gwella'r broses o gael diagnosis a thargedu triniaethau canser.

3.11 Byddwn yn buddsoddi £15m yn rheolaidd i gryfhau gofal critigol er mwyn i'r GIG allu parhau i ddarparu gofal o'r safon orau posibl i'r cleifion mwyaf sâl pan fyddant ei angen. Bydd y buddsoddiad yn cynyddu nifer y gwelyau gofal critigol ac yn helpu i ddatblygu ac ehangu'r gweithlu.

3.12 Bydd £6.6m yn cael ei fuddsoddi mewn rhaglenni **diogelu iechyd wedi'u targedu** a rhaglenni imiwneiddio a ariennir yn ganolog. Bydd £4.2m yn cefnogi'r maes rhoi gwaed a thrawsblannu organau a meinweoedd fel rhan o system optio-allan arloesol Cymru ar gyfer rhoi organau.

3.13 Yn ogystal â'r buddsoddiad refeniw ychwanegol, byddwn yn parhau â'n cynlluniau i fuddsoddi £61m yn rhagor o gyllid cyfalaf yn rhaglen gyfalaf Cymru gyfan ar gyfer y GIG yn 2019-20 a 2020-21. Bydd hwn yn cefnogi **gwelliannau yn y GIG a'r gwaith o foderneiddio'r fflyd ambiwlansys**. Bydd fflyd fodern, gyda cherbydau carbon is, yn sicrhau arbedion refeniw yn sgil costau cynnal a chadw a thanwydd is.

3.14 Rydym yn dyrannu £4.5m yn ychwanegol yn 2020-21 i barhau â'r buddsoddiad sydd yn yr arfaeth yn y **canolfannau iechyd a gofal integredig** – mae hyn yn rhan greiddiol o wasanaeth lles effeithiol ac yn allweddol i'n nod o ddarparu mwy o ofal yn nes i gartrefi pobl heb orfod defnyddio ysbytai.

3.15 Byddwn yn gwario £675m ar **wasanaethau iechyd meddwl** yn 2019-20 – dyma'r un maes gwariant mwyaf yng nghyllideb y GIG. O'r arian ychwanegol a roddwyd ar gyfer *Cymru Iachach*, bydd £15m yn cefnogi gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer rhaglenni mewn ysgolion - fel y dull gweithredu ysgol-gyfan newydd o ran iechyd meddwl a llesiant, sy'n cael ei ddatblygu mewn ymateb i adroddiad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol *Cadernid Meddwl* - a chymorth iechyd meddwl cofleidiol ar gyfer y digartref a gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol.

3.16 Rydym yn cynnal ein hymrwymiad, fel rhan o'r cytundeb dwy flynedd ar y Gyllideb gyda Phlaid Cymru, i ddarparu £20m yn ychwanegol yn 2019-20 ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Ceir rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau ym mhennod chwech.

*Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb*

| |
|---|
| *Byddwn yn helpu pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw, gan chwalu'r rhwystrau y mae afiechyd yn eu creu o ran cyflogaeth a chyfleoedd, a mynd i'r afael â'r cylch o iechyd gwael ac anweithgarwch a drosglwyddir o un genhedlaeth i'r llall.* |

3.17 Bydd £13m yn cael ei fuddsoddi mewn nifer o gynlluniau **gwella iechyd a gweithio'n iach,** sy'n pwysleisio egwyddorion gofal iechyd darbodus ac yn cefnogi pobl i wneud dewisiadau cadarnhaol am eu ffordd o fyw, a fydd yn cael effaith hirdymor ar eu hiechyd a'u lles. Mae hyn yn cynnwys bwrw ymlaen â'r camau gweithredu mewn cynlluniau cenedlaethol, fel y *Cynllun Gweithredu ar Reoli Tybaco, y Cynllun Gweithredu ar Iechyd Meddwl*, *y Cynllun Gweithredu Economaidd* a'r strategaeth gordewdra sydd ar ddod, y byddwn yn ymgynghori yn ei chylch yn yr hydref.

3.18 Mae cyflwyno'r Credyd Cynhwysol gan Lywodraeth y DU wedi golygu newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer **prydau ysgol am ddim.** Nid yw Llywodraeth y DU wedi darparu arian ychwanegol i reoli effaith ei hagenda diwygio lles ar brydau ysgol am ddim - yn Lloegr, mae'r arian wedi dod o gyllidebau adrannau.

3.19 Rydym wedi gweithredu mewn ffordd wahanol ac wedi darparu £7m o gronfeydd wrth gefn, drwy'r Grant Cynnal Refeniw, i gefnogi awdurdodau lleol i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â'r newid yn y meini prawf cymhwysedd. Mae hyn yn cynnwys diogelwch trosiannol i blant sydd eisoes â hawl i brydau ysgol am ddim.

3.20 Mae'r gyllideb **Bwyd a Maeth mewn Ysgolion** ar gyfer 2019-20, sy'n £3.7m, yn cynnwys £500k ar gyfer parhau â'r rhaglen Bwyd a Hwyl, a datblygu rhagor arni.

3.21 Yn amodol ar gael cytundeb yr UE ar y telerau ar gyfer ymadael â'r UE, bydd Cymru yn parhau i gyfrannu at **gynllun llaeth ysgol** presennol yr UE, gyda £3.2m wedi'i ddyrannu o'r gyllideb Bwyd a Maeth mewn Ysgolion i gefnogi'r cynllun. Mae'r cynllun presennol yn fwy hael na'r cynlluniau yng ngweddill y DU, gan mai dim ond Cymru sy'n darparu llaeth ysgol am ddim i blant yn y Cyfnod Sylfaen.

3.22 Bydd dros £26m yn cael ei fuddsoddi yn ein **Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau**; bydd y rhan fwyaf o'r arian hwn yn cael ei reoli gan y byrddau cynllunio ardal i helpu i roi sylw i'r blaenoriaethau a nodir yn ein strategaeth camddefnyddio sylweddau *Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed* a'r cynllun cyflenwi diweddaraf ym maes camddefnyddio sylweddau. Mae'r arian yn cydategu'r dyraniadau o ryw £18m i'r byrddau iechyd ar gyfer camddefnyddio sylweddau, a bydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi amrywiaeth o gynlluniau addysg, triniaeth, atal a gorfodi.

3.23 Bydd ein buddsoddiad yn y maes camddefnyddio sylweddau yn 2019-20 yn helpu i sicrhau bod pobl yn cael gafael ar y cymorth a'r gwasanaethau y maent eu hangen cyn gweithredu Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, a fydd

yn dod i rym yn ystod haf 2019. Dim ond rhan o ddull strategol ehangach a pharhaus Llywodraeth Cymru yw'r ddeddfwriaeth hon i ddelio â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i ddarparu cymorth a gwasanaethau arbenigol i'r rheini mewn angen, cyn y daw'r ddeddf i rym ac wedi hynny.

**Astudiaeth Achos: Bwyd a Hwyl**

Mae Bwyd a Hwyl - a elwir hefyd yn Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol - yn defnyddio dull gweithredu ataliol a'r bwriad yw sicrhau nad yw plant o gefndiroedd difreintiedig yn wynebu straen oherwydd y gwyliau haf hir - ynysu cymdeithasol, eisiau bwyd, anweithgarwch ac anghydraddoldeb addysgol.

Mae'r rhaglen yn enghraifft o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy gydweithio mewn ffordd llawn dychymyg, gan weithio ar draws sawl sefydliad.

Mae £500k wedi cael ei ddyrannu i ddatblygu rhagor ar y rhaglen a'i darparu'n ehangach ar draws Cymru, i sicrhau bod plant sy'n cyfrannu at y rhaglen yn elwa o brofiadau cyfoethogi a phrydau iach a maethlon.

Amcangyfrifir y bydd 2,500 o blant yn cymryd rhan yn y cynllun a fydd yn cael ei gynnal mewn mwy na 50 o ysgolion, mewn 16 o awdurdodau lleol ac yn ardaloedd yr holl fyrddau iechyd. Fe fanteisiodd oddeutu 1,500 o blant ar y cynllun yn 2017.

Mae Bwyd a Hwyl yn cael ei hwyluso gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'i gyflwyno mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol ac asiantaethau partner. Mae'r rhaglen wedi'i llunio gan staff ysgolion, rhieni/gofalwyr a'r plant eu hunain. Mae nifer o asiantaethau yng Nghaerdydd yn darparu cymorth a gweithgareddau cyfoethogi.

Mae'r rhaglen yn edrych yn y tymor hir ar y materion drwy geisio lleihau anghydraddoldebau iechyd, cymdeithasol ac addysgol ar oedran cynnar drwy feithrin gallu drwy ysgolion a staff. Mae'n darparu bwyd iach, yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol, ac yn codi ymwybyddiaeth o addysg maeth a gweithgareddau cyfoethogi corfforol a meddyliol.

Mae wedi dod yn elfen hollbwysig o weledigaeth Cyngor Caerdydd o Gaerdydd fel dinas dda i fyw ynddi. Mae hefyd yn hyrwyddo dull gweithredu integredig ochr yn ochr â'r blaenoriaethau ehangach ar gyfer tîm iechyd y cyhoedd lleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a blaenoriaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

3.24 Fel rhan o'r buddsoddiad yn y maes camddefnyddio sylweddau, rydym yn dyrannu £1.98m yn 2019-20 i adfer y cyllid i **Raglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan**. Mae'r rhaglen hon yn nodweddiadol o'n hagenda ataliol, gan ddarparu cymorth hanfodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru, ac yn dysgu plant am faterion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau a diogelwch personol yn ystod holl gyfnodau allweddol y cwricwlwm. Bydd y buddsoddiad hwn yn sicrhau y bydd yr arian cyfatebol presennol a roddir gan y pedwar heddlu yn parhau ar y lefelau presennol.

*Creu cymunedau iachach a gwell amgylcheddau*

*Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhwng cymunedau ac yn darparu mwy o wasanaethau yn agosach i gartrefi pobl, gan gydnabod pwysigrwydd cymunedau a'r amgylchedd ehangach i iechyd da a llesiant.*

3.25 Bydd y buddsoddiad yn y **Gronfa Gofal Integredig (GGI)** yn 2019-20 yn codi i £85m, oherwydd y cynnydd mewn cyfalaf o'r gyllideb Tai ar gyfer y gronfa, a fydd yn codi i £35m yn 2019-20.

3.26 Mae'r GGI yn anelu at leihau'r pwysau ar y GIG ehangach a'r system gofal cymdeithasol drwy leihau derbyniadau diangen i'r ysbyty, derbyniadau amhriodol i ofal preswyl ac oedi wrth ryddhau o'r ysbyty. Mae'n meithrin cydweithio a phartneriaethau rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai a phartneriaid yn y trydydd sector a'r sector annibynnol.

3.27 Rydym wedi cadw'r cyllid ar gyfer **chwaraeon a gweithgarwch corfforol** ar ei lefel bresennol o £22.3m y flwyddyn, sy'n dangos ein hymrwymiad i wella lefelau gweithgarwch corfforol ac i bwysigrwydd atal afiechyd. Chwaraeon Cymru yw ein prif asiant darparu ar gyfer chwaraeon ac mae'n canolbwyntio ar wella cyfranogiad ar lefel gymunedol er mwyn gwella'r manteision i les cyffredinol ac i greu amgylchedd i athletwyr talentog gyflawni eu potensial yn llawn.

3.28 I gydnabod y manteision pellgyrhaeddol sy'n gysylltiedig â lefelau uwch o deithio llesol, bydd £20m arall yn cael ei fuddsoddi yn 2019-20 a £30m yn 2020-21 i gefnogi ein **Cronfa Teithio Llesol**, gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad cyfalaf i £26.6m yn 2019-20 a £36.6m yn 2020-21. Bydd yr arian yn helpu i wella'r gwaith o gyflwyno cynlluniau teithio llesol ledled Cymru. Byddant yn cysylltu ardaloedd preswyl â gwasanaethau a safleoedd gwaith ac addysg allweddol, gan alluogi mwy o bobl i gerdded a beicio wrth iddynt deithio bob dydd, gan arwain at fuddion iechyd unigol a chymdeithasol, yn ogystal â llai o dagfeydd, llygredd, allyriadau, a buddion economaidd.

3.29 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd ehangach i iechyd da a llesiant. Rydym yn darparu dyraniadau ychwanegol i gefnogi **ansawdd aer**. Bydd cyllid cyfalaf o £6.4m yn 2019-20 a £2.8m yn 2020-21 yn cefnogi ein huchelgais i wella ansawdd yr aer yng Nghymru.

3.30 Rydym hefyd yn dyrannu cyfanswm o £3.5m i **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** a £13.6m i **Arolygiaeth Gofal Cymru** yn 2019-20 gan sicrhau bod gennym wasanaethau arolygu cadarn i ddiogelu ein dinasyddion mwyaf bregus.

## Pennod 4: Uchelgeisiol ac yn Dysgu

4.1 Ein nod yw creu'r awydd ym mhawb i ddysgu drwy gydol eu bywydau, a'u hysbrydoli i fod y gorau y gallant fod.

*Helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial*

| |
|---|
| *Byddwn yn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bawb, drwy gefnogi pobl o'u geni, a thrwy gydol eu haddysg, a thu hwnt, er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gyflawni eu potensial naturiol.* |

4.2 Byddwn yn gweithio ar draws ffiniau fel y gallwn fod yn hyderus bod gennym wlad lewyrchus lle mai addysg o'r dechrau un fydd y sylfaen ar gyfer oes o ddysgu a chyflawni.

4.3 Mae ein ffyniant economaidd, ein cydlyniant cymdeithasol a'n lles wedi'u hadeiladu ar sylfeini system addysg lwyddiannus a chryf. Mae addysg yng Nghymru yn newid, wrth i ni gyflwyno ein cwricwlwm newydd, a fydd yn dod i rym yn llawn o 2022. Mae'r newidiadau hyn yn canolbwyntio ar godi safonau i bawb; lleihau'r bwlch cyrhaeddiad, dileu anghydraddoldebau a darparu system addysg y bydd y wlad yn falch ohoni ac y bydd gan y cyhoedd hyder ynddi.

4.4 Mae *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*, yn cyflwyno cynllun gweithredu pum mlynedd cychwynnol sy'n disgrifio sut bydd y system ysgol yng Nghymru, gan gynnwys y chweched dosbarth, yn datblygu hyd at 2021 i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei roi ar waith yn effeithiol ac yn aros yn gynaliadwy wedyn. Rydym yn parhau i fuddsoddi £10m i gefnogi'r gwaith o **ddiwygio'r cwricwlwm** sydd wrth galon ein cynllun gweithredu ar gyfer addysg yng Nghymru.

4.5 Yr ethos y tu ôl i'n cenhadaeth genedlaethol yw cyd-adeiladu - gyda'r proffesiwn addysgu, awdurdodau lleol, Estyn, consortia, Cyngor y Gweithlu Addysg ac eraill. Rydym yn cyfeirio'r swm cyfan o £23.5m dros ddwy flynedd (£8.7m yn 2018-19 a £14.8m yn 2019-20), a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 13 Medi, i gefnogi'r dyfarniad cyflog i athrawon ysgol. Dyma arian hanfodol i'n system addysg a bydd yn sicrhau y gallwn ddenu a chadw athrawon yng Nghymru a fydd, yn ei dro, yn cefnogi'n pobl ifanc i gyrraedd eu potensial.

4.6 Mae ein rhwydwaith o ysgolion arloesi - cwricwlwm; dysgu proffesiynol a digidol - yn cyflawni rôl ganolog yn natblygiad y cwricwlwm newydd, sy'n cynnwys arbenigwyr ar lawr gwlad. Drwy ariannu'r ysgolion hyn, rydym yn sicrhau bod gan ein hymarferwyr yr amser i ddatblygu cwricwlwm sy'n bodloni anghenion pob dysgwr yng Nghymru.

4.7 Mae 200 a mwy o ysgolion arloesi ledled Cymru yn rhan o'r gwaith o ddatblygu chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd safonau llythrennedd a rhifedd a chymhwysedd digidol uwch wrth galon y cwricwlwm newydd. I gydnabod hyn, rydym wedi cynnal ein buddsoddiad ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn 2019-20, gyda chyllideb o £6.6m, i gefnogi ein **rhaglen llythrennedd a rhifedd genedlaethol.**

4.8 Daeth yr **Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol** yn weithredol ym mis Medi i gefnogi arweinwyr ein hysgolion yn y dyfodol a fydd yn gyfrifol am gyflawni ein diwygiadau. Rydym wedi neilltuo £1m yn 2019-20 i gefnogi'r academi newydd.

4.9 Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi £100m yn ychwanegol dros dymor y Cynulliad hwn i godi safonau ysgolion, gyda £25.5m yn cael ei ddyrannu yn 2019-20. Mae dros hanner y buddsoddiad hwn yn cael ei gyfeirio at wella dysgu proffesiynol, gan gydnabod mai ein hathrawon a'n hymarferwyr ysgol yw'n cyfryngau gorau ar gyfer newid a gwella yn yr ystafell ddosbarth. Rydym hefyd yn dyrannu £15m yn ychwanegol ar gyfer **ysgolion** a byddwn yn parhau i flaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion.

**Astudiaeth Achos: Y Cyfnod Sylfaen**

Y Cyfnod Sylfaen yw'r cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn rhwng tair a saith oed yng Nghymru. Fe'i lluniwyd i ddarparu dysgu priodol i ddatblygiad plant o bob gallu ac mae'n anelu at leihau anghydraddoldeb drwy wneud dysgu'n bleserus ac yn fwy effeithlon.

Mae plant yn y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio chwarae i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu drwy weithgareddau uniongyrchol, sy'n eu galluogi i ymarfer ac atgyfnerthu eu dysgu, chwarae gyda syniadau, arbrofi, cymryd risgiau, datrys problemau a gwneud penderfyniadau.

Mae galluogi plant i gymryd rhan lawn yn eu dysgu ar gyfnod mor gynnar yn anelu at ysgogi cariad at ddysgu a all barhau gydol eu haddysg, gan roi mwy o gyfle ar gyfer gwell canlyniadau yn y tymor hir.

Mae datblygiad parhaus y Cyfnod Sylfaen yn ymdrech gydweithredol. Mae Rhwydwaith Rhagoriaeth y Cyfnod Sylfaen, a lansiwyd ym Mawrth 2018, yn cynnwys consortia addysg rhanbarthol, mudiadau ymbarél y sector nas cynhelir, sefydliadau addysg uwch, ysgolion a lleoliadau sy'n gweithio'n gydweithredol i wella addysgu a dysgu yn y Cyfnod Sylfaen drwy gefnogi ymarferwyr i ddatblygu addysgeg arloesol a gwella ymarfer.

4.10 Er mwyn adfer y cyllid ar gyfer y **Grant Gwella Addysg** i lefelau 2018-19, rydym yn defnyddio £11m o gyllid *Ffyniant i Bawb*, a ddyrannwyd yng Nghyllideb derfynol 2018-19, er mwyn gallu parhau i ddarparu £118m drwy'r grant yn 2019-20. Hefyd, rydym wedi dyrannu £8.7m yn rhagor o gronfeydd wrth gefn ar gyfer dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Theithwyr a Sipsi Roma yn 2019-20, er mwyn cynnal y cyllid ar lefelau 2018-19.

4.11 Mae **lleihau biwrocratiaeth ddiangen** ar gyfer athrawon yn dal yn flaenoriaeth ac mae dros £1.2m wedi cael ei ddarparu i godi nifer y rheolwyr busnes yn ein hysgolion, wedi'u hariannu'n rhannol (50%) gan Lywodraeth Cymru a'r elfen sy'n weddill yn dod drwy arian cyfatebol gan awdurdodau lleol.

4.12 Rydym hefyd yn cefnogi ein hysgolion bach a gwledig, gyda 340 o ysgolion wedi elwa o'r **Grant Ysgolion Bach a Gwledig**, gyda chyfanswm buddsoddiad o £10m dros dymor y Cynulliad hwn, a £2.5m ohono wedi cael ei ddyrannu yn 2019-20. Nod

y cyllid yma yw rhoi sylw i'r prif broblemau a wynebir gan ysgolion bach a gwledig a'u helpu i aros yn hyfyw yn eu cymunedau.

4.13 Er mwyn gwireddu ein hymrwymiad yn *Symud Cymru Ymlaen*, mae £36m wedi cael ei ddarparu dros dymor y Cynulliad hwn i alluogi awdurdodau lleol i **leihau nifer y dosbarthiadau babanod** sydd â 29 a mwy o blant ynddynt, sydd hefyd â lefelau uchel o amddifadedd, anghenion ychwanegol neu ganlyniadau is na'r cyfartaledd. Ar gyfer 2019-20, rydym wedi neilltuo refeniw o £5m a chyfalaf o £5m i gefnogi'r ymrwymiad hwn. Bydd dros 100 o ysgolion yn elwa o'r arian a bydd dros 90 o athrawon ychwanegol yn cael eu cyflogi ar y cam cyntaf.

4.14 Bwriad y **Grant Datblygu Disgyblion (GDD)** yw gwella canlyniadau i ddisgyblion dan anfantais; gan gefnogi ymyriadau, a fydd yn gwella cyrhaeddiad addysgol disgyblion o gefndiroedd difreintiedig ac yn eu helpu i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n eu hatal rhag cyflawni eu potensial yn llawn. Mae'r buddsoddiad hyd yma wedi cefnogi'r hyn sy'n cyfateb i dros 450,000 o ddysgwyr ac mae rhagor o gynnydd yn cael ei wneud. Bydd £93.7m yn cael ei ddarparu yn 2019-20.

4.15 Mae £3.554m yn ychwanegol wedi cael ei ddyrannu yn 2019-20 i gynnal ac ymestyn y cynllun **Mynediad i'r GDD**, sy'n helpu rhieni â'r costau beunyddiol o anfon eu plant i'r ysgol. Bydd yr arian yn cefnogi mwy o ddysgwyr mewn ffordd fwy hyblyg na'r grant gwisg ysgol blaenorol. Rydym hefyd wedi codi lefel y cyllid a roddir fesul disgybl i £125 o £105. Ar gyfer 2018-19, cafodd £1.777m ei ddyrannu yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cynllun Mynediad i'r GDD o ddechrau'r flwyddyn academaidd hon.

4.16 Mae ariannu'r cynllun Mynediad i'r Grant Datblygu Disgyblion yn rhan o becyn o fesurau a gyhoeddwyd yn y Gyllideb ddrafft amlinellol i helpu i atal tlodi ymysg plant a rhoi'r dechrau gorau un mewn bywyd i blant ifanc.

4.17 Cafodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr. Mae'r Ddeddf yn rhan bwysig o'r **rhaglen trawsnewid system anghenion dysgu ychwanegol**. Ei nod yw newid disgwyliadau, profiadau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Y llynedd, cyhoeddasom becyn cymorth gwerth £20m ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, rhwng 2017-18 a 2020-21, a fydd yn cefnogi'r broses o roi'r Ddeddf ar waith. Yn 2019-20, mae £5.7m wedi cael ei ddyrannu i'r rhaglen.

4.18 Mae'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad a ddarperir gan Gyrfa Cymru yn cefnogi unigolion o bob oed i ddatblygu sgiliau, i wella'u cyrhaeddiad a'u dyheadau, ac i ddatblygu sgiliau rheoli gyrfa sy'n hanfodol er mwyn gallu cyfrannu yn yr hirdymor at economi Cymru. O'r herwydd, rydym yn parhau i roi cymorth o £18.8m.

4.19 Bydd band A **Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain** yn derbyn buddsoddiad o dros £1.4 biliwn ar gyfer adeiladau ysgolion a cholegau rhwng 2014 a 2019. Bydd ail don o fuddsoddiad ym mand B yn dechrau ym mis Ebrill 2019 a fydd yn gweld £2.3 biliwn yn rhagor yn cael ei fuddsoddi yn y gwaith o foderneiddio seilwaith addysg Cymru drwy gyllid cyfalaf a chyllid refeniw. Bydd band B yn lleihau nifer yr ysgolion a cholegau sydd mewn cyflwr gwael yng Nghymru, yn darparu

digon o leoedd i gyflwyno addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg ac yn sicrhau bod yr ystâd addysg yn cael ei defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.

*Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw*

*Byddwn yn ehangu gorwelion pobl ac yn codi eu dyheadau drwy greu diwylliant entrepreneuraidd deinamig a sicrhau eu bod yn cael cyfle i ddatblygu a chyflawni mwy drwy gydol eu bywydau.*

4.20 Mae **addysg bellach** (AB) yn ceisio diwallu anghenion economaidd Cymru yn yr hirdymor drwy ddarparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau. Bydd £420m o gyllid yn 2019-20 ar gyfer AB yn rhoi cyfleoedd i bobl gyflawni eu dyheadau drwy wella'u sgiliau academaidd a galwedigaethol er mwyn cael gyrfaoedd sy'n fwy cynaliadwy, sy'n talu'n well ac yn rhoi mwy o foddhad. Mae hyn yn cynnwys cyllid i adfer cyllidebau chweched dosbarth i lefel 2018-19 ac i gefnogi dyfarniad cyflog athrawon yn nosbarthiadau chwech ysgolion. Mae cyllid i golegau AB yn codi £7m ers y cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2019-20 i gefnogi'r cynnydd demograffig.

4.21 Mae gan addysg uwch rôl allweddol yn y gwaith o dorri'r cylch tlodi drwy wella lefelau sgiliau, a gwella cyflogadwyedd a chyfleoedd am waith. Mae **CCAUC** yn cefnogi sefydliadau i ddarparu addysg ac ymchwil o safon uchel, gan wneud cyfraniad pwysig at yr economi a darparu cyfleoedd i bobl ddatblygu sgiliau lefel uwch sydd, yn ei dro, yn cefnogi'r economi ac yn helpu i leihau anghydraddoldeb. Rydym yn buddsoddi £141m yn 2019-20 gan gynnwys £5m ar gyfer prentisiaethau gradd, £5m er mwyn parhau â'r cynllun bwrsari ôl-radd interim a £1.4m ar gyfer Cymru Fyd-eang o Gronfa Bontio'r UE.

4.22 Rydym yn bwrw ymlaen ag argymhellion o adolygiad Diamond o addysg uwch a **chymorth i fyfyrwyr**, gan gyflwyno dull system gyfan ar draws moddau a lefelau astudio. Dyrannwyd £5m yn ychwanegol ar gyfer 2019-20 fel rhan o gyllideb 2018-19 i weithredu cam cyntaf diwygiadau Diamond ac i warchod y cohort. Ein nod yw chwalu'r rhwystrau sy'n atal mynediad i brifysgol drwy'r pecyn newydd hwn o gymorth ar gyfer costau byw, gan gynnwys grantiau cynhaliaeth gwell. Bydd yr ymrwymiad hwn yn cael ei ariannu drwy'r grant cymorth i fyfyrwyr gyda chyllideb o £425m yn 2019-20.

4.23 Fel rhan o'r cytundeb â Phlaid Cymru ar y gyllideb, mae £20m yn parhau i gael ei ddyrannu i addysg bellach ac addysg uwch er mwyn rhoi cyfle i'r sectorau baratoi ar gyfer gweithredu ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Diamond. Yn unol â chanfyddiadau adolygiad Diamond, bydd yr arian hwn yn annog cydweithio agosach rhwng y sectorau wrth baratoi ar gyfer diwygiadau i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

4.24 Mae Cymru yn gwario dros £350m bob blwyddyn i gefnogi addysg a hyfforddiant ar gyfer **gweithlu'r GIG**. Mae'r arian hwn yn cefnogi'r rheini sy'n paratoi i gychwyn gweithio yn y GIG ac mae'n darparu cyfleoedd hyfforddi ychwanegol i staff sydd eisoes yn gweithio yn y GIG i ddatblygu a gwella'u sgiliau.

4.25 Yn 2019-20, byddwn yn parhau i ehangu nifer y lleoedd mewn ysgolion meddygol, gyda 40 lle ychwanegol ar gael ledled Cymru. Bydd yr ehangu hwn yn rhoi cyfle i fwy o fyfyrwyr meddygol astudio yng Ngogledd Cymru ac i weithio tuag at ddarparu

llwybrau i feddygon gael eu hyfforddi'n llwyr yng Ngogledd Cymru. Bydd mwy o ffocws ar hyfforddi yn y gymuned, sy'n adlewyrchu'r newid i ddarparu mwy o ofal yn agosach at gartrefi pobl. Bydd y trefniadau newydd hefyd yn rhoi mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg wneud eu hastudiaethau yn Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei gefnogi drwy ddefnyddio'r £7m yn ychwanegol y cytunwyd arno fel rhan o'r cytundeb dwy flynedd â Phlaid Cymru ar y Gyllideb.

4.26 Bydd **Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru** yn parhau i bobl sy'n dewis astudio rhaglen gymwys sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yng Nghymru, a fydd yn cychwyn ym mlwyddyn academaidd 2019-20. Yng Nghymru, mae hyn yn golygu y bydd y pecyn bwrsariaeth llawn yn parhau i fod ar gael i'r rheini sy'n ymrwymo ymlaen llaw i weithio yng Nghymru am hyd at ddwy flynedd ar ôl cymhwyso.

*Sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid*

*Byddwn yn galluogi pobl i ddatblygu'u sgiliau yn unol â'r newidiadau cyflym yn yr economi fyd-eang, er mwyn cadw Cymru yn gystadleuol a sicrhau cyflogaeth mewn byd ansicr.*

4.27 Rydym yn cydnabod y rôl sydd gan sgiliau a dysgu gydol oes yn y maes datblygu economaidd ac rydym wedi cynnal y lefelau cyllido ar gyfer **dysgu seiliedig ar waith** (gan gynnwys cefnogaeth i brentisiaethau gradd), gyda £115m wedi'i ddyrannu yn 2019-20. Mae hyn cynnwys £82m o refeniw i wneud y defnydd gorau posibl o arian sydd ar gael o Ewrop, tra bo'r DU yn dal yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

4.28 Er mwyn helpu pobl a busnesau i ysgogi ffyniant, byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i helpu a chefnogi pobl i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael y swyddi y maent yn eu dymuno. Byddwn yn parhau i gefnogi ein hymrwymiad nodedig o greu o leiaf **100,000 o brentisiaethau i bobl o bob oed** dros dymor y Cynulliad hwn. Rydym wedi trosglwyddo £5m o'r llinell gyllideb dysgu seiliedig ar waith i addysg uwch, i godi nifer y prentisiaethau gradd lefel uwch.

4.29 Ym mis Ebrill 2019, byddwn yn lansio rhaglen cyflogadwyedd newydd o'r enw **Cymru'n Gweithio**. Bydd hon yn disodli'r rhaglen hyfforddeiaethau bresennol, gyda £24m o gyllid refeniw yn 2019-20 yn cael ei drosglwyddo i Cyflogadwyedd a Sgiliau o Ddysgu Seiliedig ar Waith yn y gyllideb hon.

4.30 Roedd datblygiad y *Cynllun Cyflogadwyedd* trawslywodraethol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018, yn ategu'n hymrwymiad i ail-lunio cymorth cyflogadwyedd ar gyfer unigolion sy'n barod i gael swyddi, a'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur, er mwyn iddynt feithrin y sgiliau a'r profiad i ennill a chadw swyddi cynaliadwy. Rydym wedi edrych yn ofalus ar y gwasanaethau presennol a'r seilwaith cyflogadwyedd ac wedi sefydlu cynnig cyflogadwyedd symlach newydd, *Cymru'n Gweithio*. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran sgiliau a chyflogadwyedd ym mhennod chwech.

4.31 Mae plant a phobl ifanc heddiw yn wynebu byd sy'n newid yn gyflym, byd sy'n fwyfwy cystadleuol, sy'n fyd-eang ei gysylltiadau ac sy'n flaenllaw yn dechnolegol. Rydym am roi'r sgiliau a'r wybodaeth i genedlaethau'r dyfodol i'w galluogi i gymryd rhan lawn yn eu cymunedau a chymdeithas yn ehangach. Felly mae arnom angen

dysgwyr uchelgeisiol a galluog; cyfranogwyr mentrus a chreadigol; dinasyddion gwybodus a moesegol; ac unigolion hyderus ac iach.

4.32 *Dysgu yn y Gymru Ddigidol* yw rhaglen weithredu Llywodraeth Cymru i wella'r defnydd o dechnoleg ddigidol ar gyfer addysgu a dysgu mewn ysgolion. Mae'r rhaglen hanfodol hon yn rhoi band eang priodol i randdeiliaid ledled Cymru, gan alluogi ysgolion i roi mynediad cyson i ddisgyblion at amrywiaeth o adnoddau ac offer digidol i gefnogi ac i helpu i weddnewid arferion y dosbarth digidol. Mae gan y rhaglen gyllideb o £4.5m yn 2019-20, sy'n cynnwys cyllid ar gyfer gwasanaeth Darparwr Hunaniaeth Ddigidol Addysg Cymru a chynllun band eang ysgolion.

4.33 Mae cyflwyno seilwaith band eang, a ddisgrifir yn fanylach yn yr adran Unedig a Chysylltiedig, yn rhoi cyfleoedd addysgol o'r crud i'r bedd drwy ddarparu mynediad i ddysgu digidol sy'n canolbwyntio ar blant bach; ysgolion yn cyflwyno strategaeth cymhwysedd digidol Llywodraeth Cymru drwy brosiect Dysgu yn y Gymru Ddigidol; prifysgolion yn darparu cyfleoedd ar gyfer ymchwil digidol, mynediad i gyfleoedd addysgol, un ai drwy ysgolion a cholegau neu gartref a darparu cyfleoedd i bobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol i gael gafael ar wybodaeth ac addysg drwy lyfrgelloedd a grwpiau cymunedol.

4.34 Sbardun twf economaidd a chynnydd cymdeithasol yw ymchwil, arloesedd a datblygu'r sgiliau iawn ar gyfer byd sy'n newid. I hyrwyddo ac annog y gweithgareddau hyn mae angen i ni fuddsoddi mewn **ymchwil a datblygu** a gwella'r cysylltiadau rhwng prifysgolion, cwmnïau, gwasanaethau cyhoeddus a mudiadau cymunedol. Rydym wedi adfer cyllid refeniw o £800k mewn gwyddoniaeth i gynnal y gyllideb ar lefelau 2018-19 ar gyfer yr **Academi Wyddoniaeth Genedlaethol** ac i ddarparu arian cyfatebol er mwyn cael £5.7m yn rhagor dros y pedair blynedd nesaf o'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

4.35 Hefyd, bydd £500k yn 2019-20 yn cefnogi'r Prif Ymgynghorydd Gwyddonol i ymgysylltu â'r gymuned wyddonol fyd-eang, cydweithio â busnesau a phrifysgolion er mwyn ehangu economi Cymru.

4.36 Bydd rhaglen gyfalaf **Sêr Cymru** yn dal i gael £4.9m yn 2019-20 ac yn 2020-21 i ddatblygu rhagoriaeth ym maes ymchwil yn y meysydd heriau mawr sef gwyddorau bywyd ac iechyd, uwch beirianneg a deunyddiau a charbon isel, ynni a'r amgylchedd. Mae'r rhaglen arbennig hon wedi dod â nifer o ymchwilwyr talentog, yn gynharach yn eu gyrfaoedd, i gefnogi a gwella'r cryfderau sydd eisoes ar gael ac i ddechrau datblygu timau mewn meysydd newydd sydd wedi'u pennu'n bwysig yn strategol i Gymru.

## Pennod 5: Unedig a Chysylltiedig

5.1 Ein nod yw meithrin cenedl hyderus lle mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, yn eu hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, a'n lle yn y byd.

*Datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth*

| |
|---|
| *Byddwn yn creu gwlad o gymunedau bywiog, croesawgar a chydlynol, sy'n ymfalchïo yn y presennol ac yn uchelgeisiol am y dyfodol − cenedl wirioneddol ddwyieithog sy'n dathlu ei diwylliant, ei threftadaeth a'i hamrywiaeth unigryw.* |

5.2 Rydym am weld Cymru yn wlad o gymunedau cysylltiedig a ffyniannus ac rydym yn gosod y sylfeini ar gyfer hyn drwy ddefnyddio'n buddsoddiadau ym meysydd iechyd, tai ac addysg. Rydym yn cysoni ein penderfyniadau buddsoddi er mwyn cyd-leoli gwasanaethau lle bo modd a cheisio sicrhau eu bod yn cael yr effaith orau posibl.

5.3 Mae llywodraeth leol ar y rheng flaen wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gan ymateb i anghenion lleol, a helpu i ddarparu ymateb cydgysylltiedig cyflawn ochr yn ochr â gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Yn y Gyllideb ddrafft amlinellol, disgrifiwyd ein dull gweithredu ar gyfer diogelu gwasanaethau ar y rheng flaen ac amlinellu dyraniadau ychwanegol, fel buddsoddiadau ym maes gofal cymdeithasol a dyraniadau cyfalaf i wella'r rhwydwaith trafnidiaeth. Rydym yn cydnabod y pwysau mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu a byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i'w gwarchod rhag effeithiau gwaethaf cyni. Yn dilyn Cyllideb Hydref y DU ar 29 Hydref, gwasanaethau Llywodraeth Leol yw prif flaenoriaeth y Llywodraeth ar gyfer arian ychwanegol os digwydd i adnoddau ychwanegol gael eu darparu i Lywodraeth Cymru.

5.4 Fel rhan o'n cynlluniau yn *Cymru Iachach* ar gyfer gofal integredig, gwell, yn nes at gartrefi pobl, rydym yn buddsoddi dros £72m mewn 19 **canolfan iechyd a gofal integredig** newydd ar draws Cymru i 2021. Mae achosion busnes wrthi'n cael eu datblygu ac mae'r rhain yn cynnwys cynllun arfaethedig gwerth £8m yn Ysbyty Bro Ddyfi ym Machynlleth, sy'n cynnwys canolfan integredig ar gyfer gwasanaethau cleifion allanol a gofal iechyd cymunedol, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau'r trydydd sector.

5.5 Rydym yn buddsoddi £2m yn rhagor i ymestyn **System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru**. Mae'r system hon yn rhoi'r offer digidol i ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol i'w galluogi i gydweithio ar draws ffiniau sefydliadol, gan ddarparu gofal yn nes at gartrefi pobl. Mae'n darparu cofnod gofal diogel sy'n cael ei rannu, gan alluogi ymarferwyr i gydlynu achosion a rheoli llifau gwaith.

5.6 Mae sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y gofal a'r gefnogaeth maent ei hangen wrth galon ein cynllun peilot, **rhagnodi cymdeithasol**. Bwriad y cynllun yw sicrhau bod pobl yn cael eu trin fel unigolion, gan gydnabod yr holl ffactorau sy'n effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u lles. Mae'r peilot yn canolbwyntio ar nifer o ymyriadau a gwasanaethau lleol nad ydynt yn rhai clinigol, a allai gynnwys gweithgareddau fel gwirfoddoli, dysgu grŵp a chyfeillio. Rydym yn buddsoddi dros £1.8m dros dair blynedd i fudiadau yn y trydydd sector gyflwyno'r peilot, a fydd yn datblygu gwaith sydd eisoes yn digwydd ledled Cymru i hyrwyddo rhagnodi cymdeithasol.

5.7 Rydym hefyd yn buddsoddi cyfalaf o £15m dros ddwy flynedd (£5m yn 2018-19 a £10m yn 2019-20) i sicrhau bod ysgolion yn dod yn **hybiau cymunedol** ac i ddarparu **canolfannau dysgu cymunedol** gyda gwasanaethau estynedig, gan gynnwys cymorth magu plant a gofal plant. Bydd y buddsoddiad hwn yn ariannu cynlluniau peilot ac, os yn llwyddiannus, gellir cyflwyno'r dull hwn ledled Cymru.

5.8 Mae ein buddsoddiadau yn y maes **tai** – y manylion i'w cael yn yr adran tai ym mhennod chwech – yn cydnabod bod tai fforddiadwy a thai o ansawdd da yn helpu pobl i fyw bywydau llawn ac i gael cysylltiad cryf â'u cymuned leol, sy'n cyfrannu hefyd at iechyd da gan gynnwys iechyd meddwl gwell.

5.9 Mae'r **gronfa cymorth dewisol** yn darparu taliadau nad oes yn rhaid eu had-dalu neu gymorth o fath arall, i bobl y mae angen cymorth brys arnynt. Yn benodol, mae'r gronfa'n gallu helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain sydd hefyd yn ei dro yn atal pwysau diangen ar wasanaethau cyhoeddus. I fodloni'r galw cynyddol ar y gronfa cymorth dewisol, rydym yn darparu £2m yn ychwanegol yn 2019-20 i gynyddu'r gyllideb i £11.7m.

5.10 Roedd yr arian ychwanegol ar gyfer y gronfa cymorth dewisol yn rhan o becyn o fesurau a gyhoeddwyd yn y Gyllideb ddrafft amlinellol. Y nod oedd helpu i fynd i'r afael â thlodi plant - mae'r arian yn cefnogi rhai o bobl fwyaf bregus Cymru.

5.11 I gryfhau'r cysylltiad sydd gan bobl â'u cymuned leol, rydym yn buddsoddi £5m yn 2019-20 yn y **Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol**, sy'n darparu grantiau cyfalaf i ddatblygu cyfleusterau cymunedol, gan ddarparu cyfleoedd i bobl leol ddod at ei gilydd i wella'u bywydau beunyddiol. Mae'r gyllideb yn helpu cymunedau i gynnal cyfleusterau lleol sy'n dod â phobl at ei gilydd, gan gynnwys tafarndai, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, mannau gwyrdd, canolfannau celfyddydol a chanolfannau hamdden, sy'n gam gweithredu penodol yn y strategaeth genedlaethol. Un elfen hanfodol ar gyfer yr arian yw bod y gymuned yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r cynigion a sut y bydd yn parhau i fod yn ymwneud â'r gwaith. Mae hyn yn cefnogi'n dyhead i feithrin cymunedau cryf ac i rymuso pobl leol, gan eu cynnwys yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardaloedd lleol.

5.12 Rydym yn cydnabod bod cymunedau yn ymfalchïo yn eu **treftadaeth, eu diwylliant a'u hamrywiaeth lleol** ac mae ein buddsoddiadau yn 2019-20 yn cynnwys £10.9m er mwyn i Cadw weithio tuag at sicrhau amgylchedd hanesyddol yng Nghymru sy'n hygyrch ac wedi'i ddiogelu'n dda. Bydd y buddsoddiad hwn, sy'n cynnwys dyraniad cyfalaf ychwanegol o £3.8m yn 2019-20 yn galluogi Cadw i ddatblygu ei gynnig masnachol mewn nifer o safleoedd ar draws Cymru gan gynnwys Castell Caerffili, Castell y Fflint, Llys Tretŵr, Castell Caernarfon a Porth Mawr. Bydd yr arian yn helpu i gynnal cymeriad unigryw Cymru ac i godi'n proffil fel cyrchfan o'r radd flaenaf i ymwelwyr.

5.13 Bydd ein cyllideb hefyd yn helpu i sicrhau dyfodol yr **Iaith Gymraeg** a bydd yn bwysig ar gyfer cyflawni ein huchelgais o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, fel y nodir yn *Cymraeg 2050*. Mae gosod targed hirdymor yn adlewyrchu'r ffaith nad yw gweithgarwch i gynyddu nifer y siaradwyr yn digwydd dros nos - mae cynllunio ieithyddol yn ymdrech hirdymor, sy'n gofyn am lefel ariannu briodol. Bydd blynyddoedd cyntaf y strategaeth yn canolbwyntio ar osod y sylfeini ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y tymor hwy.

5.14 Mae'r gyllideb **Y Gymraeg mewn Addysg**, sy'n £29m yn 2019-20, yn greiddiol i lwyddiant *Cymraeg 2050*, gan sicrhau y bydd mwy o'n pobl ifanc yn gallu siarad Cymraeg a'u bod yn parhau i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau beunyddiol gan gynnwys yn y gwaith. Mae'r gyllideb yn cefnogi ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg mewn grwpiau meithrin hyd at gefnogi pobl ifanc i symud o addysg statudol i addysg ôl-16 a hyfforddiant gan barhau i ddatblygu eu sgiliau dwyieithog.

5.15 Bydd cyllid cyfalaf o £60m dros dair blynedd (2018-19 i 2021-22) i gefnogi'r broses o gyflwyno'r **cynnig gofal plant** – i sicrhau bod darpariaeth bresennol y Cyfnod Sylfaen a darpariaeth newydd y cynnig gofal plant ar gael ar yr un safle – hefyd yn cefnogi'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ledled Cymru.

5.16 Bydd cyllid o £5.9m ar gyfer yr Iaith Gymraeg yn 2019-20 yn rhoi'r cyfle i deuluoedd, pobl ifanc a'r gymuned ddysgu, defnyddio a gwella'u **sgiliau iaith Gymraeg** a meithrin hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Mae'r arian yn cefnogi gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cael eu cyflwyno drwy grantiau a roddir i fudiadau fel y Mentrau Iaith, yr Urdd, Merched y Wawr a'r Ffermwyr Ifanc. Mae hyn yn helpu i gynnal y Gymraeg mewn cymunedau Cymraeg, cynnal y diwylliant lleol a sicrhau bod yr iaith yn dal yn rhan fyw a naturiol o gymunedau.

5.17 Mae cyllid refeniw o £66.9m yn cael ei ddyrannu yn y gyllideb yn 2019-20 i gefnogi diwylliant a'r celfyddydau, gan gynnwys cyllid craidd ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae ein cefnogaeth i ddiwylliant a'r celfyddydau hefyd yn cynnwys cyllid cyfalaf o £10.4m yn 2019-20 a £3m yn 2020-21.

*Darparu seilwaith modern a chysylltiedig*

*Byddwn yn buddsoddi yng nghysylltiadau'r 21ain Ganrif y mae eu hangen arnom i ffynnu a chystadlu, gan gysylltu pobl, cymunedau, busnesau a gwasanaethau i ysgogi ffyniant.*

5.18 Mae seilwaith cysylltiedig, modern o safon uchel yn allweddol i alluogi llesiant – gall ysgogi cystadleurwydd a chynhyrchiant a bod yn gatalydd i ragor o adfywio a chefnogi cymunedau bywiog. Mae ein cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith yn cael eu disgrifio yn adolygiad hanner ffordd ***Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru*** i sicrhau bod Cymru yn meddu ar y seilwaith priodol i ddiwallu anghenion y wlad yn y dyfodol.

5.19 Mae ein ***Cynllun Gweithredu Economaidd*** yn nodi ein huchelgais o ran datblygu'r economi ac arfogi pobl, lleoedd a busnesau i wynebu'r dyfodol yn hyderus. Yr hyn sy'n greiddiol i'r cynllun yw darparu seilwaith modern a chysylltiedig, a fydd yn cefnogi twf a buddsoddiad. Mae hyn yn cyd-fynd yn agos iawn â'r **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** sy'n nodi sut y byddwn yn cynllunio, yn cydgysylltu ac yn sicrhau bod ein buddsoddiadau mewn seilwaith yn cydweithio'n effeithiol ac yn cefnogi ein huchelgais hirdymor o ran lle bydd pobl yn byw, yn gweithio, a sut byddant yn teithio.

5.20 Bydd **Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru** yn gorff anstatudol ac annibynnol, a fydd yn cynghori Gweinidogion Cymru am anghenion seilwaith amgylcheddol ac

economaidd Cymru yn y tymor hwy. Bydd y Comisiwn yn dadansoddi tystiolaeth ac yn gwneud argymhellion am anghenion Cymru dros gyfnod o bump i 30 mlynedd.

5.21 Rydym yn gwneud yn siŵr fod y cysylltiadau yn eu lle i ddod â chymunedau at ei gilydd gan ddefnyddio dull integredig i gynllunio trafnidiaeth. Mae gan drafnidiaeth rôl hollbwysig ar gyfer ein gwneud yn fwy cystadleuol yn economaidd a gwireddu ein huchelgais gymdeithasol. Mae'n hanfodol hefyd os ydym i annog rhagor o gwmnïau i ymsefydlu yng Nghymru a chefnogi'n busnesau i dyfu.

5.22 Trafnidiaeth Cymru, gyda chyllid refeniw o £171m yn 2019-20, fydd yn darparu'r fasnachfraint rheilffyrdd newydd. Eleni, fe gyrhaeddom garreg filltir bwysig wrth gyflwyno **rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus** diogel, fforddiadwy a hygyrch yng Nghymru wrth i Trafnidiaeth Cymru ddyfarnu gwasanaeth 15 mlynedd Trenau Cymru a'r Gororau i KeolisAmey, sy'n werth bron i £5 biliwn.

5.23 Bydd ein rhwydwaith yn cael ei drawsnewid er mwyn diwallu anghenion cymunedau ledled Cymru yn well. Rydym wedi ymrwymo £800m dros gyfnod hirach i gyflwyno trenau newydd ar draws y rhwydwaith, a fydd erbyn 2023 yn golygu y bydd 95% o'r holl deithiau ar drenau yn cael eu gwneud ar drenau newydd, carbon isel. Bydd £194m arall yn cael ei roi i wella profiadau'r teithwyr yn ein gorsafoedd ar draws Rhwydwaith Cymru a'r Gororau.

5.24 Mae £738m wedi'i glustnodi i foderneiddio'r llinellau metro canolog, sy'n golygu y gall mwy o drenau redeg pob awr. Ar ben hynny, bydd cyfleoedd gwaith yn uniongyrchol gysylltiedig â'r contract newydd, gyda 600 o swyddi newydd yn cael eu cynnig a 450 o brentisiaethau yn ystod oes y contract.

5.25 Mae'r penodiad yn darparu cryn dipyn o gyfleoedd a buddion, gan gynnwys rhaglen fuddsoddi gwerth £1.9 biliwn gan y cwmni, KeolisAmey, sy'n cefnogi ein hamcanion i weddnewid cymunedau a bywydau pobl ym mhob cwr o Gymru a'r gororau.

5.26 Bydd cyllid cyfalaf o £185m yn 2019-20 a £186m yn 2020-21 yn cefnogi **Trafnidiaeth Cymru** i gyflwyno'r fasnachfraint rheilffyrdd newydd. Un o'r elfennau cynnar yn y rhaglen gyffredinol o welliannau fydd datblygu depo Ffynnon Taf, a fydd hefyd yn lle i gadw a rhoi gwasanaeth i drenau metro newydd ac yn lle i ganolfan reoli integredig Metro De Cymru.

5.27 Bydd Trafnidiaeth Cymru yn dechrau camau nesaf y gwaith o gyflwyno Metro Gogledd Cymru drwy gynyddu nifer y trenau ar y llinell rheilffordd rhwng Wrecsam a Bidston i ddau drên yr awr o 2019 ymlaen gan ddefnyddio trenau Metro sydd wedi'u hadnewyddu'n llwyr. Bydd trenau modern newydd o'r radd flaenaf ar gyfer teithiau byrrach, fel y gwasanaethau rheolaidd ar hyd arfordir gogledd Cymru, yn dod i ogledd Cymru erbyn 2022.

5.28 Mae bysiau'n elfen hollbwysig o drafnidiaeth gyhoeddus, a bydd Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru yn dal yn canolbwyntio'n benodol ar hyn. Rydym yn darparu cyllid refeniw o £25m yn 2019-20 tuag at y grant cynnal gwasanaethau bysiau a £60m o gyllid cyfalaf a refeniw yn 2019-20 i ariannu tocynnau teithio rhatach. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn edrych i weld sut mae modd cynnig gwasanaethau bysiau yn y dyfodol sy'n sicrhau bod cymunedau gwledig a threfol ledled Cymru yn elwa o wasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus integredig a modern.

5.29 Rydym yn darparu £1m i gefnogi **teithio ar fws TrawsCymru am ddim ar y penwythnos**. Mae TrawsCymru yn cefnogi'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus pellter yng Nghymru ac yn cynnig cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus sylweddol sy'n strategol bwysig ar hyd y prif lwybrau nad yw'r rhwydwaith rheilffyrdd yn eu gwasanaethu.

5.30 Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau buddsoddi'n barod i roi cyfnewidfeydd trafnidiaeth ar waith i hwyluso'r rhyngweithio rhwng dulliau teithio. Un enghraifft yw'r gyfnewidfa trafnidiaeth newydd yn Bow Street, ger Aberystwyth.

5.31 Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein seilwaith ffyrdd, yn unol â'n Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, gyda chyllid cyfalaf o £76.4m yn 2019-20 a £173.8m yn 2020-21. Bydd y buddsoddiad hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno cynlluniau sy'n bwysig yn strategol, fel yr A465 - Ffordd Blaenau'r Cymoedd rhwng Gilwern a Brynmawr, ffordd osgoi'r Drenewydd, coridor yr A55 ar draws Gogledd Cymru a'r A40 yng ngorllewin Cymru. Drwy ddatblygu'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y gogledd a'r de a rhwng y dwyrain a'r gorllewin, gallwn greu cyfleoedd i ddatblygu a denu busnesau mewn gwahanol rannau o Gymru, a gwella mynediad cymunedau at wasanaethau cyhoeddus, hyfforddiant, cyfleoedd hamdden a gwaith. Fel rhan o'r cytundeb cyllideb dwy flynedd gyda Phlaid Cymru, cafodd dyraniad cyfalaf o £15m ei neilltuo yn 2019-20 i wella'r A487 a'r A470.

5.32 Hefyd, rydym wedi dyrannu £4m (dros 2018-19 a 2019-20) i gefnogi'r gwaith o ddylunio a datblygu **trydedd bont dros afon Menai** fel rhan o gytundeb y gyllideb gyda Phlaid Cymru yn 2017. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol, busnesau a'r Grid Cenedlaethol. Caiff pont newydd ei hadeiladu i'r dwyrain o'r Bont Britannia bresennol, a bydd cyfleusterau ychwanegol i gerddwyr a beicwyr fel rhan o'r cynllun.

5.33 Byddwn yn buddsoddi cyfalaf ychwanegol o £78m dros dair blynedd (£26m ym mhob un o'r cyfnod blynyddoedd 2018-19, 2019-20 a 2020-21) i gefnogi'r **Gronfa Trafnidiaeth Leol**. Daw hyn â chyfanswm y dyraniad cyfalaf yn y gyllideb hon i £36.1m yn 2019-20 a £31.1m yn 2020-21. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i wella cysylltiadau trafnidiaeth leol, gan ddod â phobl, cymunedau, busnesau a gwasanaethau at ei gilydd i ysgogi ffyniant.

5.34 Gan adeiladu ar y buddsoddiad gwerth £30m i awdurdodau lleol yn 2017-18 i gynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd lleol ac atal eu dirywiad, rydym yn rhoi cyfalaf ychwanegol o £60m dros dair blynedd (£20m ym mhob un o'r cyfnod blynyddoedd 2018-19, 2019-20 a 2020-21) i gefnogi rhaglen **adnewyddu priffyrdd cyhoeddus llywodraeth leol**.

5.35 Mae'r *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan **Maes Awyr Caerdydd** i Gymru a'n gweledigaeth ar gyfer twf cynhwysol. Rydym wedi buddsoddi yn adeilad y derfynfa i wella profiad teithwyr, ac rydym wedi llwyddo i ddenu cwmnïau a hediadau newydd i'r maes awyr. I wella cysylltiadau'r maes awyr â'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach, bydd y cynlluniau ar gyfer Metro De Cymru yn cynnig gwasanaethau trenau ychwanegol a chyfnewidfa fysiau newydd yng ngorsaf Tref y Barri i ddarparu cyfleusterau o safon uchel ar gyfer cysylltiad bws newydd i'r maes awyr. Hefyd, rydym wedi buddsoddi yn y seilwaith ffyrdd lleol. Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys cyllid refeniw o £5.6m yn 2019-20 a chyllid cyfalaf o £6m yn 2019-20 a £2m yn 2020-21 i gefnogi datblygiadau ym maes hedfan ledled Cymru.

5.36 Rydym yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i ddatganoli toll teithwyr awyr i Gymru.

5.37 Nid dim ond ein rhwydwaith trafnidiaeth sy’n bwysig wrth gysylltu cymunedau ledled Cymru a’r byd mawr. Mae **cysylltedd digidol gwell** yn cysylltu mwy o bobl gyda mwy o swyddi, nwyddau a gwasanaethau, ac mae’n gallu helpu i wneud cymunedau gwledig yn gynaliadwy. Mae’n gallu ein helpu hefyd i newid ein patrwm gweithio, lleihau tagfeydd, a chefnogi ein dyhead i fyw bywyd carbon is.

5.38 Drwy sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu cael gafael ar dechnolegau digidol a gwasanaethau ar-lein, rydym yn gweithio i sicrhau cymdeithas ac economi sy’n fwy clyfar ac sydd â chysylltiadau gwell.

5.39 Yn erbyn y cefndir hwn o drawsnewid digidol, *Cyflawni Cymru Ddigidol* yw’r cynllun trosfwaol ar gyfer datblygu cysylltedd digidol yng Nghymru. I ymestyn rhaglen **Cyflymu Cymru**, rydym yn buddsoddi £43.5m o gyllid cyfalaf dros ddwy flynedd (£17.5 yn 2019-20 a £26m yn 2020-21), sydd hefyd yn ysgogi cyllid Ewropeaidd, i gyflawni cam nesaf y gwaith o gyflwyno band eang cyflym. Bydd hyn yn darparu band eang cyflym a dibynadwy i’r rhannau hynny o Gymru nad yw’r farchnad yn eu gwasanaethu ar hyn o bryd, ac yn bodloni ein hymrwymiadau yn *Symud Cymru Ymlaen*.

5.40 Bydd sicrhau'r seilwaith digidol gyda chymorth ein cyllid cyfalaf yn helpu i gefnogi cenedlaethau’r dyfodol i ddatblygu eu sgiliau TGCh drwy wneud yn siŵr bod holl ddinasyddion Cymru yn gallu cael gafael ar fand eang cyflym. Mae ein cynlluniau yn darparu £1.25m o gyllid refeniw yn 2019-20 i gefnogi cynhwysiant digidol i helpu pobl i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus digidol, gan gynnwys helpu i gael a chadw swydd, cael gafael ar wasanaethau iechyd a gwella lles cyffredinol, gan atal ymyriadau mwy costus i bwrs y wlad.

5.41 Mae **Prosiect cydgasglu band eang y sector cyhoeddus** yn helpu'r sector cyhoeddus i sicrhau mwy o werth am arian drwy ddarparu ffordd o fynd ati ar y cyd i brynu gwasanaethau rhwydweithio ardal eang gan fwy na 100 o sefydliadau a bron i 5,000 o safleoedd. Rydym yn buddsoddi dyraniad refeniw o £8.7m yn 2019-20 i gefnogi model gweithredu newydd. Bydd hyn yn parhau â’n gwaith i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion a meddygfeydd, i gael mynediad at rwydwaith cadarn, diogel a chyflym i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon i ddinasyddion.

### *Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd*

*Byddwn yn sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn flaengar ac yn ymgysylltu’n llwyr ag Ewrop a’r byd, gan feithrin cysylltiadau newydd ar gyfer masnach a buddsoddiadau, a hyrwyddo’r gorau sydd gan ein gwlad i’w gynnig ym mhob cwr o’r byd.*

5.42 Ein nod yw gwella proffil, enw da a dylanwad Cymru, a datblygu a chynnal cysylltiadau ym mhedwar ban y byd i helpu i hyrwyddo’r wlad, cefnogi twf busnesau a denu ymwelwyr.

5.43 Mae ein cynghorwyr masnach a’n swyddfeydd rhyngwladol yn gweithio’n agos gyda busnesau Cymru i helpu i fanteisio ar farchnadoedd newydd yng ngogledd America,

y Dwyrain Canol, y Dwyrain Pell a phob man arall. Mae penderfyniad y DU i ymadael â’r UE ym mis Mawrth 2019 yn dynodi newid sylfaenol yn yr amgylchedd rhyngwladol. Rydym yn gweithio mewn ffordd strategol i ehangu ein swyddfeydd rhyngwladol, ar sail asesiad o’r cyfleoedd economaidd i fusnesau Cymru. Bydd cyllideb o £6.4m yn 2019-20 yn cefnogi’r ehangu yma.

5.44 Mae gwerth **allforion Cymru** yn parhau i dyfu, ac wedi cynyddu £0.7 biliwn yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2018. Yn 2019-20 rydym wedi dyrannu £1.9m ar gyfer gweithgarwch allforio, masnach a mewnfuddsoddi i helpu cwmnïau i fanteisio ar gyfleoedd i dyfu a hyrwyddo Cymru yn effeithiol yn fyd-eang.

5.45 Rydym yn cefnogi’r **diwydiant bwyd a diod** i ddatblygu ac i symud i gyfeiriad newydd, gan groesawu technoleg newydd a chynnydd mewn ymchwil a datblygu i roi Cymru ar flaen y gad o ran cynhyrchu bwyd a diod. Mae'r gyllideb o £5.2m yn cefnogi’r dasg o roi'r ymrwymiadau a geir yn strategaeth *Tuag at Dwf Cynaliadwy* ar waith trwy ddatblygu ac ehangu cynhyrchu bwyd a'r diwydiannau bwyd a diod yng Nghymru. Rydym yn dal i weithio gyda'n partneriaid ym mhob rhan o'r diwydiant i adeiladu ar gryfderau'r diwydiant ac ychwanegu at werth bwyd Cymru ym mhob cam o'r gadwyn gyflenwi. Ein targed erbyn 2020 yw cynyddu gwerthiant i £7 biliwn.

5.46 Mae **twristiaeth** yn cyfrannu mwy a mwy i’n cyfoeth, ac mae’n bwysig bod Cymru yn cael ei hadnabod ym mhob cwr o'r byd. Bydd hyrwyddo Cymru gydag egni newydd yn manteisio i’r eithaf ar ein cyfleoedd economaidd, ac yn helpu i sicrhau bod y manteision cystadleuol sydd gan Gymru ar hyn o bryd yn parhau ar ôl ymadael â’r UE. Bydd cyllid ychwanegol o £2m yn 2019-20 yn cynnal y gyllideb twristiaeth a marchnata ar lefel gyllido 2018-19, sef £13.7m. Hefyd, rydym wedi cadw cyllid o £3.9m ar gyfer prif ddigwyddiadau, sy’n codi proffil Cymru yn rhyngwladol.

5.47 Bydd cyllid cyfalaf o £7m (£3.5m yn 2019-20 ac yn 2020-21) yn cael ei ddyrannu i greu **Parc Rhanbarthol y Cymoedd**, yn unol â’r ymrwymiad yn y cynllun *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*. Bydd y parc yn helpu cymunedau’r Cymoedd i wneud y mwyaf o’u tirwedd naturiol a’u treftadaeth ddiwylliannol i ddenu rhagor o ymwelwyr i’r ardal ac i ddefnyddio'r awyr agored i wella iechyd a lles.

## Pennod 6: Ein meysydd blaenoriaeth

6.1 Y meysydd blaenoriaeth yw'r meysydd lle y mae tystiolaeth yn awgrymu y gall ymyrraeth gynnar a chydlynu ar draws adrannau'r llywodraeth a gwasanaethau gael effaith sylweddol ar ganlyniadau. Y chwe maes blaenoriaeth yn *Ffyniant i Bawb* yw: y blynyddoedd cynnar; tai; gofal cymdeithasol; gwell iechyd meddwl; sgiliau a chyflogadwyedd a datgarboneiddio.

*Y Blynyddoedd Cynnar*

6.2 Rydym eisiau i blant o bob cefndir gael y cychwyn gorau mewn bywyd. Ein nod yw i bawb gael y cyfle i gyflawni eu potensial yn llawn a gwneud y gorau o'u cyfle i fyw bywyd iach, llewyrchus a boddhaus fel oedolion, gan eu galluogi i gymryd rhan lawn yn eu cymunedau a chyfrannu at lwyddiant economaidd Cymru yn y dyfodol.

6.3 Mae cyflwyno'r **cynnig gofal plant** yn cynorthwyo teuluoedd sy'n gweithio ledled Cymru, gan alluogi rhieni plant tair a phedair oed, i dderbyn cynigion am waith a gwella'u dewisiadau cyflogaeth, gan helpu i wella'u hamgylchiadau teuluol. Bydd cyllid o £40m ar gael yn 2019-20 i gefnogi rhoi'r cynnig gofal plant ar gyfer Cymru ar waith yn gynnar drwy gyfrwng rhaglen dreigl yn cael ei harwain gan y galw. Mae hyn yn £5m o ostyngiad ar y gyllideb a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2019-20, mewn ymateb i'r lefelau defnyddio a ragwelir a'r amcanestyniadau presennol. Ni fydd y gostyngiad yn effeithio ar y gwaith o gyflwyno'r cynnig.

6.4 Rydym yn buddsoddi £60m o gyllid cyfalaf dros dair blynedd (2018 i 2021) i gefnogi datblygu'r cynnig gofal plant. Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i sefydlu safleoedd gofal plant newydd neu i adnewyddu rhai sy'n bodoli eisoes i sicrhau eu bod yn cwrdd â'r safon ofynnol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar gefnogi cyd-leoli darpariaeth bresennol y Cyfnod Sylfaen â'r cynnig gofal plant newydd ar un safle, lle bynnag y bo'n bosibl.

6.5 Bydd darparwyr gofal plant hefyd yn cael eu heithrio rhag talu **ardrethi annomestig** o fis Ebrill 2019 am gyfnod o dair blynedd.

6.6 Byddwn yn buddsoddi £10m ychwanegol yn 2019-20 o gyllid **Cymru Iachach**, mewn cynlluniau ataliol, a fydd yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer ein blaenoriaeth o ran y blynyddoedd cynnar.

6.7 Bydd cyllid o £8.7m yn cael ei fuddsoddi ar gyfer darparu cymorth addysgol i **ddysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr**; cyllid o £7m i gefnogi **prydau ysgol am ddim** a £3.554m ar gyfer y cynllun **Grant Datblygu Disgyblion- Mynediad**, yn cefnogi ein huchelgais i sicrhau bod plant o bob cefndir yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Mae'r cynlluniau hyn, yn rhannol, yn cyfrannu at ein blaenoriaeth o ran y blynyddoedd cynnar.

6.8 Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni sydd wedi'u llunio'n benodol ar gyfer rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant, gan gynnwys **Dechrau'n Deg** a **Teuluoedd yn Gyntaf**. Mae'r rhain yn gweithio yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, gan helpu i lunio dyfodol plant ifanc a gwella'u siawns o fyw bywyd iach, llewyrchus a boddhaus.

6.9 Diben y rhaglenni hyn yw mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y blynyddoedd cynnar, sicrhau ymyrraeth gynnar gydol plentyndod i helpu pob plentyn i wireddu eu hawliau a chyflawni eu potensial, waeth beth fo'u hamgylchiadau, a galluogi rhieni a theuluoedd i fod yn gadarn a ffynnu.

6.10 Yr oedd Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn rhan o nifer o grantiau a ddygwyd ynghyd y llynedd yn y Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal Problemau a Chefnogaeth. Bu saith awdurdod lleol ar raglen fraenaru yn gwneud gwaith archwilio, gan edrych sut y gellid cryfhau gwasanaethau ataliol yn canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar ar gyfer y rhai â'r angen mwyaf.

6.11 Yn dilyn cyhoeddi gwerthusiad o'r gwaith braenaru, fe wnaethom gyhoeddi y byddwn yn gwahanu'r grantiau cysylltiedig â thai oddi wrth elfennau nad ydynt yn ymwneud â thai ar gyfer pob awdurdod lleol, o fis Ebrill 2019.

6.12 Bydd Grant Plant a Chymunedau yn cael ei sefydlu o 1 Ebrill 2019 gyda chyllideb o £135.4m, yn cwmpasu Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, y Gronfa Waddol, Hybu Cysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc, Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, Cymunedau am Waith a Mwy[1] a Gofal Plant a Chwarae.

6.13 Byddwn hefyd yn cyflwyno un Grant Cymorth Tai, fel yr amlinellir yn adran tai y bennod hon.

6.14 Mae ein rhaglen **Plant Iach Cymru** yn helpu i sicrhau bod teuluoedd â phlant ifanc yn cael mynediad at gyswllt cyffredinol, rheolaidd ag ymwelwyr iechyd, sy'n gallu canfod pryderon yn gynnar a chynnig cyngor ar iechyd a maeth yn ogystal â chanfod materion yn ymwneud â chadernid teuluoedd a diogelu.

6.15 Rydym yn cefnogi ardaloedd **Rhoi Plant yn Gyntaf** i gynorthwyo gwell integreiddio ar wasanaethau er mwyn gostwng y niferoedd o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) a gwella gwytnwch plant a phobl ifanc. Nod Rhoi Plant yn Gyntaf yw sbarduno newid ar lefel leol, yn seiliedig ar anghenion y lleoliad penodol hwnnw, sy'n cael ei nodi drwy wrando ar blant a phobl ifanc yn ogystal â'r gymuned leol. Mae'n rhan o'n huchelgais ar gyfer cymunedau cadarn, cefnogi plant a phobl ifanc yn eu cymunedau a lleihau'r anghydraddoldeb y mae rhai ohonynt yn ei wynebu, o'i gymharu â'u cyfoedion o fannau mwy breintiedig yn gymdeithasol.

*Tai*

6.16 Rydym am i bawb gael y cyfle i fyw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac yn cefnogi bywyd iach, llwyddiannus a llewyrchus. Tai o ansawdd da yw asgwrn cefn cymunedau cadarn ac maent yn sail i unigolion a theuluoedd allu ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae'r sector tai yn sbardun allweddol ar gyfer economi Cymru, gan gefnogi degau o filoedd o swyddi, cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau.

6.17 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo – ac ar y trywydd iawn i gwrdd â'i tharged uchelgeisiol o ddarparu **20,000 o dai fforddiadwy newydd** dros dymor y Cynulliad hwn.

[1] Caiff Cymunedau am Waith ym Mlaenau Gwent ei ddarparu drwy GAVO

6.18 Mae cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai fforddiadwy yn cael ei ariannu'n bennaf drwy'r **Grant Tai Cymdeithasol**. Mae cyllid cyfalaf o £138m yn cael ei ddyrannu yn 2019-20, cynnydd o £35m ar y cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol.

6.19 Elfen allweddol o'r rhaglen gyffredinol, gyda dyraniad o £45m yn 2019-20, yw'r **Rhaglen Tai Arloesol**, sy'n profi modelau tai newydd, a fydd yn addas ar gyfer y dyfodol yn nhermau ansawdd ac effeithlonrwydd ynni. Mae gwella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi'n helpu i ymladd tlodi tanwydd, lleihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

6.20 Er mwyn sicrhau bod pobl yn byw mewn cartrefi o ansawdd da, rhaid i'r holl eiddo tai cymdeithasol gwrdd â **Safon Ansawdd Tai Cymru** erbyn diwedd 2020. Bydd y gyllideb ddrafft hon yn parhau i ddarparu cyllid cyfalaf blynyddol o £108m i awdurdodau tai lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn dilyn trosglwyddo stoc, i helpu i ariannu gwaith gwella. Dyma fuddsoddiad yn iechyd pobl; buddsoddiad i fynd i'r afael â thlodi a buddsoddiad i wella bywydau pobl.

6.21 Mae'r **Grant Cyllid Tai** yn helpu i ddarparu o leiaf 2,500 o gartrefi ychwanegol ar draws Cymru ac yn cynorthwyo mwy o bobl i gael mynediad at gartref cynnes, diogel a saff. Bydd y gyllideb ddrafft hon yn darparu £13.1m yn 2019-20 i alluogi awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd ar draws Cymru, gan sicrhau y caiff y mathau iawn o eiddo eu hadeiladu yn y mannau iawn ac i gynnal a chefnogi'r diwydiant adeiladu.

6.22 Er mwyn darparu cymorth i hyd at 6,000 o bobl i brynu eu cartref eu hunain, dyrennir £61.3m yn 2019-20 i **Cymorth i Brynu - Cymru**. Mae'r mwyafrif o brynwyr yn prynu am y tro cyntaf ac mae'r cynllun yn cynnig cymorth i brynu tai a adeiladwyd o'r newydd. Mae'r gyllideb yn cynnwys cyllid a ddyrannwyd i gynorthwyo BBaCh i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi newydd ar y farchnad er mwyn cwrdd â'r galw cyfredol o fewn Cymru.

6.23 Mae **Cefnogi Pobl** yn helpu pobl agored i niwed i ddatblygu neu gynnal eu gallu i fyw'n annibynnol. Mae'n darparu ar gyfer y cartref sefydlog y mae unigolion ei angen er mwyn ffynnu yn eu cymunedau, gwella'u hiechyd, cael mynediad at ddysgu a gwaith a datblygu'u rhwydweithiau. Mae Cefnogi Pobl yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys iechyd meddwl, anabledd dysgu, pobl eiddil oedrannus a chamddefnyddio sylweddau ar gyfer 60,000 o ddefnyddwyr. Mae'r penderfyniad i gynnal y gyllideb Cefnogi Pobl ar £124m – yn unol â'r cytundeb dwy flynedd ar y Gyllideb gyda Phlaid Cymru – yn cydnabod pwysigrwydd cynnal y gwasanaethau hyn a'r dull gweithredu hwn yn wyneb cyni parhaus ac effaith negyddol diwygio lles.

6.24 Yr oedd Cefnogi Pobl yn un o nifer o grantiau a ddygwyd ynghyd y llynedd yn y **Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal Problemau a Chefnogaeth**. Fel y disgrifiwyd yn yr adran ar y Blynyddoedd Cynnar, bydd y grant arfaethedig yn cael ei rannu'n ddau, gan wahanu'r grantiau cysylltiedig â thai oddi wrth elfennau nad ydynt yn ymwneud â thai ar gyfer pob awdurdod lleol.

6.25 Bydd un **Grant Cymorth Tai** – £126.7m – yn cwmpasu Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd a Gorfodi Rhentu Doeth Cymru yn cael ei sefydlu.

6.26 Bydd y trefniadau hyn yn parhau yn eu lle am weddill tymor y Cynulliad hwn ac yn berthnasol i bob awdurdod lleol yng Nghymru.

6.27 Yn 2019-20, dyrannwyd £17.9m yn y gyllideb ar gyfer y grant atal digartrefedd, a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer mesurau i atal neu leddfu ar ddigartrefedd, gan gynnwys gwasanaethau cyfryngu teuluol ac ymyrryd yn gynnar.

**Astudiaeth Achos: Atal digartrefedd**

Mae’r grant atal digartrefedd yn cynorthwyo sefydliadau statudol a sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau rheng-flaen i atal digartrefedd.

Mae hefyd yn cynorthwyo pobl y mae digartrefedd yn effeithio’n gyson arnynt, fel pobl sy’n cysgu ar y stryd, drwy ariannu llochesau nos, hosteli, gwaith maes, cyfryngu a chynlluniau bondiau ac yn darparu rhwydwaith sylweddol o wasanaethau cynghori.

Mae polisi digartrefedd, gyda chefnogaeth ein deddfwriaeth ni, yn gweithredu mewn modd ataliol drwy geisio atal neu liniaru digartrefedd yn gyflym. Lle nad oes modd gwneud hyn, bydd gwasanaethau cefnogi’n darparu llety brys a dros dro.

Rydym yn cydnabod fod sicrhau tai hirdymor, cynaliadwy yn darparu canlyniadau a llesiant gwell ar gyfer unigolion yn ogystal ag yn fwy effeithlon o ran adnoddau.

Darparu tai fforddiadwy diogel yw'r ffordd orau o helpu unigolion agored i niwed i oresgyn problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

6.28 Rydym hefyd yn parhau â’r cynlluniau a gyhoeddwyd gennym yn flaenorol i ddarparu £20m ychwanegol i fynd i’r afael â digartrefedd yn 2019-20, gan gynnwys £10m yn benodol i fynd i’r afael â digartrefedd ymysg pobl ifanc. Rhan allweddol o hyn fydd hyrwyddo arferion gwell ar lefel leol i ymyrryd yn gynnar ac atal digartrefedd.

6.29 Caiff y cyllid hwn ei dargedu drwy’r Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol a thrwy gyllid uniongyrchol i brosiectau cenedlaethol a’r trydydd sector yng Nghymru i gynorthwyo’r ardaloedd hynny sydd â’r angen mwyaf.

*Gofal cymdeithasol*

6.30 Mae gofal tosturiol ac urddasol yn chwarae rhan allweddol o ran creu a chynnal cymunedau cadarn, gan helpu pobl i aros yn iach a byw’n annibynnol am gyfnod hwy. Mae gofal cymdeithasol yn sector economaidd pwysig ynddo'i hun.

6.31 Ers dechrau’r cyfnod hwn o gyni – yr hiraf ers cyn cof – rydym wedi cymryd camau i amddiffyn iechyd a gofal cymdeithasol yn gyffredinol, gan gydnabod pwysigrwydd gofal cymdeithasol o ran gwella iechyd a llesiant yng Nghymru ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau.

6.32 Mae ein dull gweithredu ‘system gyfan’ o ran iechyd a gofal cymdeithasol yn cydnabod nad yw gwasanaethau ond un elfen o gynorthwyo pobl i gael gwell iechyd a llesiant gydol eu bywydau. Rydym yn rhoi mwy o bwyslais yn ein cynlluniau

gwariant ar gynorthwyo unigolion i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, adeiladu gwytnwch a pharhau'n annibynnol am gyfnod hwy. Credwn fod hyn yn allweddol o ran atal problemau iechyd rhag datblygu'n gyflyrau mwy difrifol.

6.33 O ganlyniad i'r cymorth parhaus a roddwyd gennym i iechyd a gofal cymdeithasol fel ei gilydd, dengys y ffigurau diweddaraf o Drysorlys EM fod Cymru'n gwario 8% y pen yn fwy ar iechyd a gofal cymdeithasol na Lloegr – sydd gyfystyr â £206 yr unigolyn.

6.34 Rydym yn darparu £50m yn ychwanegol yn y Gyllideb ddrafft 2019-20 i gefnogi **gofal cymdeithasol**, gan gynnwys cefnogaeth i wasanaethau gofal cartref, gan gydnabod y pwysau ychwanegol ar wasanaethau a'r galw amdanynt. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys grant arbennig o £30m i awdurdodau lleol drwy'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol a £20m yn uniongyrchol i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

6.35 Mae cynigion y Gyllideb hefyd yn darparu ar gyfer cynnydd yn y cyllid ar gyfer cyflawni **Cymru Iachach**, ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Gan adeiladu ar y cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol gennym i ddyrannu £100m dros ddwy flynedd (£50m yn 2018-19 ac yn 2019-20) ar gyfer ein cronfa trawsnewid, byddwn yn awr yn buddsoddi bron i £250m yn 2019-20 i gefnogi *Cymru Iachach*, i greu system iechyd a gofal cymdeithasol integredig a di-dor.

6.36 Rydym yn dyrannu £4.5m o gyfalaf ychwanegol i gefnogi ein cynlluniau i ddarparu 19 o **ganolfannau iechyd a gofal integredig**. Mae hyn ar ben y cyllid a chadarnhawyd yn flaenorol ar gyfer Canolfan Gofal Integredig Aberteifi, a oedd yn rhan o'r cytundeb 2 flynedd ar y Gyllideb gyda Phlaid Cymru. Byddwn yn parhau i archwilio cyfleoedd i ddwyn buddsoddiadau pellach ymlaen, a fydd yn dod â gwasanaethau cymunedol a gofal cymdeithasol ynghyd dan un to a rhoi mynediad i bobl at ystod ehangach o wasanaethau'n lleol.

6.37 Yn 2019-20, bydd y buddsoddiad yn y **Gronfa Gofal Integredig** (GGI) yn cynyddu i £85m wrth i swm y cyllid cyfalaf tai godi i £35m. Mae'r gronfa'n anelu at leihau'r pwysau ar y system ysbytai a gofal cymdeithasol drwy helpu i atal derbyn i'r ysbyty'n ddiangen, derbyniadau amhriodol i ofal preswyl ac oedi o ran rhyddhau o'r ysbyty. Cyflawnir hyn drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai, ynghyd â phartneriaid yn y trydydd sector a'r sector preifat a bydd yn darparu arbedion sylweddol ar gyfer y GIG.

6.38 Rydym yn buddsoddi £4.9m ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan asiantaethau **Gofal a Thrwsio** gyda chefnogaeth y rhaglen Byw'n Annibynnol i helpu i leihau'r pwysau ar ofal cymdeithasol a chadw pobl allan o ofal preswyl tymor hwy drwy wneud eu cartrefi'n addas i'w hanghenion.

6.39 Byddwn yn gwreiddio **gwasanaethau cefnogi dementia** ymhellach i roi *Cymru sy'n Deall Dementia* ar waith drwy gynnwys pobl yn gynnar mewn penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth fel ei fod yn cael ei deilwra iddyn nhw'n bersonol cyn i'w cyflwr waethygu. Mae hyn yn cynnwys gweithio ar draws y sectorau cludiant a chynllunio i alluogi pobl â dementia i barhau'n egnïol a byw'n annibynnol gyhyd ag sy'n bosibl.

6.40 Rydym yn buddsoddi £1m yn ein Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, o fewn y Grant Plant a Chymunedau, i gynorthwyo oedolion agored i niwed a phobl ifanc sy'n gadael gofal i

gael gafael ar wasanaethau wrth iddynt geisio ymgysylltu â gwaith, hyfforddiant ac addysg ac i sicrhau tai addas, yn enwedig mewn cyfnodau trosiannol yn eu bywydau. Yn benodol, byddwn yn ymestyn ein cynllun ‘Pan Fydda i’n Barod’ i wella’r ystod o opsiynau llety ar gyfer rhai sy’n gadael gofal, gan sicrhau mwy o ddewis a rheolaeth.

6.41 Mae gweithwyr gofal yn chwarae rhan sylweddol yn ein cymunedau ac rydym eisiau sicrhau y caiff hyn ei gydnabod a’i barchu drwy fuddsoddi yn ein gweithwyr gofal. Bydd cyllid o £18m yn cael ei ddarparu i **Gofal Cymdeithasol Cymru** (GCC) fel rheoleiddwyr y gweithlu gofal cymdeithasol. Dyma’r prif gorff ar gyfer gyrru gwelliannau ar draws y sector gofal cymdeithasol. Mae GCC wedi datblygu cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol fel rhan o’i gylch gorchwyl. Mae’n darparu cydnabyddiaeth broffesiynol a mynediad at hyfforddiant ac adnoddau datblygu i bawb sydd ar y gofrestr honno.

**Astudiaeth Achos: Byw'n Annibynnol**

Y flaenoriaeth ar gyfer y rhaglen Byw’n Annibynnol yw cefnogi asiantaethau Gofal a Thrwsio, sy’n darparu gwasanaethau i helpu pobl hŷn i wneud gwelliannau i'w cartrefi, gan eu galluogi i fyw’n annibynnol yn eu heiddo eu hunain.

Mae’r gwasanaethau’n helpu i gadw pobl hŷn yn eu cartrefi eu hunain, yn gyfforddus, yn ddiogel ac yn saff. Mae dros 30,000 o bobl hŷn yn cael cymorth gan wasanaethau Gofal a Thrwsio bob blwyddyn – gyda 60% ohonynt dros 75 mlwydd oed.

Mae gwasanaethau Gofal a Thrwsio yn helpu i atal pobl hŷn rhag mynd i ofal preswyl neu gael eu derbyn i’r ysbyty ac yn helpu i atal oedi cyn rhyddhau pobl o’r ysbyty. Mae’n wasanaeth cost-effeithiol, sy’n arbed arian ac adnoddau i’r GIG a’r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae Gofal a Thrwsio’n darparu gwasanaeth eang, gan gynnwys cymorth ymarferol gyda gwelliannau i’r cartref, rheoli gwaith adeiladu a chyngor ynghylch contractwyr addas a hyd yn oed trafodaethau ar yr hawl i fudd-daliadau. Mae’n chwaraewr trydydd sector allweddol yn yr agenda tai, iechyd a llesiant.

### *Gwell iechyd meddwl*

6.42 Bydd un o bob pedwar o bobl yng Nghymru’n profi salwch meddwl ar ryw adeg yn eu bywydau. Gall cael y driniaeth gywir ar gam cynnar, ynghyd â mwy o ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a llesiant, mewn sawl achos, atal effeithiau niweidiol yn y tymor hwy.

6.43 O ran y GIG, iechyd meddwl yw’r un maes gwariant mwyaf – byddwn yn gwario £675m ar **wasanaethau iechyd meddwl** yn 2019-20.

6.44 Rydym yn cynnal ein hymrwymiad, fel rhan o’r cytundeb 2 flynedd ar y Gyllideb gyda Phlaid Cymru, i ddarparu £20m ychwanegol yn 2019-20 ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.

6.45 Rydym hefyd yn darparu £2.5m ychwanegol yn 2019-20 drwy'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg, gan ei dargedu'n benodol ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc. Caiff y ddarpariaeth hon ei goleuo gan **agwedd addysgeg gwaith ieuenctid**, sy'n anelu at gefnogi datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol pobl ifanc, ac mae mewn sefyllfa dda i helpu i fynd i'r afael â materion iechyd meddwl a llesiant sy'n dod i'r amlwg.

6.46 Bydd y cyllid hwn yn ffurfio rhan o'n hagwedd strategol newydd tuag at waith ieuenctid yng Nghymru a fydd ar sail tystiolaeth a hefyd yn cael ei datblygu ar y cyd â phobl ifanc a'r sector drwy ein Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro.

6.47 O'r cyllid ychwanegol ar gyfer **Cymru Iachach**, bydd £15m yn cefnogi gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu, gan gynnwys cyllid ar gyfer rhaglenni mewn ysgolion, cymorth iechyd meddwl cofleidiol ar gyfer y digartref a gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer y dull gweithredu newydd ysgol-gyfan o ran iechyd meddwl a llesiant, sy'n cael ei ddatblygu mewn ymateb i adroddiad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol *Cadernid Meddwl*.

6.48 Bydd creu **Parc Rhanbarthol y Cymoedd** fel rhan o gynllun y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De – *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* – yn gwella mynediad at yr amgylchedd naturiol. Mae adeiladu cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell, ac ar yr un pryd hyrwyddo iechyd a llesiant da i bawb, wrth galon ein gweledigaeth ar gyfer y Cymoedd. Mae cyllid cyfalaf o £7m wedi ei ddyrannu (£3.5m yn 2019-20 a £3.5m yn 2020-21) i sefydlu Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

6.49 Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) yn cynyddu'r risg o salwch meddwl yn sylweddol, gyda 41% o oedolion yng Nghymru sy'n dioddef pedwar ACE neu fwy yn ystod eu plentyndod bellach yn byw gyda llesiant meddyliol isel, o'i gymharu â 14% na phrofodd unrhyw brofiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod.

6.50 Rydym yn parhau â gwaith yr **Hyb Cymorth ACE**, drwy Iechyd Cyhoeddus Cymru i godi ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) a chynorthwyo unigolion, sefydliadau a chymunedau i ddod i wybod am ACE.

6.51 Canolbwyntiwyd hyd yma ar weithredu i atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chefnogaeth ar gyfer y rhai sydd wedi profi ACE. Pan fydd plant a phobl ifanc yn profi ACE maent yn fwy tebygol o berfformio'n wael yn yr ysgol, yn fwy tebygol o fabwysiadu ymddygiad peryglus sy'n niweidio'u hiechyd ac yn fwy tebygol o ymwneud â throseddu. Gall parhau â'r gwaith o godi ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ymysg gweithwyr proffesiynol gynorthwyo i liniaru eu heffaith a helpu i dorri'r cylch. Mae atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a lliniaru eu heffaith yn fater ataliol a hirdymor sy'n galluogi gwasanaethau cyhoeddus i gydweithio ac integreiddio gyflawni'r nod ar y cyd.

6.52 Mae ein **cwricwlwm newydd** ar gyfer Cymru yn cael ei yrru gan bedwar pwrpas, sy'n amlinellu sut yr ydym eisiau cefnogi ein pobl ifanc gydol eu haddysg. Mae'r pedwar pwrpas wrth galon y cwricwlwm newydd ac yn fan cychwyn ar gyfer pob penderfyniad ar ddatblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Un o'r pwrpasau hyn yw y dylai pobl ifanc ddatblygu i fod yn unigolion iach a hyderus. Bydd hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i adeiladu cysylltiadau ar sail ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd a

chynnal eu llesiant emosiynol a meddyliol, drwy ddatblygu hyder, gwytnwch ac empathi.

| **Astudiaeth Achos: Teuluoedd yn Gyntaf** |
|---|
| Mae ein rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i llunio i sicrhau bod plant yng Nghymru yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac y gallant gyflawni eu potensial yn llawn. Mae salwch meddwl a phroblemau llesiant yn rhwystr i hynny. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn canolbwyntio ar ganfod unrhyw broblemau'n gynnar ac ymyrryd ar y cyfle cyntaf i atal problemau rhag gwaethygu hyd at argyfwng.<br><br>Bydd profiadau yn ystod plentyndod – rhai da neu rai gwael – yn pennu bywydau oedolion, gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant. Mae plant sy'n tyfu i fyny gan deimlo'n ddiogel ac yn saff, mewn cartrefi gofalgar gyda rhieni sy'n ymateb i'w hanghenion yn gyson yn debygol o ddatblygu'n dda yn gymdeithasol, yn emosiynol ac yn wybyddol, a mynd ymlaen i fyw bywydau hir, hapus, iach, ffyniannus a chynhyrchiol. Mae plant sy'n teimlo'n anniogel, mewn cartrefi lle maent yn cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin, yn fwy tebygol o fynd ymlaen i fyw bywydau byrrach, llai hapus, llai iach, llai ffyniannus a llai cynhyrchiol.<br><br>Mae'r cysylltiad rhwng trawma neu brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) a chanlyniadau gwael mewn bywyd yn glir. Mae hyn yn arbennig o wir lle bo oedolion yn profi pedwar neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.<br><br>Nid yw ein ffocws presennol ar ACE yn golygu nad oes angen i ni bellach roi sylw i fathau eraill o anfantais mewn plentyndod, er enghraifft esgeulustod a thlodi. Lle byddwn yn canfod lefel uchel o ACE, yn aml byddwn hefyd yn canfod tlodi ac esgeulustod.<br><br>Mae Tîm o Amgylch y Teulu Abertawe, a enillodd wobrau am ei waith, yn hyfforddi staff ysgolion cynradd i ganfod problemau a darparu cefnogaeth yn gynnar i ddisgyblion a theuluoedd. Mae'n helpu pobl i newid eu bywydau ac yn lleihau nifer yr atgyfeiriadau at y gwasanaethau cymdeithasol y mae modd eu hatal. |

6.53 Bydd y cwricwlwm wedi'i strwythuro o gwmpas chwech o Feysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh), ac un ohonynt yw iechyd a llesiant – mae hwn yn canolbwyntio ar roi i bobl ifanc y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen arnynt i gynnal eu llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol. Bydd hyn yn sicrhau y caiff gwytnwch meddyliol ei wreiddio fel rhan o'r cwricwlwm newydd.

6.54 Gan adeiladu ar ein hymrwymiad i lesiant yn ein hysgolion, rydym yn cefnogi iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl drwy wasanaethau **mewngymorth iechyd meddwl arbenigol ar gyfer ysgolion**.

6.55 Mae angen clir i gynorthwyo athrawon i ymateb i blant a phobl ifanc sy'n profi trafferthion, fel pryder, hwyliau gwael, hunan-niweidio cymhellol neu anhwylderau ymddygiad. Mae gan y GIG rôl o ran hyfforddi ac ymgynghori ar draws sectorau, gan ddarparu cymorth yn gynnar mewn ysgolion drwy ddarparu staff wedi'u hyfforddi'n briodol. Y llynedd, lansiwyd rhaglen beilot mewngymorth y gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed i ysgolion gyda chyfanswm cyllid o £1.4m rhwng 2017-18 a 2020-21. Mae'r cynllun peilot, sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan Iechyd ac Addysg, yn darparu cefnogaeth broffesiynol benodol i ysgolion. Yn 2019-20 dyrannwyd £0.5m ychwanegol i gynorthwyo'r rhaglen beilot.

## Sgiliau a Chyflogadwyedd

6.56 Rydym eisiau economi yn seiliedig ar sgiliau o ansawdd uchel, sy'n darparu'r adnoddau y mae eu hangen ar fusnesau i dyfu ac i arloesi, ac sy'n galluogi pobl i ffynnu. Dylai pawb gael eu harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael swydd a'r cyfle i ddatblygu sgiliau newydd gydol eu bywyd gwaith.

6.57 Cafodd ein ***Cynllun Cyflogadwyedd*** ei lansio ym mis Mawrth 2018, yn nodi sut y byddwn yn gweithio ar draws Llywodraeth Cymru i deilwra cymorth cyflogaeth i unigolion, i uwchsgilio a chefnogi gweithwyr, i ddiwallu anghenion lleol a rhanbarthol am sgiliau ac i baratoi am newid radical ym myd gwaith yn y dyfodol.

6.58 Rydym wedi ymrwymo i gael gwared â'r bwlch sgiliau rhwng Cymru a gweddill y DU mewn 10 mlynedd. Drwy ein cymorth i ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch, gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith a gweithio gyda'r tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, byddwn yn sicrhau bod ein darpariaeth sgiliau'n adlewyrchu anghenion cyfredol cyflogwyr, yn cyd-fynd â'r economi ac yn barod ar gyfer y dyfodol.

6.59 Rydym wedi ymrwymo i gyfrannu at *Ffyniant i Bawb* drwy ein dwy raglen cyflogaeth seiliedig yn y gymuned, **Cymunedau am Waith** a **Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth**, sy'n cael eu hariannu ar y cyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a'u darparu drwy weithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r ddwy raglen yn cael eu hariannu tan 2020 a byddant yn darparu £84.5m o wasanaethau cymorth cyflogaeth yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru dros gyfnod oes y prosiectau.

6.60 Yn ogystal, lluniwyd Cymunedau am Waith a Mwy fel gwasanaeth cefnogi cyflawn a chwbl integredig i ategu Cymunedau am Waith, gan sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu o ran cefnogaeth ac aliniad gyda blaenoriaethau a darpariaethau lleol. Mae gan y rhaglen Cymunedau am waith gyllideb o bron i £12m yn 2019-20 sy'n rhan o'r Grant Plant a Chymunedau ehangach.

6.61 Rydym wedi ymrwymo i greu isafswm o **100,000 o brentisiaethau i bobl o bob oed** dros dymor y Cynulliad hwn. Byddwn yn buddsoddi £115m yn 2019-20 i barhau i â'r ymrwymiad blaenllaw hwn.

6.62 Bydd ein rhaglen gyflogadwyedd newydd ***Cymru'n Gweithio*** yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2019, gan gyflawni'r ymrwymiad a roddwyd yn Ffyniant i Bawb i symleiddio a chydlynu cymorth cyfredol ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau, gan ganolbwyntio ar gwrdd ag anghenion unigolion. Bydd y rhaglen hon ar gyfer pobl o bob oed, yn eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau ac ennill y sgiliau i gael cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd da, a chynnal y gyflogaeth honno. Y nod yw cynnal y gyfradd uchel o gyflogaeth yng Nghymru, lleihau anweithgarwch economaidd a gwella lleisiant unigolion drwy swyddi diogel, cynaliadwy. Byddwn yn lansio'r **Porth Cyngor Cyflogadwyedd**, sef un pwynt mynediad i symleiddio mynediad at gymorth ym maes cyflogadwyedd ym mis Chwefror 2019, a bydd yn cael ei ddarparu gan Gyrfa Cymru. Byddwn yn ymrwymo £9.18m yn 2019-20 i ddatblygu a darparu'r Porth Cyngor Cyflogadwyedd.

6.63 Rydym wedi parhau i warchod y gyllideb sy'n cynorthwyo sgiliau a chyflogadwyedd gyda chyllid o £56m yn 2019-20. Ategir hyn gan weithgarwch cyflogadwyedd mewn meysydd portffolio eraill.

**Astudiaeth Achos: Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith**

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r busnesau ac yn eu cynorthwyo i wella iechyd a llesiant eu cyflogeion ac yn helpu pobl i barhau mewn cyflogaeth gyda ffocws penodol ar gyflyrau iechyd meddwl a chyhyrysgerbydol, gan gynnwys drwy'r contract economaidd.

Mae'r Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith yn brosiect sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Uned Ewropeaidd, sy'n darparu mynediad cyflym a rhad ac am ddim at iechyd galwedigaethol i helpu pobl gyda chyflyrau meddyliol neu gorfforol i barhau mewn cyflogaeth.

Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo i fynd i'r afael â thlodi drwy atal pobl rhag colli'u gwaith oherwydd problemau iechyd ac yn cynorthwyo cyflogwyr bach a chanolig gydag effaith absenoldeb oherwydd salwch. Amcangyfrifir bod y gost i economi Cymru o ganlyniad i salwch cysylltiedig â gwaith yn £500m y flwyddyn (Iechyd yng Nghymru, 2017).

Bu galw mawr am y gwasanaeth. Hyd yma, mae wedi darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol i ymron 3,400 o gyflogeion – ymyriadau therapiwtig yn bennaf i 2,100 o bobl gyda phroblemau cyhyrysgerbydol a 1,300 o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl. Mae hyn wedi cynorthwyo dros 2,500 o bobl i barhau mewn cyflogaeth; 430 o bobl i ddychwelyd i'r gwaith ac oddeutu 1,800 o Fusnesau Bach a Chanolig i leihau effaith absenoldeb oherwydd salwch ar y busnes.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu £2.2m o gyllid cyfatebol i barhau â'r gwasanaeth hyd 2022. Bydd hyn yn denu buddsoddiad ychwanegol o bron i £7m o Gronfa Strwythurol Ewrop ac yn galluogi'r gwasanaeth i gefnogi 8,000 ychwanegol o bobl a hyd at 2,500 o gyflogwyr bach a chanolig.

6.64 Mae'r **Rhaglen Sgiliau Hyblyg** yn darparu ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer sgiliau i gyflogwyr lle nad oes modd cwrdd ag anghenion recriwtio a sgiliau drwy ddarpariaethau presennol neu lle bydd achos clir dros ymwneud yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod cymorth sgiliau yn canolbwyntio'n gadarn ar anghenion a chyfleoedd economaidd rhanbarthol, er enghraifft drwy brosiectau seilwaith mawr ym mhob rhanbarth, sy'n cyd-fynd â Bargeinion Dinesig a Thwf. Bydd y rhaglen yn hwyluso dros £3m o gymorth uniongyrchol ar gyfer sgiliau, drwy Gronfa Bontio'r UE, i gwmnïau allweddol yn y sector awyrofod a modurol.

6.65 Yn unol â'n cytundeb dwy-flynedd ar y Gyllideb gyda Phlaid Cymru, rydym yn parhau i fuddsoddi £20m yn 2019-20 ar gyfer **addysg uwch ac addysg bellach**. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd addysg bellach o ran cynyddu lefelau sgiliau, a gostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Rydym yn gwerthfawrogi ein system addysg bellach hyfyw ac arloesol, a fydd, yn ei thro, yn cynorthwyo i adeiladu economi Cymru ac arfogi pobl â'r lefel uchaf o ran sgiliau.

6.66 Mae sgiliau da yn datgloi twf ac arloesedd ar gyfer busnesau, sy'n golygu fod angen iddynt allu recriwtio gweithwyr gyda'r sgiliau cywir. Yr oedd y cynlluniau a gyhoeddwyd eisoes gennym yn cynnwys £10m o gyllid cyfalaf dros 2 flynedd (2018-19 a 2019-20) i **sefydliadau addysg bellach** ei fuddsoddi mewn cyfarpar hyfforddi o safon y diwydiant, er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf ac yn bodloni anghenion cyflogwyr lleol.

6.67 Rydym yn buddsoddi £17.5m yn 2019-20 a £26m yn 2020-21 o gyfalaf ar gyfer **cam dau mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf.** Mae mynediad at fand eang cyflym, dibynadwy, yn galluogi mwy o bobl i weithio o'u cartrefi ac i gyflawni mwy o fusnes drwy gyfrwng technoleg yn hytrach nac wyneb yn wyneb, gan leihau teithio ac allyriadau carbon.

## Datgarboneiddio

6.68 Rydym yn cynyddu ein ffocws ar ddatgarboneiddio a manteision lleihau allyriadau a fydd yn cael ei deimlo'n eang ac yn cyfrannu at lawer o'n blaenoriaethau. Bydd yn arwain at well iechyd a llesiant ac yn dod â chyfleoedd economaidd newydd yn ei sgil.

6.69 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n ddeddf bwysig, yn cynnig llwybr datgarboneiddio tymor hir ar gyfer Cymru ac mae'n gosod targed cyfreithlon i sicrhau o leiaf 80% yn llai o allyriadau erbyn 2050, ynghyd â chyfres o dargedau interim ar gyfer 2020, 2030 a 2040.

6.70 Mae gwaith wedi dechrau ar gysoni'r prosesau cyllidebu ariannol a charbon i ymgorffori datgarboneiddio wrth wneud penderfyniadau strategol, a gellir gweld y manylion yn atodiad B.

6.71 Os ydym am gyrraedd ein targedau datgarboneiddio, rhaid i ni newid i fod yn economi carbon isel. Rydym yn buddsoddi mewn rhaglenni carbon isel ac yn cymryd camau i sicrhau y bydd y penderfyniadau a wnawn yn awr am ein seilwaith hirdymor yn cefnogi ein fframwaith lleihau allyriadau.

6.72 Ym mis Mawrth 2019, byddwn yn cyhoeddi ein ***Cynllun Cyflawni Carbon Isel***, a fydd yn nodi ein polisïau a'n cynigion i helpu i sicrhau llai o allyriadau wrth i ni symud tuag at greu economi carbon isel.

6.73 Mae ystyried effaith carbon yn elfen sylweddol wrth ddyrannu **cyllid cyfalaf newydd** i brosiectau a blaenoriaethau newydd. Roedd hyn yn ystyriaeth allweddol pan oeddem yn dyrannu cyllid cyfalaf adeg cyhoeddi adolygiad hanner ffordd y *Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru*, ym mis Mai. Yr oedd y buddsoddiadau'n cynnwys £25m dros dair blynedd ar gyfer y rhaglen Cymoedd Technoleg yng Nghymoedd De Cymru, sy'n rhoi twf, gwaith teg a datgarboneiddio wrth galon datblygu economaidd.

6.74 Rydym yn sicrhau bod pob adeilad iechyd ac addysg newydd sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yn cael eu dylunio a'u hadeiladu i sicrhau'r **effeithlonrwydd gorau o ran defnyddio ynni**. Mae cyllid yn cael ei roi ar yr amod bod prosiectau'n cael eu dylunio i gyflawni sgôr A ar dystysgrifau perfformiad ynni, yn ogystal ag achrediad rhagorol dan Ddull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu

(BREEAM) i ddangos eu bod yn gynaliadwy. Ar ben hynny, rhaid i gontractau nodi bod yn rhaid defnyddio 15% o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu wrth adeiladu.

6.75 Bydd ffocws cychwynnol gwaith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ar ddatgarboneiddio a thwf gwyrdd a glas. Rôl gyntaf y Comisiwn fydd ymgysylltu â rhanddeiliaid i gasglu amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch seilwaith y dyfodol.

**Astudiaeth Achos: Datgarboneiddio drwy gaffael**

Gall y ffordd yr awn ati i gaffael a'r hyn rydym yn ei gaffael gyfrannu'n sylweddol tuag at gyrraedd ein targedau o ran lleihau carbon. Yn y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed cynnydd da i sefydlu mecanweithiau ar gyfer cyflawni datgarboneiddio drwy gaffael.

Mae dadansoddiad lefel uchel o ran mapio a gwariant carbon y £6 biliwn o wariant caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei gynnal i ganfod y categorïau carbon-ddwys/meysydd gwariant blaenoriaeth uchel, y cyrff cyhoeddus sy'n gwneud y gwariant a'r cyflenwyr cysylltiedig. Bydd yr ymarfer hwn, a fydd hefyd yn canolbwyntio'n benodol ar wariant Llywodraeth Cymru, yn defnyddio'r dull gweithredu a ddefnyddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru a bydd yn galluogi canfod meysydd blaenoriaeth uchel, canfod enillion cyflym ac ymyriadau mwy hirdymor i leihau allyriadau, gan helpu cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u hamcanion datgarboneiddio eu hunain.

Rydym hefyd yn disgwyl i fusnesau ddefnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur a chefnogi ymdrechion i leihau gwastraff ac effaith hynny. Mae ystyriaethau carbon isel yn ganolog i hyn, a byddwn yn disgwyl i fusnesau gyfrannu at ein targedau lleihau carbon.

Er enghraifft, mae adnodd dangosydd perfformiad allweddol wedi cael ei ddatblygu gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) a Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) i'w ddefnyddio mewn fframweithiau bwyd. Mae'n galluogi i ôl-troed carbon cyflenwyr gael eu mesur a'u monitro drwy reoli contract. Rydym yn cydweithio ymhellach gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gefnogi cyfres o brosiectau peilot ym maes caffael ar draws nifer o awdurdodau lleol. Mae'r rhain yn edrych sut i leihau plastigion a deunyddiau na ellir eu hailgylchu ymysg eitemau untro'r byd arlwyo; lleihau plastigion mewn cadwyni cyflenwi bwyd; ac adolygu trefniadau'r Gwasanaeth Caffael cenedlaethol gyda chyflenwyr llaeth i sicrhau y gellir ailgylchu cartonau a gwellt ac i ddatblygu opsiynau mwy cynaliadwy.

Rydym hefyd wedi datblygu adnodd, mewn cydweithrediad â Trafnidiaeth Cymru i fesur yr allyriadau carbon cysylltiedig â thrafnidiaeth. Mae hwn yn nodwedd ychwanegol yn yr Adnodd Mesur Budd i'r Gymuned sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio'n eang i gipio cyflogaeth, prentisiaethau a hyfforddiant a ddarperir drwy gontractau'r sector cyhoeddus.

Mae'r canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r ystod o waith ar ddatgarboneiddio yn cael eu cipio i ffurfio pecyn o ganllawiau polisi newydd ac adnoddau, templedi a chymalau newydd i'w defnyddio ledled Cymru, gan alluogi cyrff cyhoeddus i atal neu liniaru gweithgareddau sy'n cynhyrchu carbon.

6.76 Mae datgarboneiddio pob cartref yng Nghymru gan 80% erbyn 2050 yn ymgymeriad sylweddol, sy'n cydnabod yr angen i fynd i'r afael ag achos newid yn yr hinsawdd yn ogystal â'r angen i wella ansawdd ac effeithlonrwydd ynni cartrefi. Yn ei dro, bydd hyn yn mynd i'r afael â lefelau cynyddol o dlodi tanwydd, sy'n cael amrediad o effeithiau negyddol, gan gynnwys cyflyrau iechyd cysylltiedig ag oerfel,

marwolaethau ychwanegol dros y gaeaf, cyrhaeddiad addysgol is ymysg plant ac amser i ffwrdd o'r ysgol ac o'r gwaith oherwydd salwch.

6.77 Rydym yn darparu cyllid cyfalaf o £27m yn 2019-20 a £23m yn 2020-21 ar gyfer rhaglen Llywodraeth Cymru Cartrefi Clyd sy'n cynnwys **Nyth** ac **Arbed**, a fydd dros gyfnod y rhaglen, 2017-21, yn gwella effeithlonrwydd ynni hyd at 25,000 o gartrefi ledled Cymru ac yn helpu i ddarparu sefydlogrwydd a sicrwydd er mwyn i gadwyn gyflenwi effeithlonrwydd ynni yng Nghymru dyfu eu busnes. Bydd ein buddsoddiad hefyd yn denu hyd at £24 miliwn o gyllid yr UE, yn ychwanegol at gyllid gan Rwymedigaeth Cwmni Ynni'r DU (ECO).

6.78 Drwy **Re:Fit Cymru**, a sefydlwyd gennym yn 2016, rydym yn anelu at gynhyrchu oddeutu £39 miliwn o fuddsoddiad mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni ar raddfa fawr yn y sector cyhoeddus. Hyd yma, mae oddeutu £12m wedi ei fuddsoddi, gyda £26m pellach yn cael ei ragweld erbyn Mawrth 2020.

6.79 Mae Cynllun 'Clean Growth' Llywodraeth y DU yn amcangyfrif y gallai'r economi carbon isel dyfu 11% y flwyddyn rhwng 2015 a 2030, bedair gwaith yn gyflymach na'r twf a ragwelir ar gyfer yr economi yn ei chyfanrwydd. Mae buddsoddi yn seilwaith yr economi carbon isel wedi ei amlinellu fel maes enfawr ar gyfer twf a chyfleoedd posibl ac mae'n cael sgil effaith ehangach yn nhermau swyddi.

6.80 Rydym yn buddsoddi dros £6.5m i gynorthwyo **Canolfan Adeiladu Ynni Gweithredol** newydd Prifysgol Abertawe fel canolfan ragoriaeth genedlaethol ar gyfer arloesi ym maes tai a chynhyrchu ynni. Ei weledigaeth yw gweddnewid y sectorau adeiladu ac ynni, drwy godi adeiladau gweithredol sy'n defnyddio pŵer yr haul, gan greu cymunedau cadarn o ran ynni, a chyfrannu'n sylweddol tuag at dargedau cerbydau trydan a datgarboneiddio.

6.81 Mae datgarboneiddio'r sector ynni'n golygu heriau a chyfleoedd enfawr i Gymru. O ran y ffordd yr ydym yn cynhyrchu ynni, mae angen i ni sicrhau bod yr isadeiledd y byddwn yn buddsoddi ynddo'n helpu i gynhyrchu ynni carbon isel, yn gwella trosglwyddo a dosbarthu ac yn sicrhau ein bod yn addas ar gyfer y dyfodol, gan alluogi technolegau a mesuryddion clyfar i ddarparu atebion hyblyg.

6.82 Lansiwyd **Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru** ym mis Hydref 2018, gan ddwyn ynghyd y gwasanaethau cefnogi a oedd yn cael eu darparu'n flaenorol fel Twf Gwyrdd Cymru a'r Gwasanaeth Ynni Lleol. Erbyn hyn, mae'r gwasanaeth yn darparu un pwynt cyswllt ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus ac eraill sy'n ceisio datblygu cynlluniau effeithlonrwydd ynni neu ynni adnewyddadwy. Mae'n cynnig cefnogaeth dechnegol, ariannol a masnachol i gyrff cyhoeddus a chymunedau. Gyda'i gilydd, mae Rhaglen Gyllido Cymru a Chronfa Benthyca Ynni Cymru yn darparu benthyciadau, gan gynnwys benthyciadau di-log neu log isel, i gefnogi gosodiadau.

6.83 Ers lansio Twf Gwyrdd Cymru yn 2015 ac esblygiad Ynni'r Fro i'r Gwasanaeth Ynni Lleol, rydym wedi buddsoddi dros £55m o fenthyciadau di-log ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru ac wedi cefnogi darparu £27m pellach o brosiectau ynni ac effeithlonrwydd ynni, lle y sicrhawyd cyllid drwy lwybrau amgen. Mae'r dull gweithredu hwn yn helpu i leihau costau rhedeg cyrff cyhoeddus ledled Cymru a bydd yn sicrhau arbedion o £183m dros oes y technolegau sydd wedi'u gosod ac yr

ydym yn buddsoddi ynddynt ac yn lleihau allyriadau carbon gan dros 80,000 o dunelli. Mae'r cynllun yn anelu at fod ag oddeutu £70m o'r cyfalaf gwreiddiol wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau yn y sector cyhoeddus erbyn diwedd tymor y llywodraeth bresennol, a byddwn yn parhau i'w ailgylchu mewn prosiectau pellach.

6.84 Fel rhan o'r **contract economaidd** newydd, yn gyfnewid am gefnogaeth gan y llywodraeth, bydd angen i fusnesau ymrwymo i leihau eu hôl-troed carbon.

6.85 Mae oddeutu dau draean o allyriadau nwyon tŷ gwydr o ganlyniad i gyflenwi, busnes a diwydiant ynni. Bydd ein buddsoddiad digidol, fel y nodir ym mhennod 5, yn sicrhau bod gan bobl fynediad at fand eang cyflym a dibynadwy, gan eu galluogi i weithio o'u cartref a bydd mwy o drafodion busnes yn cael eu cyflawni'n ddigidol yn hytrach nac wyneb yn wyneb, gan leihau allyriadau carbon.

6.86 Mae ein cynlluniau gwariant yn cynnwys £2m ar gyfer **pwyntiau gwefru i geir trydan** dros ddwy flynedd (£1m yn 2018-19 ac £1m yn 2019-29) fel y nodir yn y cytundeb dwy flynedd ar y Gyllideb gyda Phlaid Cymru. Bydd y cyllid hwn yn sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o bwyntiau gwefru cyflym hygyrch i'r cyhoedd. Bydd y ffocws ar leoliadau ar y rhwydwaith ffyrdd strategol neu gerllaw iddynt, gyda phwyslais penodol ar deithiau o'r gogledd i'r de ac o'r dwyrain i'r gorllewin.

6.87 Mae gennym hanes blaenorol cryf o ran gyrru **ailgylchu** a byddwn yn buddsoddi £4.5m yn 2019-20 a £4.5m yn 2020-21 i helpu Cymru i gwrdd â'r her dim gwastraff.

6.88 Rydym hefyd yn dyrannu £8m yn 2019-20 ac £8m yn 2020-21 i ariannu'r rhaglen newid cydweithredol i helpu awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn newidiadau i wasanaethau a chynyddu'r ystod o ddeunyddiau y gallant eu hailgylchu, gan ei gwneud yn haws i bobl chwarae eu rhan hwy o ran ailgylchu. Daw hyn â chyfanswm ein buddsoddiad cyfalaf ychwanegol i £25m ar gyfer ailgylchu gwastraff a newid cydweithredol i gefnogi ein rhaglen datgarboneiddio a chefnogi ein hymrwymiad yn *Ffyniant i Bawb* i symud tuag at gael economi sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.

6.89 Bydd y cyllid yn helpu i hyrwyddo darparu seilwaith newydd i drin y deunyddiau ychwanegol y mae awdurdodau lleol yn eu casglu ac yn cynnwys £6.5m ar gyfer **Cronfa Fuddsoddi Cyfalaf yr Economi Gylchol** gyda'r nod o hyrwyddo datblygu'r farchnad a'r defnydd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu mewn gweithgynhyrchu. Gyda'i gilydd, bydd mwy o ailgylchu, seilwaith newydd a datblygu'r farchnad yn gyrru economi gylchol yng Nghymru, yn hyrwyddo swyddi a lleihau carbon.

## Atodiad A: Atal

1. Roedd Cyllideb Ddrafft Amlinellol 2019-20 yn nodi pwysigrwydd atal i Lywodraeth Cymru er mwyn manteisio i'r eithaf ar effaith ein hadnoddau, ac roedd yn tynnu sylw at y ffocws a roddir ar atal gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

2. Gan weithio gyda'r trydydd sector a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym wedi datblygu diffiniad amlhaenog o atal, sy'n cydnabod yr ystod eang o gyllid a gwasanaethau a ddarperir gennym. Y bwriad yw cynorthwyo penderfyniadau polisi gan gydnabod na ellir anelu popeth a wnawn at atal sylfaenol, ond dros amser gallwn symud tuag at ganolbwyntio ar atal trafferthion ar gyfer pobl, ein heconomi a'n hamgylchedd, cyn iddynt godi.

**Atal** yw gweithio mewn partneriaeth i gyd-gynhyrchu'r canlyniadau gorau posibl, gan ddefnyddio'r cryfderau a'r asedau sydd gan bobl a llefydd i'w cyfrannu. Gan rannu i bedair lefel, gall pob lefel leihau'r galw am yr un nesaf:

- **Atal Sylfaenol (AS)** – Adeiladu gwytnwch – creu'r amodau fel na fydd problemau'n codi yn y dyfodol. Dull gweithredu cyffredinol.
- **Atal eilaidd (AE)** – Targedu gweithredu tuag at ardaloedd lle y mae risg uchel i broblemau ddigwydd. Dull gweithredu wedi'i dargedu, sy'n atgyfnerthu egwyddorion cyffredinoliaeth gynyddol*.
- **Atal trydyddol (AT)** - Ymyrryd pan fydd problem, i'w hatal rhag gwaethygu ac atal iddi ddigwydd eto yn y dyfodol. Dull gweithredu ar sail ymyrryd.
- **Gwariant acíwt (GA)** – Gwariant sy'n cymryd camau i reoli effaith sefyllfa hynod negyddol ond sy'n gwneud ychydig neu ddim byd i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol. Dull gweithredu adferol.

* **cyffredinoliaeth gynyddol** yw bod yn benderfynol o ddarparu cefnogaeth i bawb, gan roi llais a diddordeb penodol i bawb a phopeth, ond gan gydnabod y bydd angen mwy o gefnogaeth ar y bobl neu'r meysydd hynny sydd â'r angen mwyaf.

3. Mae pwysau ar adnoddau a'r angen gwirioneddol i wasanaethau cyhoeddus ddarparu ymyriadau adferol yn golygu na all yr holl gyllid gael ei gyfeirio tuag at atal.

4. Gallai rhai o'r camau angenrheidiol i atal y problemau y mae un corff neu adran gyhoeddus yn mynd i'r afael â hwy – er enghraifft derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i ddamweiniau ffyrdd (GIG) – orfod cael eu cymryd gan gorff neu adran gyhoeddus gwbl wahanol, megis cyflwyno croesfannau i gerddwyr neu gyfyngiadau cyflymder (awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU).

5. Gallai'r arian a fuddsoddir gan un corff neu adran – er enghraifft plannu coed ar strydoedd trefol gan awdurdodau lleol – gynhyrchu arbedion ar gyfer corff arall, megis byrddau iechyd, os bydd gwelliannau o ran ansawdd aer yn golygu


gostyngiad o ran problemau resbiradol, ond mae'n bosib y gallant gynhyrchu llai o arbedion cost, neu arbedion llai amlwg neu gyflym, ar gyfer y corff sy'n rhoi'r camau ar waith.

6. Hyd yn oed pan fydd canlyniad annymunol yn cael ei atal, gall fod yn anodd dweud pa ymyriad yn union a gafodd yr effaith fwyaf er mwyn datblygu'r ymarfer mwyaf cost-effeithiol.

7. Fel rhan o'n ffocws ar atal, rydym wedi cwblhau gwaith cychwynnol i ddosbarthu gwariant yn Llywodraeth Cymru yn erbyn y diffiniad o atal. Rydym wedi dewis meysydd gwariant i'w hadolygu, wedi'u ffurfio o grŵp o gamau yn y gyllideb o bob Prif Grŵp Gwariant. Mae'r adolygiad yn defnyddio ffigurau terfynol Cyllideb 2018-19 i ffurfio darlun cyn gywired â phosibl.

8. Mewn rhai achosion lle nad oes gwybodaeth ar gael, am ei bod yn nwylo corff arall, rydym wedi llunio amcangyfrif o'r rhaniad yn ôl categori. Mae'r canlyniadau yn ôl meysydd gwariant i'w gweld isod.

*Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus* –Tai- £155.2m




**Camau Gweithredu:**

Cefnogi Pobl


Atal Digartrefedd

Byw'n Annibynnol

Y Gronfa Gofal Integredig.

Mae maes Polisi Tai ym Mhrif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar wariant ataliol eilaidd neu drydyddol. Caiff y rhan fwyaf o'r arian ei roi yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol i'w wario ar yr hyn sy'n strategol berthnasol yn eu hardal hwy, sy'n golygu targedu penodol ar y rhai sydd mewn sefyllfaoedd ansefydlog o ran tai (atal eilaidd). Mae cyllid refeniw wedi ei neilltuo ar gyfer y rhai sy'n ddigartref a chyllid cyfalaf ar gyfer timau ymateb cyflym i helpu pobl oedrannus i setlo'n ôl yn eu cartrefi ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty (atal trydyddol).

*Iechyd a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol* - £34.9m




**Camau Gweithredu:**

Gofal Cymdeithasol a Chefnogaeth

Partneriaeth ac Integreiddio


Comisiynydd Pobl Hŷn

Gofal Cymdeithasol Cymru.

O'r holl feysydd a aseswyd, maes Gwasanaethau Cymdeithasol o Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n canolbwyntio fwyaf ar atal eilaidd, gyda 93% o'r gwariant yn dod o fewn y categori hwn.

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn seiliedig ar angen ac yn cael eu targedu tuag at grwpiau agored i niwed yn y gymdeithas. Er enghraifft, mae'r gwariant refeniw o £1.1m ar y strategaeth gofalwyr yn anelu at gynorthwyo'r rhai sydd â chyfrifoldeb gofalu, a all roi pwysau sylweddol ar lesiant unigolyn. Daw dros hanner y gwariant ar atal sylfaenol o'r £1.5m o gyllid ar gyfer Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, sy'n cynorthwyo cyrff cyhoeddus i roi cefnogaeth well i bobl hŷn gan atal problemau rhag gwaethygu.

*Economi a Thrafnidiaeth – Teithio Cynaliadwy  £149.3m*




**Camau Gweithredu:**

Cludiant Cynaliadwy


Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc

Teithio Cynaliadwy

Ffocws allweddol yn yr agenda cynaliadwyedd yw'r angen i adeiladu seilwaith cludiant sy'n hygyrch ar gyfer cynifer o bobl â phosibl er mwyn gwella cysylltedd rhwng cymunedau a lleihau difrod i'r amgylchedd. Mae maes teithio cynaliadwy y MEG hwn yn canolbwyntio ar atal sylfaenol, gyda gwariant refeniw fel y £29m a wariwyd ar ariannu'r grant cynnal gwasanaethau Bysiau sydd wedi'i ddosbarthu bron yn llwyr o fewn y categori hwn.

Mae gwariant cyfalaf hefyd yn canolbwyntio ar atal sylfaenol, gydag 80% o'r £39m yn cael ei wario ar y seilwaith i gefnogi tocynnau rhatach i bobl dros 60 oed, waeth beth fo'u hamgylchiadau.

*Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig – Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd*
£146.2m




**Camau Gweithredu:**

Datblygu a Chyflawni Polisi Cyffredin a Chynnydd tuag at Ddatblygu Cynaliadwy a Rheolaeth Adnoddau Naturiol.

Datblygu a Gwella Newid yn yr Hinsawdd, Effeithlonrwydd a Thwf Gwyrdd


Rheoli a Gwella'r Strategaeth Gwastraff a Chaffael

Datblygu, Gwella Llifogydd a Risg Dŵr Arfordirol.

Mae maes newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd y MEG hwn yn cwmpasu polisïau y bydd pawb yn cael budd ohonynt, yn enwedig ym meysydd datgarboneiddio a'r strategaeth gwastraff.

Mae'r dyraniad cyfalaf yn cynnwys £27m o fuddsoddiad yn y polisi rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol wedi'i lunio i ddatblygu gwytnwch mewn ardaloedd yn y wlad sydd â risg uwch o ddifrod gan lifogydd ac erydu arfordirol ac felly'n cael ei ddosbarthu fel atal eilaidd. Mae'r gwariant ar raglenni tlodi tanwydd fel NEST hefyd yn fesurau atal eilaidd gan eu bod yn ceisio helpu grwpiau penodol o bobl a allai fod yn methu â fforddio i wresogi eu cartrefi.

*Addysg – Safonau Addysg a Hyfforddiant* - £1bn




**Camau Gweithredu:**

Llythrennedd a Rhifedd

Cwricwlwm

Addysgu ac Arweinyddiaeth

Cymwysterau Addysg Ôl 16

Addysg Uwch

Safonau Addysg

Grant Datblygu Disgyblion

Yr Ystâd a Darpariaeth TG

Oherwydd ei natur gyffredinol, mae maes safonau addysg a hyfforddiant o Brif Grŵp Gwariant Addysg wedi'i bwysoli'n drwm tuag at atal sylfaenol. Mae meysydd nodedig o wariant ar atal sylfaenol yn cynnwys y ddarpariaeth o £309m ar gyfer addysg bellach a £92m ar gyfer y chweched dosbarth - y ddau faes yn agored i bawb sy'n mynychu.


9. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r trydydd sector a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i edrych sut mae modd i ni symud y gwaith hwn ymlaen o gysyniad o ymarfer er mwyn cynorthwyo penderfyniadau ar wariant ataliol.

## Atodiad B: Cysoni Cylchoedd y Gyllideb Ariannol a'r Gyllideb Carbon

1. Fel rhan o waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddatgarboneiddio rydym wedi edrych i weld sut y gellir cysoni cylchoedd ein cyllideb ariannol a'n cyllideb carbon er mwyn cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwell drwy gynllunio ariannol a pholisi. Caiff y cynllun cyflawni carbon isel ei ddiweddaru bob pum mlynedd; fel arfer caiff y gyllideb ariannol ei phennu am un i bedair blynedd, gan ddibynnu ar gyfnod adolygiad gwariant y DU.

2. Mae cysoni'r ddau yn fwy heriol yng nghyfnod y gyllideb carbon gyntaf oherwydd amseru'r *Cynllun Cyflawni Carbon Isel* cyntaf. Mae'r diagram isod yn nodi'r cylch hirdymor.

**Cysylltu'r cylch cyllideb Ariannol a Charbon yn y tymor hir**




*[1] Mae'r cyfnod y gellir pennu cyllideb ar ei gyfer yn dibynnu ar amseru a hyd adolygiadau gwariant Llywodraeth y DU. Bydd yr adolygiad gwariant nesaf yn 2019.*

*[2] Mae'r gyllideb yn cael ei chyhoeddi cyn y bydd y cynllun cyflenwi carbon isel ar ei ffurf derfynol yn dilyn yr ymgynghoriad. Bydd y gyllideb yn pennu cynlluniau blwyddyn ar gyfer 19-20 a chynlluniau dwy flynedd ar gyfer cyfalaf hyd 2020-21.*

3. Mae mwy o ysgogiadau hefyd wedi eu datblygu ar draws y llywodraeth – mae datgarboneiddio wedi cael ei gynnwys fel maes blaenoriaeth yn Ffyniant i Bawb; mae'n uno'r meini prawf y caiff cynigion cyfalaf eu hasesu yn eu herbyn; mae'n ystyriaeth allweddol ym mhob Cyngor Gweinidogol ac yn asesiad yn adran sgrinio'r adnodd asesu effaith integredig newydd.

## Atodiad C: Costau Gweithredu Deddfwriaeth

**Costau Gweithredu Deddfwriaeth a Ddaeth i Rym yn 2019-20**

*[Cliciwch ar deitl pob deddf i gael gwybodaeth gefndirol]*

| Teitl Deddfau | Pa Linell Wariant yn y Gyllideb (BEL) sy'n ariannu'r costau? | Cyfnod gweithredu | AERh Amcan o Gostau | Gwir gostau | AERh Amcan o Gostau | Gwir gostau | Symiau a neilltuwyd yn y Gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | | | |
| Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 | Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | 2016 – Ebrill 2019 | **2016-17 £** | **2016-17 £** | **2017-18 £** | **2017-18 £** | |
| | | | £2.1m | £282,000[1] | £1.8m | £1.5m | |
| | | | **2018-19 £** | **2018-19 £** | **2019-20 £** | | **2019-20 £** |
| | | | £1.8m | £1.5m | £1.8m | | £1.5m |
| Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017[2] | Gwella Iechyd a Gweithio Iach | Gorffennaf 2017– Mawrth 2022 | **2016-17 £** | **2016-17 £** | **2017-18 £** | **2017-18 £** | |
| | | | - | - | £593,000 | £11,931 | |
| | | | **2018-19 £** | **2018-19 £** | **2019-20 £** | | **2019-20 £** |
| | | | £1.8m | £430,729 (amc.) | £724,000 | | £476,500 |

[1]Oherwydd y mabwysiadwyd dull o weithredu fesul cam, mae'r costau i reoleiddiwr y gwasanaeth wedi'u stagro yn hytrach na'u canolbwyntio yn y flwyddyn gyntaf fel y gwelir yn yr AERh.

[2] Roedd y gwariant yn llai na'r hyn a amcangyfrifwyd yn wreiddiol oherwydd natur gymhleth rhai elfennau o'r gwaith a phwysau ar adnoddau. Mae adnoddau ychwanegol wedi'u dyrannu er mwyn i'r gweithredu fynd rhagddo.

| Teitl Deddfau | Pa Linell Wariant yn y Gyllideb (BEL) sy'n ariannu'r costau? | Cyfnod gweithredu | AERh Amcan o Gostau | Gwir gostau | AERh Amcan o Gostau | Gwir gostau | Symiau a neilltuwyd yn y Gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus** | | | | | | | |
| Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 | Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | Hydref 2015 – Hydref 2021 | **2016-17 £** | **2016-17 £** | **2017-18 £** | **2017-18 £** | |
| | | | £331,500 | £331,500 | £331,500 | £331,500 | |
| | | | **2018-19 £** | **2018-19 £** | **2019-20 £** | | **2019-20 £** |
| | | | £351,500 | £351,500 | £361,296 | | £361,296 |
| Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016[3] | Datblygu a Gweithredu Polisi (Cam Gweithredu a BEL) | Ionawr 2016 - Ebrill 2019 | **2016-17 £** | **2016-17 £** | **2017-18 £** | **2017-18 £** | |
| | | | £140,000 | - | £65,000 | - | |
| | | | **2018-19 £** | **2018-19 £** | **2019-20 £** | | **2019-20 £** |
| | | | £35,000 | £140,000 (I gadarnhau) | £20,000 | | £65,000 |

[3] Oherwydd oedi i weithredu mae'r costau arfaethedig wedi eu hail-broffilio i'r flwyddyn gyfredol a blynyddoedd y dyfodol, sy'n parhau'n ddarostyngedig i newid gan fod penderfyniadau ar weithredu'n dal i fynd rhagddynt.

| Teitl Deddfau | Pa Linell Wariant yn y Gyllideb (BEL) sy'n ariannu'r costau? | Cyfnod gweithredu | AERh Amcan o Gostau | Gwir gostau | AERh Amcan o Gostau | Gwir gostau | Symiau a neilltuwyd yn y Gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Economi a Thrafnidiaeth** | | | | | | | |
| Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 | Cadw, gwarchod cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol a naturiol | 2016-2021 | **2016-17 £** | **2016-17 £** | **2017-18 £** | **2017-18 £** | |
| | | | £220,887 | £220,000 | £230,000 | £181,321 | |
| | | | **2018-19 £** | **2018-19 £** | **2019-20 £** | | **2019-20 £** |
| | | | £197,000 | £217,000 (wedi'i gyllidebu) | £197,000 | | £197,000 |
| **Addysg** | | | | | | | |
| Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 | Anghenion Dysgu Ychwanegol Anghenion Dysgu Ychwanegol | | **2016-17 £** | **2016-17 £** | **2017-18 £** | **2017-18 £** | |
| | | | £27,409 | £27,409 | £158,000 | £123,461 | |
| | | | **2018-19 £** | **2018-19 £** | **2019-20 £** | | **2019-20 £** |
| | | | £175,000 | £36,074 hyd yma | £353,500 | | £353,500 |
| | Anghenion Dysgu Ychwanegol | | **2016-17 £** | **2016-17 £** | **2017-18 £** | **2017-18 £** | |

| Teitl Deddfau | Pa Linell Wariant yn y Gyllideb (BEL) sy'n ariannu'r costau? | Cyfnod gweithredu | AERh Amcan o Gostau | Gwir gostau | AERh Amcan o Gostau | Gwir gostau | Symiau a neilltuwyd yn y Gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | - | - | £370,000 | £289,025 | |
| | | | **2018-19 £** | **2018-19 £** | **2019-20 £** | | **2019-20 £** |
| | | | £3.2m | taliad i'w wneud ym Mawrth 2019[4] | £3.2m | | £3.2m |
| **Yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig** | | | | | | | |
| Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 | Gweithredu Deddfwriaeth a Pholisi | Gorffennaf 2014 - Gorffennaf 2018 | **2016-17 £** | **2016-17 £** | **2017-18 £** | **2017-18 £** | |
| | | | £25,000 | £55,000[5] | £25,000 | £30,493 | |
| | | | **2018-19 £** | **2018-19 £** | **2019-20 £** | | **2019-20 £** |
| | | | £25,000 | £40,000[6] (amc.) | £25,000 | | £100,000 |

[4] Disgwylir y bydd y cyfan o'r £3.2m yn cael ei wario yn 2018-19. Fodd bynnag, mae hyn cael ei adolygu tra disgwylir am gymeradwyaeth ffurfiol i gynlluniau rhanbarthol arweinyddion trawsnewid ADY (sy'n nodi sut y maent yn bwriadu gwario arian y grant)

[5] Cafwyd costau ychwanegol gan y bu angen cefnogaeth gyfreithiol yn ystod camau cyntaf y panel.

[6] Mae'r panel ymgynghorol yn dymuno diwygio a moderneiddio'r Gorchymyn Cyflogau ac mae angen cefnogaeth gyfreithiol arbenigol.

| Teitl Deddfau | Pa Linell Wariant yn y Gyllideb (BEL) sy'n ariannu'r costau? | Cyfnod gweithredu | AERh Amcan o Gostau | Gwir gostau | AERh Amcan o Gostau | Gwir gostau | Symiau a neilltuwyd yn y Gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Cynllunio (Cymru) 2015[7] | Cynllunio a Rheoleiddio | 2016 - 2020 | **2016-17 £** | **2016-17 £** | **2017-18 £** | **2017-18 £** | |
| | | | £353,611 | £40,532 | £94,295 | £67,201 | |
| | | | **2018-19 £** | **2018-19 £** | **2019-20 £** | | **2019-20 £** |
| | | | £83,595 | £223,056 | £140,468 | | £10,866 |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016[8] | Grŵp yr Amgylchedd a Materion Gwledig | 2016 - 2019 | **2016-17 £** | **2016-17 £** | **2017-18 £** | **2017-18 £** | |
| | | | £69,000 | £135,511 | £33,000 | £310,380 | |
| | | | **2018-19 £** | **2018-19 £** | **2019-20 £** | | **2019-20 £** |
| | | | £75,000 | £139,000 | £15,000 | | £140,000 |

[7] Dangosir yr amrywiaeth mwyaf o ran costau yn 2016-17 ac mae'r AERh yn adlewyrchu cynnwys arfaethedig taliad o £120,000 o Lywodraeth Cymru i gynorthwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol o ran costau sefydlu a chynhyrchu'r Cynllun Datblygu Strategol a gynhwyswyd hefyd fel modd o gymell Awdurdodau Cynllunio Lleol i ymgymryd â chynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol yn dilyn rhoi Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf. Gan na fynegwyd unrhyw ddiddordeb gan Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ystod y cyfnod hwn, ni fu unrhyw gostau. Mae gwahaniaethau eraill rhwng AERh a gwir ffigurau yn adlewyrchu newidiadau yn y proffil cost dros nifer o flynyddoedd.

[8] Mae'r gwir gostau'n adlewyrchu newidiadau yn y proffil cost a'r angen am ddarnau o waith ategol yn dilyn datblygu'r rhaglenni ymhellach. Bydd costau'r AERh a fframwaith werthuso ehangach yn cael eu datblygu ymhellach i gefnogi rheoliadau dan nifer o rannau o'r Ddeddf.

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol

### *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016*

1. Mae'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (Y Bil) yn set o ddarpariaethau a fydd yn darparu fframwaith deddfwriaethol diwygiedig ac wedi'i symleiddio ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal a chymorth yng Nghymru.

2. Mae'r Ddeddf yn cynnig cyflwyno newidiadau a fydd yn:

   - diwygio'r drefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth;
   - darparu fframwaith rheoleiddio sy'n galw am ddull gweithredu o ran rheoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth;
   - diwygio'r gyfundrefn ar gyfer arolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol;
   - ailsefydlu ac ailenwi Cyngor Gofal Cymru yn Gofal Cymdeithasol Cymru ac ehangu ei gylch gorchwyl; a
   - diwygio rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

### *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017*

3. Ar draws ei hystod eang o ddarpariaethau, bydd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn gwneud cyfraniad pwysig at iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Bydd yn gosod mesurau gwarchod pwysig yn eu lle ar gyfer y cyhoedd, gan gynnwys ymestyn y gofynion di-fwg i rai mannau agored penodol, cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer gweithdrefnau arbennig yn ogystal â gwahardd rhoi twll mewn rhannau personol o gyrff unrhyw un dan 18 mlwydd oed. Bydd y Ddeddf hefyd yn ceisio mynd i'r afael â materion iechyd cyhoeddus pwysig eraill gan gynnwys gordewdra a chynllunio toiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd.

## Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

### *Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015*

4. Nod cyffredinol y Ddeddf yw gwella ymateb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bwriedir iddi ddarparu ffocws strategol ar y materion hyn a sicrhau ystyriaeth gyson o fecanweithiau ataliol, gwarchodol a chefnogol o ran darparu gwasanaethau.

5. Ar gyfer 2019-20, bydd y cyllid ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn £361,296. Mae hyn yn cynnwys costau i gyflwyno'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a'r costau cysylltiedig â'r Cynghorwyr Cenedlaethol.

### *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016*

6. Wrth galon y ddeddf mae'r 'contractau meddiannaeth'. Gyda nifer cyfyngedig o eithriadau, mae'r ddeddf yn disodli pob tenantiaeth a thrwydded gyfredol ac yn rhoi yn eu lle ddau fath o gontract meddiannaeth yn unig:

- contract diogel – yn seiliedig ar y tenantiaethau diogel presennol a roddir gan awdurdodau lleol.
- contract safonol - yn seiliedig ar y denantiaeth fyrddaliad sicr a ddefnyddir yn y sector rhentu preifat yn bennaf.

7. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid gyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'r contract meddiannaeth sy'n nodi'n glir beth yw hawliau a chyfrifoldebau landlordiaid a'r rhai sy'n rhentu ganddynt. Bydd isafswm cyfnod meddiannaeth o chwe mis yn cael ei gynnal gan y Ddeddf a bydd yn rhaid i landlordiaid sicrhau bod yr eiddo'n addas i bobl fyw ynddo. Mae'r Ddeddf hefyd yn helpu i amddiffyn pobl rhag cael eu troi allan ddim ond am eu bod wedi cwyno am gyflwr eiddo.

8. Bydd pobl sy'n canfod eu hunain mewn amgylchiadau anodd hefyd yn cael budd o'r Ddeddf. Bydd yn helpu i atal sefyllfaoedd cyfredol o ddigartrefedd lle bydd cyd-denant yn gadael tenantiaeth, a thrwy hynny'n terfynu'r denantiaeth i bawb arall. Bydd y dull newydd o ran gontractau ar y cyd hefyd yn helpu dioddefwyr cam-drin domestig drwy alluogi'r unigolyn sy'n cyflawni camdriniaeth domestig i gael ei dargedu ar gyfer ei droi allan.

## Economi a Thrafnidiaeth

### *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016*

9. Mae tri prif nod i Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016:

   - gwarchod adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig mewn ffordd fwy effeithiol;
   - rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd fwy cynaliadwy;
   - sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am yr amgylchedd hanesyddol yn fwy tryloyw ac atebol.

10. Mae'r Ddeddf yn diwygio dau ddarn o ddeddfwriaeth y DU — Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 — sydd ar hyn o bryd yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ar wahân yn ymwneud ag enwau lleoedd hanesyddol; cofnodion yr amgylchedd hanesyddol a'r Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru.

## Addysg

### *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018*

11. Bydd Deddf Anghenion Dysgu ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn disodli'r fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) cyfredol gyda system ddiwygiedig ar sail Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

12. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol cyffredinol, statudol ar gyfer yr holl blant a'r bobl ifanc ag ADY. Bydd hyn yn rhoi diwedd ar y gwahaniaeth cyfredol rhwng ymyriadau sy'n cael eu harwain gan yr ysgol a datganiadau a gyhoeddir gan awdurdodau lleol ac yn integreiddio'r

trefniadau deddfwriaethol ar wahân sy'n bodoli ar gyfer disgyblion mewn ysgolion a myfyrwyr ôl-16 mewn colegau. Mae'r Ddeddf hefyd yn gobeithio gwella cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn ogystal â sefydlu system decach a mwy tryloyw gyda mwy o bwyslais ar osgoi anghytundeb a datrys anghydfodau.

## Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

### *Deddf y Sector Amaethyddol (Cymru) 2014*

13. Cafodd Deddf y Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ei rhoi ar waith i wneud y canlynol:

- sefydlu Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru,
- gwneud gorchmynion cyflogau amaethyddol sy'n nodi'r telerau a'r amodau ar gyfer gweithwyr amaethyddol, a
- gorfodi'r telerau a'r amodau yn y gorchmynion hynny.

14. Er bod y Ddeddf yn datgan y bydd yn dod i ben 4 blynedd o'r dyddiad pryd y daeth i rym, mae'n sail i Orchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 a'r Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol (Cymru) blynyddol fel y pennir hwy gan y Panel Cynghori.

### *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015*

15. Nod Deddf Cynllunio (Cymru) ('Y Ddeddf') yw darparu system gynllunio sy'n gadarnhaol o ran agwedd ac yn galluogi datblygu, gan gynorthwyo i gyflawni mannau cynaliadwy yn cynnwys cartrefi, swyddi a seilwaith, ac ar yr un pryd darparu cyfleoedd i warchod a gwella'r amgylcheddau naturiol ac adeiledig pwysicaf.

16. I gyflawni'r nod, mae'r Ddeddf:

- yn ail-ddiffinio rolau a chyfrifoldebau sefydliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cynllunio; ac
- yn gwneud gwelliannau i'r cynllun datblygu, systemau rheoli datblygu a gorfodi er mwyn gwella perfformiad a gwireddu potensial llawn cynllunio i helpu i gyflawni dyheadau cenedlaethol, lleol a chymunedol.

### *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*

17. Nod cyffredinol Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yw sefydlu deddfwriaeth a fydd yn galluogi rheoli adnoddau Cymru mewn modd mwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig ac i sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

18. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i helpu i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru ar lefel genedlaethol a lleol, drwy ofynion penodol ar gyfer Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol (NNRP) a datganiadau ardal. Bydd y darpariaethau'n galluogi mwy o integreiddio a

symleiddio ar bolisïau, cynlluniau a rhaglenni lle y mae hyn yn gyson â dyletswyddau statudol presennol. Mae’r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyffredinol ar Gyfoeth Naturiol Cymru sy’n cyd-fynd yn llawn â'r egwyddorion statudol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac yn darparu mwy o bwerau i Gyfoeth Naturiol Cymru ymgymryd â chytundebau a chynlluniau arbrofol o ran rheoli tiroedd yn unol â’r egwyddorion hynny. Mae’r Ddeddf hefyd yn darparu gofyniad diwygiedig i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth.

19. Mae’r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaethau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, drwy dargedau statudol ar gyfer lleihau allyriadau a chyllidebu carbon i gynorthwyo i’w cyflawni. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau i wella’r defnydd o adnoddau o ran rheoli bagiau plastig a gwastraff. Mae’r adrannau ar godi tâl am fagiau plastig yn galluogi gwneud gwelliannau i’r cynllun presennol ar gyfer bagiau siopa untro ac y mae’r rhai ar wastraff yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru weithredu i gyflawni lefelau ailgylchu uwch ar gyfer gwastraff busnes, trin gwastraff bwyd ac adfer ynni. Mae’r Ddeddf hefyd yn egluro’r gyfraith ar gyfer nifer o systemau rheoleiddio amgylcheddol presennol gan gynnwys trwyddedu morol, rheoli pysgodfeydd pysgod cregyn, draenio tir a rheoli’r risg o lifogydd.

## Atodiad D: Asesiad Effaith Integredig Strategol

### Cyflwyniad

1. Ym mis Medi 2017, cyhoeddwyd *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol,* sy'n amlinellu ein nod o sicrhau Cymru ffyniannus er lles pawb.

2. Ein nod hirdymor yw creu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, yn iach ac egnïol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, ac yn unedig a chysylltiedig. Er mwyn cyflawni'r nod hwnnw, pennwyd 12 amcan llesiant sy'n dangos ble y gallwn wneud y cyfraniad mwyaf i'r nodau llesiant cenedlaethol, gan wneud Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan annatod o'n penderfyniadau. O fewn ein strategaeth, nodwyd y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hyn; y ffordd byddwn yn cysoni gwasanaethau a'r ffordd y byddwn yn canolbwyntio ar y pethau sy'n cael yr effaith fwyaf.

3. Ceir rhagor o wybodaeth am ein hamcanion llesiant a'r ffordd y maent yn ein helpu i gefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol yn *Adroddiad Llesiant 2017*[1].

4. Yn naratif ein Cyllideb ddrafft amlinellol[2], gosodwyd y fframwaith ar gyfer yr asesiad effaith integredig strategol a'r gwahanol safbwyntiau yr ydym yn eu defnyddio i asesu effaith ein penderfyniadau.

5. Yn ogystal â hynny, gosodwyd cyd-destun y Gyllideb hon - y rhagolygon ariannol, y prif heriau hirdymor i Gymru a'r ymrwymiadau sylfaenol yn *Ffyniant i Bawb* a *Symud Cymru Ymlaen.*

6. Rydym wedi bod yn gweithio i ddatblygu ein dull o gynnal asesiadau effaith, sy'n rhan ganolog o'r gwaith o wneud polisïau cynhwysfawr a chytbwys. Mae gwerthuso'r effaith - cadarnhaol a negyddol - yn ein helpu i dargedu ein hadnoddau cynyddol brin ar gamau gweithredu a fydd yn cael yr effaith fwyaf bosib ar lesiant pobl a Chymru. O'r camau cyntaf, bydd polisïau, rhaglenni a deddfwriaeth yn cael eu datblygu i sicrhau'r llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol mwyaf posib - nid yn unig heddiw, ond yn yr hirdymor hefyd.

7. Mae asesiad integredig yn darparu asesiad mwy realistig o effaith gyffredinol penderfyniadau gwariant - mae cysylltiad rhwng yr effeithiau ac nid oes modd eu hystyried wrth eu hunain.

8. Mewn ymateb i adroddiad gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru bellach) rydym wedi datblygu offeryn asesiad integredig newydd. Bydd yn ein helpu i gynnal asesiad cyflawn o effaith cam gweithredu arfaethedig, gan ddod ag amrywiol ddyletswyddau asesu effaith ynghyd mewn fframwaith cynhwysfawr, a lleihau cymhlethdodau a dyblygu gwaith. Cafodd ei lansio ym mis Gorffennaf 2018, ac fe fydd yn cael ei adolygu ar ôl chwe mis.

---

[1] https://gov.wales/docs/strategies/170919-wellbeing-statement-cy.pdf.
[2] https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/2019-2020-gyllideb-ddrafft-amlinellol-naratif.pdf

9. Wrth werthuso effaith penderfyniadau cyllidebol rydym wedi dilyn dull cymesur, gan gynnal gwerthusiad cychwynnol i weld a oes angen asesiad effaith llawn, er enghraifft pan fo'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu yn fach iawn o gymharu â'r gyllideb gyffredinol, pan fo'r newid yn rhan o waith sydd eisoes wedi'i gynllunio i ddod â rhaglen i ben gyda'r canlyniadau yn cael eu cyflawni mewn ffordd arall neu pan fo arbedion effeithlonrwydd wedi'u gwneud.

10. Rydym wedi dibynnu ar dystiolaeth amrywiol wrth wneud penderfyniadau am y Gyllideb, gan gynnwys tystiolaeth ac ymchwil a gynhyrchwyd o fewn neu a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, y gellir eu gweld ar dudalennau Ystadegau ac Ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru[3].

11. Yn ôl tueddiadau demograffig, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a ragwelir, y prif feysydd blaenoriaeth fel ysgolion, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fydd yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r galw cynyddol yn y dyfodol, ac maent yn arbennig o bwysig i bobl â nodweddion gwarchodedig.

12. Mae'n bwysig iawn monitro a gwerthuso polisïau sy'n cael eu datblygu mewn ffordd dryloyw gan alluogi trafodaeth ymysg partneriaid a rhanddeiliaid. Ein bwriad yw cynllunio'r gwerthusiad ar ddechrau'r rhaglen bob tro, fel bod modd monitro ac asesu'r effaith drwy gydol y cyfnod.

13. Rydym hefyd yn dibynnu ar ein partneriaid, lle'r ydym yn darparu cyllid heb ei neilltuo a lle bo'r penderfyniadau yn cael eu cymryd ar lefel leol neu ranbarthol - er enghraifft drwy wariant craidd y GIG neu grant cynnal refeniw awdurdodau lleol - i asesu effaith eu penderfyniadau a gweithredu yn unol â hynny. Mae'r cyrff hyn yn darparu gwasanaethau cyhoeddus craidd sydd naill ai yn cael eu defnyddio gan bawb neu gan bobl â nodweddion gwarchodedig neu grwpiau demograffig economaidd-gymdeithasol is.

14. Rydym yn cydnabod y pwysau sy'n wynebu'r sector cyhoeddus ehangach yn y cyfnod estynedig hwn o gyni – yr hiraf mewn cof. O ganlyniad i'r dyraniadau ychwanegol yng Nghyllideb ddrafft 2019-20, rhai yn ymwneud â'r costau ychwanegol y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu eleni, rydym wedi llwyddo i leihau'r toriad i'r grant cynnal refeniw i lai na £13m, gan gynnwys cyllido gwaelodol i gyfyngu'r gostyngiad i unrhyw awdurdod lleol i 1%. Mae hyn yn cyfateb i 0.3% o ostyngiad ar sail arian tebyg at ei debyg o gymharu â 2018-19.

15. Er mai'r grant cynnal refeniw heb ei neilltuo yw'r ffynhonnell unigol fwyaf o gyllid i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru, mae llywodraeth leol yn manteisio ar ffynonellau cyllid eraill, gan gynnwys grantiau a ffrydiau ariannu penodol o adrannau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol.

16. Yn anochel, bydd y pwysau ar gyllid awdurdodau lleol mewn termau real yn golygu bod rhaid newid rhai gwasanaethau, ac fe fydd y penderfyniadau hynny yn cael eu gwneud gan awdurdodau lleol ar lefel leol. gan ddefnyddio tystiolaeth leol.

---

[3] https://gov.wales/statistics-and-research/?lang=cy.

17. Byddwn yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i liniaru neu gyfyngu ar yr effeithiau lle bynnag y gallwn. Mae hyn yn adeiladu ar y camau a gymerwyd dros y blynyddoedd diwethaf i ddatblygu gwell systemau i ddarparu sicrwydd am y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni, gan gydbwyso'r angen i leihau biwrocratiaeth a chynyddu hyblygrwydd i awdurdodau lleol ymateb i anghenion lleol.

## Ffyniannus a Diogel

### *Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant*

18. Prif nod y ***Cynllun Gweithredu ar yr Economi***[4] yw cynyddu cyfoeth a llesiant gan leihau anghydraddoldebau sy’n cael eu profi gan unigolion a chymunedau ar draws Cymru. Mae gan y cynllun dri amcan polisi – twf cynhwysol; diogelu busnesau a’r economi at y dyfodol; a grymuso pobl a rhanbarthau.

19. Yng Nghymru, mae'r cyfraddau diweithdra ar eu huchaf i'r rhai rhwng 16 a 19 oed ac yn syrthio wrth i bobl fynd yn hŷn; mae dynion bron ddwywaith mor debygol â menywod i fod yn hunangyflogedig ac mae dynion yn fwy tebygol na menywod o fod mewn gwaith llawnamser. Mae'r sectorau sylfaen, gan gynnwys twristiaeth, gofal cymdeithasol a manwerthu yn cynnig hyblygrwydd o ran gwaith rhan amser, ac mae menywod wedi'u cynrychioli'n ormodol yn y meysydd hyn; mae menywod hefyd wedi'u cynrychioli'n ormodol mewn swyddi gweinyddol ac ysgrifenyddol a heb eu cynrychioli'n ddigonol mewn swyddi crefftus. Ceir cyfraddau sylweddol is o gyflogaeth ymysg pob categori o anabledd o gymharu â'r rhai sydd heb anabledd craidd dan y Ddeddf Cydraddoldeb neu sydd heb anabledd sy'n cyfyngu ar waith. Yn gyffredinol, mae cyfradd gyflogaeth lleiafrifoedd ethnig yn is na phobl gwyn, ond mae hyn yn cuddio'r amrywiadau eang sydd rhwng y grwpiau.

20. Wrth ddatblygu’r *Cynllun Gweithredu ar yr Economi,* ystyriwyd y ffaith bod rhai grwpiau penodol yn fwy tebygol o brofi tlodi ac allgau nag eraill. Mae'n agenda hirdymor ar gyfer newid, ac rydym yn cydnabod y bydd cyflawni ei amcanion yn gofyn am fwy na newid cyllidebau mewn unrhyw flwyddyn unigol. Boed mewn gwaith neu heb waith, bwriad y *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* yw helpu pobl i fyw bywydau sefydlog, iach a boddhaol. Rydym yn cefnogi busnes nid er ei les ei hun, ond oherwydd y manteision ehangach y mae busnesau cynhyrchiol, cystadleuol a ffyniannus yn eu cynnig i bobl Cymru. Un o'r datblygiadau cyntaf yw dod â ffrydiau cyllido ynghyd drwy'r Gronfa Dyfodol yr Economi er mwyn darparu cyllid i fusnesau mewn ffordd lyfn a syml.

21. Bydd y **Contract Economaidd** yn ysgogi newid drwy ymrwymiad gan fusnesau i’r potensial i dyfu, cynnig gwaith teg, hyrwyddo iechyd, sgiliau a dysgu yn y gweithle a chamu ymlaen i leihau eu hôl troed carbon. Yn ogystal â bod yn synhwyrol o ran busnes, mae hyn hefyd yn rhoi cymorth uniongyrchol i bobl a gwella profiadau gweithwyr yn y gweithle. Bydd yn helpu i hyrwyddo gweithleoedd mwy amrywiol.

22. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu'n uniongyrchol at Erthygl 27 (yr hawl i gael safon byw priodol) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

23. Mae’r cynlluniau’n cynnwys dyraniad ychwanegol o £3m o gyfalaf trafodiadau ariannol yn 2019-20 a £4m yn 2020-21 i Gronfa Benthyciadau Busnesau Micro

[4] https://gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf

**Banc Datblygu Cymru.** Dyma flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi gan fod amcangyfrifon diweddaraf y boblogaeth fusnes yn dangos bod tua 209,000 o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, gyda thua 199,000 (95%) yn ficrofusnesau. Mae hyn yn 8% o dwf ers 2012, sy'n awgrymu galw parhaus a chynyddol am symiau llai o gyllid a chyllid cynnar. Bydd y grŵp hwn hefyd yn elwa ar y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach.

24. Fel rhan o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer Banc Datblygu Cymru, dadansoddwyd demograffeg y rhai fyddai'n elwa ar bob un o'r cronfeydd gweithredol. Roedd cynrychiolaeth uwch o berchnogion busnes benywaidd ac ethnig ymysg y rhai sy'n manteisio ar y Gronfa Benthyciadau Busnesau Micro o gymharu â chyfartaledd perchnogaeth busnesau bach a chanolig cyfatebol Cymru. Gwelwyd nad oedd cynrychiolaeth ddigonol o bobl ifanc yn manteisio ar y gronfa, gan awgrymu bod potensial i ymwneud ymhellach â phobl ifanc fel ffynhonnell cytundebau posib i'r gronfa.

25. Bydd ymrwymiad y Banc Datblygu i gynyddu ei swyddfeydd rhanbarthol yn golygu mwy o bresenoldeb mewn cymunedau lleol, gan gynnwys y bröydd Cymraeg.

26. Er mwyn cynorthwyo rhieni sy'n gweithio a'u helpu i fanteisio ar gynigion swyddi a hybu dewisiadau cyflogaeth, mae'r **cynnig gofal plant** yn cael ei gyflwyno ar draws y wlad. Gan gydnabod bod nifer o fathau o grwpiau teuluol, ac y gall eu sefyllfaoedd a'u hamgylchiadau weithiau fod yn gymhleth, mae'r rheolau cyllido yn rhai cynhwysfawr.

27. Cyfyngedig yw'r wybodaeth am y defnydd o ofal plant yn ôl grŵp ethnig. Mae data'n cael eu casglu fel rhan o'r gwaith o werthuso a monitro'r cynnig sy'n dechrau cael ei weithredu, ac fe fydd hyn yn cael ei gyhoeddi yn hwyrach yr hydref. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn flaenoriaeth sicrhau bod y cynnig mor hygyrch â phosib i bob rhiant cymwys. Rydym yn trafod â rhieni i ddeall y rhwystrau sy'n eu hatal rhag medru defnyddio gofal plant ar hyn o bryd, a'r hyn sy'n bwysig iddynt am y ffordd y mae'r cynnig yn cael ei ddarparu. Mae'r drafodaeth hon wedi dangos bod hyblygrwydd a dewis gofal plant yn hanfodol er mwyn i bawb fedru ei ddefnyddio.

28. Mae'r ***Cynllun Cyflogadwyedd***[5] yn gosod ein nodau i helpu pobl i gael swyddi, i hybu llesiant ac ysgogi ffyniant, a'r ffordd y mae hyn yn gysylltiedig â'r contract economaidd. Mae'r rhai nad ydynt yn gyflogedig yn cael eu cyfrif naill ai yn ddi-waith; yn chwilio am waith ac ar gael i weithio, neu'n economaidd anweithgar. Wrth gymharu Cymru â gwledydd a rhanbarthau eraill o fewn y DU, gwelwyd cyfraddau diweithdra tebyg i rai'r DU dros y flwyddyn ddiwethaf, ond mae canran y rhai sy'n economaidd anweithgar yn uwch yng Nghymru.

29. Mae'r camau gweithredu yn y Cynllun sy'n cael eu cyflawni drwy raglenni sydd eisoes yn bodoli a rhai newydd fel **Cymru'n Gweithio** a'r **Porth Cyngor Cyflogaeth** yn ceisio cyfrannu at gynyddu lefelau cynhyrchiant Cymru dros y degawd nesaf; cael gwared â'r bwlch sy'n bodoli rhwng cyfraddau diweithdra a gweithgarwch economaidd oedran gweithio Cymru a chyfartaledd y DU o fewn 10 mlynedd; cael gwared â'r bwlch rhwng Cymru a gweddill y DU ar bob lefel

[5] https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-04/Cynllun-cyflogadwyedd.pdf

cymwysterau mewn 10 mlynedd a lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru.

30. Bwriad rhaglen y **Cymoedd Technoleg**, gyda buddsoddiad ychwanegol o £10m o gyllid cyfalaf yn 2019-20 ac yn 2020-21, yw cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i bawb, gan leihau anghydraddoldebau a darparu hyfforddiant a phrentisiaethau sy'n rhoi sgiliau trosglwyddadwy i unigolion o bob cefndir. Mae'n ceisio diogelu'r economi at y dyfodol drwy fanteisio ar y cyfleoedd sy'n codi o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, drwy annog mabwysiadu technolegau digidol newydd sy'n cefnogi diwydiannau blaengar, gan gynnwys y sector modurol.

31. Bydd cyflogaeth sy'n cael ei greu gan y Cymoedd Technoleg yn fanteisiol i ardaloedd Glynebwy, Blaenau Gwent a'r Cymoedd yn ehangach, ardaloedd sy'n cynnwys rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

32. Mae **undebau credyd** yn chwarae rhan hanfodol yn ein cymunedau drwy fynd i'r afael ag allgáu ariannol, darparu cynnyrch cynilon diogel a benthyciadau fforddiadwy i'w haelodau a gweithio i ddarparu ymwybyddiaeth ac addysg ariannol. Maent yn fentrau cydweithredol ariannol, ac fe fydd cynilon yr aelodau ac unrhyw log sy'n cael ei ennill ar fenthyciadau yn aros yn y gymuned leol er lles pobl leol. Mae'n benthyciad o £500k i'r undebau credyd yn golygu bod modd iddynt dyfu a pharhau i helpu mwy o bobl.

33. Rydym yn dod ag academyddion, y GIG a diwydiant ynghyd drwy ein buddsoddiad mewn **ymchwil ac arloesi ym maes iechyd,** gan gynnwys £3m o 2019-20 mewn ymgais i greu canolfan ragoriaeth i Gymru a Gorllewin Lloegr yn yr Academi Ddelweddu Genedlaethol a £8m o gyllid trafodiadau ariannol am ddwy flynedd dros y cyfnod 2019-2021 ar gyfer canolfannau arloesi iechyd. Bydd y canolfannau yn canolbwyntio ar anghenion clinigol penodol neu heriau penodol iechyd y boblogaeth, gan wella canlyniadau i gleifion drwy fabwysiadu technolegau a gwasanaethau iechyd newydd. Wrth ysgogi twf economaidd drwy ddefnyddio ymchwil ac arloesi, mae hefyd yn helpu pobl yn y tymor hir i reoli cyflyrau a chynyddu eu cyfleoedd i gael swyddi.

34. Fel rhan o'n paratoadau ar gyfer **Brexit** rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i geisio deall effaith ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, gyda neu heb gytundeb. Mae'n prosiect **Cronfa Bontio'r UE** gwerth £50m yn adeiladu ar y gwaith hwn i gasglu rhagor o wybodaeth a helpu sectorau i baratoi ar gyfer Brexit. Rydym wedi gosod safbwyntiau polisi clir mewn nifer o bapurau gwyn[6]-. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi nifer sylweddol o hysbysiadau technegol sy'n nodi effaith bosib ymadael heb gytundeb ar amrywiaeth eang o faterion. Mae Cymru ar ei hennill yn ariannol o gyllid Ewropeaidd, ac mae'n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar feysydd fel ffermio, sgiliau a buddsoddi mewn seilwaith. Mae adroddiad y Prif Economegydd, a gyhoeddwyd wrth ochr y Gyllideb ddrafft amlinellol, yn dangos effaith Brexit ar economi Cymru ac yn dweud yn glir y bydd difrifoldeb yr effaith yn dibynnu ar union ffurf Brexit. Mae'n debygol y bydd Cymru'n cael ergyd anghymesur gan Brexit "caled".

[6] https://beta.llyw.cymru/brexit

*Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg*

35. Mae'r *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* yn cydnabod amrywiadau rhanbarthol mewn cyfoeth a llesiant a bod gan wahanol rannau o Gymru wahanol gyfleoedd a heriau. Bydd y model rhanbarthol o ddatblygu economaidd yn y *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* yn helpu i ysgogi cyfleoedd ym mhob rhan o Gymru, fel na fydd lleoliad bellach yn rhwystr sy'n atal pobl a chymunedau rhag gwella eu llesiant. Adroddir yn chwarterol ar yr ystadegau economaidd rhanbarthol.[7]

36. Rydym wedi penodi prif swyddogion rhanbarthol ym mhob un o ranbarthau Cymru, ac maent yn trafod â rhanddeiliaid ym mhob un o'r rhanbarthau hynny, gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli buddiannau gwledig er mwyn casglu adborth a gwybodaeth am ein dull gweithredu. Bydd £2.5m ychwanegol yn ategu'r gwaith hwn. Bydd y mewnbwn hwn yn helpu i lunio rhaglenni cenedlaethol a dylanwadu ar ddatblygiad cynlluniau busnes rhanbarthol.

37. Mae cysylltiad rhwng dyfodol ein cymunedau Cymraeg eu hiaith a'n heconomi ranbarthol. Bydd economi leol ffyniannus yn ein helpu i gyrraedd ein targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd swyddi o ansawdd da a rhanbarthau sy'n fannau deniadol i fyw, gweithio a buddsoddi, yn rhoi rheswm i bobl aros neu ddychwelyd i fyw a gweithio mewn cymunedau lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Bydd sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu yn helpu i sicrhau twf busnesau a rhoi cyfleoedd pendant ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol.

38. Bydd rhai grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn fwy tebygol o brofi tlodi ac allgáu nag eraill. Bydd ffocws y *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* ar dwf cynhwysol, ac economi ranbarthol ac economi sylfaenol sy'n gadarn yn ategu agenda cynhwysol, gan sicrhau bod pawb a phob rhan o Gymru yn cael mynediad at gyfleoedd i fyw bywydau boddhaol. Mae hyn yn cynnwys ysgogi newid diwylliant ac ymddygiad drwy'r contract economaidd i gefnogi gweithleoedd mwy cynhwysol.

39. Mae **Ein Cymoedd, Ein Dyfodol**[8] yn gynllun seiliedig ar leoedd, mewn cydweithrediad â chymunedau a phobl leol, i sicrhau newid gwirioneddol i Gymoedd y De; a fydd yn creu swyddi o ansawdd da, yn nes at gartrefi pobl; gwella sgiliau pobl a gwella llesiant cymunedau.

40. Mae gan Gymoedd y De nifer o gryfderau, ond maent hefyd yn wynebu cyfres unigryw o heriau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn, wedi'u hachosi i raddau helaeth gan ddirywiad diwydiannau trwm a diwedd y pyllau glo. Er mwyn cau'r bwlch cyflogaeth presennol a sicrhau bod lefelau cyflogaeth Cymoedd y De yr un fath â'r cyfartaledd yng Nghymru, byddwn yn helpu 7,000 o bobl ddi-waith neu economaidd anweithgar sy'n byw yn y Cymoedd i gael gwaith. Rydym yn buddsoddi £25m yn ystod 2019-2021 i gryfhau saith o ganolfannau strategol i ddarparu cyfleoedd i'r sector preifat ddarparu swyddi newydd. Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb y cynllun *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* yn nodi'r effaith gadarnhaol ddisgwyliedig ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig mewn perthynas â gwell cyfleoedd cyflogaeth.

[7] https://gov.wales/statistics-and-research/regional-economic-labour-market-profiles/?lang=cy.
[8] https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/170720-our-valleys-our-future-cyv2.pdf

41. Rydym yn buddsoddi, gyda Llywodraeth y DU, llywodraeth leol a phartneriaid eraill, mewn bargeinion dinesig gwerth biliynau o bunnoedd yn ardal ehangach dinas-ranbarth Caerdydd a rhanbarth Abertawe. Yn ôl tueddiadau byd-eang, disgwylir i'r boblogaeth a'r economi dyfu fwyaf mewn dinasoedd yn ystod y 21ain ganrif, lle bydd swyddi newydd, busnesau craff a phobl ddysgedig a medrus yn crynhoi. Er gwaetha'r twf yn y ddwy ardal, mae'r gwahaniaethau mawr yn y lefelau diweithdra, tlodi aelwydydd ac aelwydydd heb waith yn cyfateb yn agos i'r anghydraddoldebau iechyd, troseddol ac addysgol y gellir eu gweld ar draws y dinasoedd. Gan ystyried rôl incwm isel ym mhob ffurf ar amddifadedd, mae angen gweld twf cynhwysol ar draws y dinas-ranbarthau. Bydd cysylltu swyddi sy'n cael eu creu mewn dinasoedd â dinasyddion y ddinas-ranbarthau ehangach yn flaenoriaeth.

42. Bydd £28.6m o gyllid cyfalaf adfywio yn ystod 2019-20 a £36.8m yn ystod 2020-21 yn canolbwyntio ar drefi, dinasoedd neu aneddiadau penodol. Bwriedir i'r ardaloedd hyn elwa ar dwf economaidd drwy gynorthwyo awdurdodau lleol a phartneriaid sector preifat a thrydydd sector gyda phrosiectau cyfalaf a all ddarparu atebion integredig.

43. Mae gan y rhaglen **Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio** nodau datblygu cynaliadwy ehangach gyda'r gweithgareddau yn canolbwyntio ar unigolion a meysydd lle ceir lefelau amddifadedd uchel yn arbennig. Bydd yn helpu i greu swyddi, gwella sgiliau a chyflogadwyedd, a chreu amgylchedd lle gall busnesau dyfu a ffynnu. Mae tair elfen i'r rhaglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol -nodi adeiladau a safleoedd i'w targedu; gweithio gyda'r defnyddiwr yn y pen draw a sicrhau cynaliadwyedd prosiectau a gweithio i gefnogi'r unigolion hynny sydd bellaf o fyd gwaith. Mae'r cynlluniau hefyd yn targedu adeiladau rhestredig allweddol a'r rhai â rhinweddau pensaernïol, sy'n atgyfnerthu naws am le a threftadaeth ddiwylliannol canol ein trefi.

44. Yn 2017, cyhoeddodd y Prif Weinidog ei uchelgais i Gymru fod yn Genedl Gwaith Teg, lle gall pawb gyrraedd at swyddi gwell yn nes at y cartref – gan ddatblygu sgiliau a gyrfaoedd, lle gallwn ni oll ddisgwyl gwaith teilwng, boddhaol heb ddioddef camfanteisio na thlodi - a lle gall pob un ohonom adeiladu ffyniant a rhannu'r ffyniant hwnnw. Fe gafodd y Comisiwn Gwaith Teg ei greu ym mis Gorffennaf 2018 i wneud argymhellion i hyrwyddo ac annog gwaith teg yng Nghymru. Dyrannwyd £200k i gefnogi'r comisiwn yn 2019-20.

45. Mae egwyddorion gwaith teg yn cynnwys cyflog, sicrwydd swyddi, llais i'r gweithwyr, diogelwch a sicrwydd, sgiliau a chynnydd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn cael eu heffeithio'n wahanol gan arferion cyflogaeth ar draws bob un o'r meysydd hyn. Er enghraifft, mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod grwpiau sydd eisoes yn profi anfantais yn y farchnad lafur yn y DU yn cael eu heffeithio fwyaf gan waith ansicr, gan gynnwys menywod a gweithwyr duon a lleiafrifoedd ethnig. Mae tystiolaeth arall yn awgrymu bod crynodiad o fenywod mewn sectorau isel eu cyflog, ac y gall cymryd amser allan o'r amgylchedd gwaith a gweithio rhan amser ei gwneud yn anos cael mynediad at gyfleoedd hyfforddi neu symud ymlaen. Gall cyflog isel parhaus a diffyg canolbwyntio ar symud ymlaen fod yn ffactorau yn y lefelau o dlodi mewn gwaith a llai o gynhyrchiant.

46. Rhoddwyd y dasg o ddatblygu dangosyddion a mesurau gwaith teg ac adnabod ffynonellau data i helpu i fonitro cynnydd i'r Comisiwn Gwaith Teg. Bydd gwaith y

comisiwn yn y maes hwn yn cael ei ddefnyddio i ategu asesiad manylach o unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd ar ôl i'r Comisiwn adrodd am ei ganfyddiadau.

*Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd*

47. Gall adnoddau naturiol Cymru - ein haer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd - o ofalu amdanynt yn y ffordd iawn, ddarparu bwyd ac ynni yn ogystal â'n helpu i leihau llifogydd, gwella ansawdd aer a darparu deunyddiau adeiladu.

48. Mae gwerth £24.7m o gyllid refeniw yn 2019-20 a £55m o fuddsoddiad cyfalaf dros 2 flynedd mewn amddiffynfeydd llifogydd ac arfordirol yn amddiffyn ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig. Yn ôl yr asesiad risg llifogydd diweddaraf, mae 21,600 eiddo yng Nghymru mewn perygl o lifogydd o'r afonydd a'r môr. Nodwyd 39,500 eiddo arall sydd mewn perygl canolig o lifogydd o'r fath (mae peryglon llifogydd eraill i eiddo - dŵr wyneb a glaw trwm - nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ffigurau hyn ac nad ydynt mor hawdd eu rhagweld). Mae'r cyllid yn cael ei flaenoriaethu i'r cymunedau mwyaf agored i niwed, gan ystyried y newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol. Mae buddsoddiad yn galluogi cymunedau i addasu a bod yn gadarn yn economaidd ac yn gymdeithasol yn erbyn y risg o lifogydd. Gall gweithgarwch ymwybyddiaeth llifogydd helpu cymunedau i baratoi, ymateb ac adfer yn sgil llifogydd.

49. Lluniwyd ein hymyriadau rheoli risg llifogydd gan ystyried effaith hirdymor y newid yn yr hinsawdd a chynnydd yn lefel y môr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli ein rhaglen genedlaethol creu cynefinoedd er mwyn ystyried a darparu unrhyw iawndal angenrheidiol yn ymwneud â chynefin yr arfordir o ganlyniad i gynlluniau neu brosiectau a ariannwyd drwy ein rhaglenni rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol.

50. Cymru sydd â'r **cyfraddau ailgylchu** gorau yn y DU, gyda 64% (2016-17) o wastraff trefol lleol yn cael ei ailgylchu. Ni yw un o'r gwledydd gorau yn y byd o ran ailgylchu. Rydym yn parhau i fuddsoddi a chaffael cymorth ar gyfer trin gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol, gan gynnwys ynni o wastraff gyda £36.6m o refeniw yn 2019-20 a £23m o gyllid cyfalaf yn 2019-20 a £16.5m yn 2020-21 yn y Gyllideb ddrafft hon.

51. Mae'r defnydd effeithiol o adnoddau naturiol, gan gynnwys ailddefnyddio ac ailgylchu, yn cyfrannu at lai o alw am ddeunyddiau wedi'u hechdynnu a'u medi ar draws y blaned. O ganlyniad, mae hyn yn lleihau effaith defnyddwyr Cymru ar yr amgylchedd byd-eang.

52. Mae opsiynau ar gyfer seilwaith gwastraff newydd yn cael eu hystyried a'u datblygu mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol Cymru. Mae cynlluniau ar gyfer gallu ychwanegol i ailbrosesu, ailgylchu ac adfer ynni hefyd yn ystyried angen busnesau am fwy o wahanu yn y tarddle a chasglu deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn unol â gofynion Rhan 4 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru).

53. Mae'r gyllideb cyfalaf ar gyfer gwastraff yn 2019-20 yn cynnwys buddsoddiad o £6.5m yng nghronfa buddsoddi cyfalaf yr economi gylchol. Mae busnesau a chymunedau Cymru'n dibynnu ar nifer o ddeunyddiau y mae'n rhaid eu mewnforio. Drwy ailddefnyddio ac ailgylchu'r deunyddiau hyn o fewn model economi gylchol, daw Cymru i fod yn fwy cadarn gan leihau'r galw am ddeunyddiau strategol bwysig.

54. Mae Rheoliadau Gorfodaeth Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2018 yn rhan o gyfres o fesurau sy'n ceisio rhoi sylw i droseddau yn ymwneud â gwastraff a safleoedd gwastraff sy'n perfformio yn wael yng Nghymru. Gall y nifer fach o weithredwyr gwastraff y mae eu gweithgareddau naill ai yn methu â bodloni'r safonau gofynnol neu sy'n gweithredu mewn ffordd anghyfreithlon achosi llygredd i'r amgylchedd a pheryglu iechyd pobl. Bydd cyllid ychwanegol o £296k yn 2019-20 yn helpu i gefnogi pwerau newydd sy'n caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru wahardd neu gyfyngu ar fynediad i safleoedd a ganiateir ac anghyfreithlon, ac ehangu pwerau Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol i gyflwyno hysbysiad i feddianwyr a pherchnogion tir, yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyflawni camau penodol ar wastraff sydd wedi'i gadw neu ei waredu yn anghyfreithlon ar eu tir, gan gynnwys ei symud.

55. Bydd **Cynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi** yn cael £1.5m y flwyddyn o refeniw wedi'i godi gan y dreth gwarediadau tirlenwi. Mae'r cynllun yn cefnogi prosiectau sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Bioamrywiaeth - gwella amodau i helpu rhywogaethau cynhenid, pryfed peillio a darparu chyfleoedd ar gyfer plannu o'r newydd; adfer, cynnal a gwella cynefinoedd naturiol; ac annog a chefnogi cyfranogaeth a dealltwriaeth i ymwreiddio bioamrywiaeth

- Lleihau gwastraff - annog atal, ailddefnyddio, adfer ac ailgylchu gwastraff; lleihau gwastraff bwyd a chefnogi mentrau fel compostio; ac annog a chefnogi dealltwriaeth er mwyn i wastraff gael ei weld fel adnodd

- Gwelliannau amgylcheddol ehangach - creu gofod gwyrdd cymunedol a chefnogi seilwaith gwyrdd; dod ag ardaloedd sydd wedi'u hesgeuluso ac sydd wedi dirywio yn ôl at ddefnydd cymunedol; a chynnal neu wella cyfleusterau cymunedol.

56. Mae Cymru yn gartref i amrywiaeth eang o rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion a nifer o gynefinoedd arbennig. Er bod y dystiolaeth ddiweddaraf yn dangos rhai tueddiadau cadarnhaol mewn perthynas â mawndiroedd Cymru ac adfer neu sefydlogi rhai mathau o bridd a rhywogaethau, mae'r asesiad cynhwysfawr diweddaraf o adnoddau naturiol Cymru (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, Cyfoeth Naturiol Cymru) yn dangos bod amrywiaeth biolegol yn dirywio yn gyffredinol, ac nad oes modd dweud bod gan unrhyw un o'r ecosystemau yng Nghymru'r holl nodweddion angenrheidiol i fod yn gadarn. Mae gan ein heconomi wledig ran bwysig i'w chwarae yn amddiffyn ein hamgylchedd naturiol.

57. Mae'r **Rhaglen Datblygu Gwledig**, buddsoddiad o £26.5m o refeniw yn 2019-20 a £19.7m o gyfalaf yn ystod 2019-2021, yn cael ei chyflawni drwy ymgysylltu, cydgynhyrchu a chydweithio. Mae'r rhaglen fuddsoddi saith mlynedd yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n cyfrannu at feithrin cystadleurwydd amaethyddiaeth; sicrhau bod rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol a gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd; a sicrhau datblygu tiriogaethol cytbwys i economïau a chymunedau gwledig, gan gynnwys creu a chynnal swyddi.

## Iach ac Egnïol

*Darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas i'r dyfodol*

58. Yn ein Cyllideb ddrafft amlinellol, gosodwyd ein blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn buddsoddi £220m i ddiwallu costau cynyddol y GIG (bwlch Nuffield) a £94.6m arall i fuddsoddi yng nghytundeb cyflogaeth *Agenda ar gyfer Newid* i weithwyr y GIG.

59. Rydym yn buddsoddi £192m arall yn 2019-20 i weithredu *Cymru Iachach*[9], ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol sy'n ceisio cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl drwy gydol eu bywydau.

60. Mae adroddiad *Llesiant Cymru 2017-18*[10] yn nodi'r data diweddaraf sy'n ategu nod llesiant *Cymru Iachach.* Mae'r data hyn yn sail i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan gyrff cyhoeddus ar draws Cymru i gefnogi'r nod, nid Llywodraeth Cymru yn unig.

61. Ychydig o newid, os o gwbl, sydd i'r prif fesurau ar gyfer iechyd dros y flwyddyn ddiweddaraf, fel disgwyliad oes, canran y babanod â phwysau geni isel a chanran y bobl â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw. Mae'r rhain yn ddangosyddion hirdymor a fydd yn cymryd amser i ddylanwadu arnynt.

62. Mae data diweddar yn dangos, ar ôl blynyddoedd o gynnydd parhaus, bod y gwelliannau i ddisgwyliad oes wedi parhau i arafu a hyd yn oed dod i stop. Mae hyn yn wir ar draws y DU, ac i'w weld mewn rhannau eraill o'r byd.

63. Hunan-adroddiadau am iechyd gwael neu wael iawn oedd y ffactor cryfaf yn gysylltiedig â llesiant gwael i oedolion. Iechyd oedd y ffactor pwysicaf hefyd wrth edrych ar lesiant meddyliol.

64. O ran iechyd plant, cymysg yw'r darlun o hyd. Gwelwyd, er enghraifft, welliannau i iechyd deintyddol, ond cynyddodd gordewdra ymysg plant dros y flwyddyn ac mae'r lefelau yn debyg i bedair blynedd yn ôl.

65. Bwriedir i'r cyllid ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth iechyd gael effaith gadarnhaol ar bawb, ond bydd yn cael effaith anghymesur o gadarnhaol ar y grwpiau sy'n defnyddio'r gwasanaethau fwyaf, yn arbennig pobl ifanc iawn a phobl hŷn.

66. Ceir cysylltiad cryf rhwng amddifadedd a disgwyliad oes - bydd gan bobl sy'n cael eu geni i deuluoedd difreintiedig ddisgwyliad oes iach byrrach. Gwelir hyn yn y bwlch rhwng disgwyliad oes iach yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru, ac nid yw hyn wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf.

67. Rhaid ystyried effaith y cyllid ychwanegol yng nghyd-destun costau cynyddol gofal iechyd sy’n gysylltiedig â’r cynnydd yn y galw; a'r triniaethau cynyddol soffistigedig a chostus sy'n dod ar gael.

---

[9] https://gov.wales/docs/dhss/publications/180608healthier-wales-maincy.pdf
[10] https://gov.wales/docs/statistics/2018/180920-well-being-wales-2017-18-cy.pdf

68. Drwy ganolbwyntio ar atal, gan gynnwys targedu mesurau amddiffyn iechyd a helpu pobl i reoli eu hiechyd eu hunain, a thrwy integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn unol â *Cymru Iachach,* rydym yn ceisio rheoli'r galw ar y gwasanaeth iechyd a sicrhau bod pobl yn cael y lefel gywir o ofal gan y gweithiwr gofal iechyd priodol.

69. Rydym yn buddsoddi £16m yn 2019-20 fel rhan o'n **Cronfa Triniaethau Newydd** i gyflymu'r mynediad at y meddyginiaethau diweddaraf. Gall y meddyginiaethau hyn drin ystod eang o afiechydon gan gynnwys arthritis gwynegol, canser, epilepsi a chlefyd y galon. Mae pob un o'r rhain yn fygythiad i fywyd a/neu yn cyfyngu ar fywyd. Bydd y buddsoddiad sylweddol hwn yn helpu i gael gwared ag ansicrwydd ynghylch ariannu triniaethau newydd ac yn sicrhau mynediad cyfartal ar draws Cymru, gan helpu'r GIG i baratoi cynlluniau cynaliadwy ar gyfer cyflwyno meddyginiaethau newydd.

70. Ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o **ganser**, mae'r tebygrwydd o oroesi yn dirywio os yw'r diagnosis yn dod yn hwyrach. Er bod cyfraddau goroesi Cymru yn cymharu'n wael â rhai Ewrop – i raddau helaeth yn sgil diagnosis hwyrach - maent yn debyg i rai Lloegr. Rydym yn buddsoddi mewn rhaglenni triniaeth canser, diagnosis cynnar, sgrinio a chodi ymwybyddiaeth, ynghyd â rhaglenni atal, yn unol â'r *Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser yng Nghymru*.[11]

71. Mae mesur llesiant yn fater cymhleth, ac mae llesiant yn newid yn ystod bywydau pobl. Yn ôl dadansoddiadau ymchwil, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd ceir newidiadau dramatig i lesiant plant, eu hadroddiadau eu hunain am eu hiechyd a'u ffordd o fyw. Er bod merched a bechgyn 11 oed yn rhoi adroddiadau gweddol debyg am eu llesiant a'u hiechyd eu hunain, erbyn cyrraedd 16 oed mae bwlch yn dod i'r amlwg, gyda'r merched yn dweud bod eu llesiant a'u hiechyd yn waeth.

72. Mae **llesiant meddyliol** yn gwella o oedran iau tan oedran hen iawn, ond mae boddhad â bywyd yn syrthio ychydig yn ystod canol oed. Mae merched yn sgorio'n sylweddol is na bechgyn ar y raddfa hwyliau a theimladau, ac yn fwy tebygol o hunan-niweidio.

73. Bydd y £675m y byddwn yn ei wario ar wasanaethau iechyd meddwl yn ystod 2019-20 yn helpu pob oedran, ond rydym yn canolbwyntio £15m o'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i *Cymru Iachach* er mwyn cefnogi rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed - pobl ifanc, y rhai ag anawsterau dysgu, y digartref a gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchodedig penodol, gan gynnwys pobl iau, anabl a beichiog.

74. Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn y gwasanaeth iechyd a *Cymru Iachach* yn helpu plant dan Erthygl 6 CCUHP (Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd. Dylai Llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu mewn ffordd iach), Erthygl 23 (Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd gael gofal a chymorth arbenigol er mwyn iddynt fyw bywydau llawn ac annibynnol) ac Erthygl 24 (Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da).

[11] https://gov.wales/docs/dhss/publications/161114cancerplancy.pdf

75. Nodwyd effaith ein buddsoddiad cyfalaf yn y gwasanaethau iechyd yn Atodiad A y Gyllideb ddrafft amlinellol.

*Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb*

76. Ni welwyd newid sylweddol yn unrhyw un o'r pum ymddygiad iach o ran ffordd o fyw (peidio smygu, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau wythnosol, bwyta ffrwythau a llysiau, ymarfer corff, pwysau iach) rhwng 2016-17 a 2017-18. Mae'r rhan fwyaf o ymddygiadau iach yn dechrau dirywio yn yr ysgol uwchradd, ond yn gwella wrth fynd yn hŷn.

77. Gwelwyd gostyngiad mewn cyfraddau smygu a chanran y bobl sy'n goryfed alcohol yng Nghymru dros yr hirdymor. Ond er bod rhai tueddiadau cadarnhaol, mae heriau yn parhau, ac ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru sy'n wynebu'r heriau mwyaf. Yn yr ardaloedd hyn, mae 15% o'r oedolion yn arddel llai na dau o'r ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw o gymharu â dim ond 9% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

78. Buddsoddwyd £13m i ddatblygu cynlluniau cenedlaethol i helpu pobl i wneud dewisiadau cadarnhaol i'w ffordd o fyw, gyda'r nod o weld y gostyngiad mewn cyfraddau **smygu ac yfed** yn parhau, a gwella ffigurau'r dangosyddion eraill. Mae'r cysylltiad ag amddifadedd yn pwysleisio pwysigrwydd ein *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* a'r *Cynllun Cyflogadwyedd* ar gyfer iechyd a llesiant pobl.

79. Rydym yn rhoi £7m o gyllid i gefnogi ein cynnig i gyflwyno trothwy blynyddol net o £7,400 o incwm a enillir ar gyfer **prydau ysgol am ddim**, i ddod i rym o 1 Ionawr 2019 ymlaen. Bydd hyn yn galluogi disgyblion i gael cyfle cyfartal i gyfrannu a llwyddo yn yr ysgol. Rydym hefyd yn cynnig cyflwyno mesurau a fydd yn amddiffyn teuluoedd rhag colli'r hawl i gael prydau ysgol am ddim am gyfnod cyfyngedig, gan helpu pobl i osgoi caledi drwy roi mwy o amser iddynt addasu.

80. Disgwyliwn i blant a rhieni y mae ganddynt nodweddion gwarchodedig penodol gael mwy o fudd o'n meini prawf arfaethedig na grwpiau eraill. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'n cynigion newydd ar gyfer meini prawf cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim yn cael effaith negyddol ar nodweddion gwarchodedig eraill.

81. Mae darparu pryd iach am ddim a llaeth yn yr ysgol yn cefnogi Erthyglau 6 (hawl plant i ddatblygu mewn ffordd iach) a 24 (hawl plant i gael bwyd maethlon) CCUHP. Mae darparu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn iddynt fedru darparu prydau ysgol am ddim i deuluoedd anghenus yn cefnogi Erthygl 26 CCUHP (dylai'r Llywodraeth ddarparu arian ychwanegol ar gyfer plant teuluoedd anghenus). Mae darparu prydau ysgol am ddim i'r teuluoedd mwyaf anghenus yn cefnogi Erthygl 27 CCUHP (darparu safon bywyd sy'n ddigon da i fodloni anghenion corfforol a meddyliol plant).

82. Bydd ein buddsoddiad o dros £26m i gefnogi'r **Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau** yn cefnogi rhai o'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Seiliwyd ein hymyriadau ar atal niwed; cefnogi'r rhai sy'n camddefnyddio sylweddau; cefnogi teuluoedd a mynd i'r afael ag argaeledd a diogelu unigolion a chymunedau. Rydym hefyd yn dyrannu £1.98m i adfer cyllid i **Raglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan** fel rhan o'n dull gweithredu ataliol.

83. Cesglir ystadegau chwarterol am wasanaethau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys data am gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Ers 2015, gwelwyd gostyngiad mewn atgyfeiriadau, ond mae'r data ond yn ymwneud â phobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau triniaethau ar gyfer camddefnyddio sylweddau, ac o ganlyniad dim ond cyfran o'r holl rai sy'n camddefnyddio sylweddau sy'n cael eu cynrychioli.

*Creu cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell*

84. Un o egwyddorion allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw cydweithredu, sicrhau partneriaethau gwaith cryf rhwng sefydliadau, a chydgynhyrchu gyda phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt.

85. Rydym yn cynyddu'n buddsoddiad yn y **Gronfa Gofal Integredig** i £85 miliwn yn ystod 2019-20. Mae'r gronfa yn helpu i fwrw ymlaen â gweithio integredig rhwng y sector iechyd, gofal cymdeithasol, tai a'r trydydd sector at ddibenion ataliol, gan gynnwys cefnogi pobl hŷn i barhau i fod yn annibynnol. Yn ogystal â'r arbedion sy'n gysylltiedig â'r GIG yn atal derbyniadau diangen i ysbytai a lleihau'r oedi cyn gadael ysbytai, mae'n sicrhau bod pobl yn cael y gofal mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion, yn cyflymu'r broses wella ac yn galluogi pobl i gael eu trin yn eu cymunedau.

86. Mae'r data o'r arolwg cenedlaethol yn dangos bod nifer yr oedolion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon wedi cynyddu yn 2017-18 o'i gymharu â llynedd, gyda 32% o oedolion yn cymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith yr wythnos neu fwy. Fodd bynnag, roedd 41% o oedolion dros 16 oed yn dweud nad oeddent yn cymryd rhan mewn unrhyw chwaraeon na weithgarwch corfforol. Roedd dynion a'r grwpiau oedran iau yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith yr wythnos neu fwy na menywod a'r grwpiau oedran hŷn.

87. Rydym yn cynnal y cyllid gwerth £22.3m ar gyfer **chwaraeon** i gydnabod yr effaith gadarnhaol y mae cymryd rhan mewn chwaraeon yn ei chael ar lesiant meddwl ac iechyd corfforol, a hefyd o ran gwella'r teimlad o fod yn rhan o gymdeithas a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

88. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau rydym yn eu hwynebu o ran sefydlogi llesiant corfforol a meddyliol ein cenedl, ar hyn o bryd ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, mae rhoi mwy o gyfleoedd i gerdded a beicio yn ddiogel yn hollbwysig. Darperir cyllid cyfalaf ychwanegol gwerth £20m yn 2019-20 a £30m yn 2020-21 ar gyfer **teithio llesol**.

89. Mae cerdded a beicio yn cynnig opsiwn di-dâl a chost isel ar gyfer teithio o ddydd i ddydd, sy'n gallu lleihau costau teithio i nifer o bobl ac mae hynny'n arbennig o bwysig ar gyfer pobl sy'n byw mewn tlodi.

90. Mae adroddiad Llywodraeth Cymru Cerdded a Beicio yng Nghymru: Teithio Llesol, 2016-17[12] yn dangos mai dim ond 78% o blant cynradd ac 86% o blant uwchradd

[12] https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-09/cynllun-gweithredu-teithiol-llesol_0.pdf

sy'n byw llai na chilomedr o'r ysgol oedd yn cerdded i'r ysgol weithiau, gyda llai nag 1% yn beicio.

91. Mae annog rhieni a phlant i gerdded a beicio i'r ysgol yn rhan allweddol o’r gwaith o newid ein diwylliant teithio. Rydym yn cyllido'r rhaglen lwyddiannus **Teithiau Iach**, o dan arweiniad Sustrans, sy’n gweithio mewn ysgolion ledled Cymru i gael rhagor o blant a rhieni i gerdded, beicio neu fynd ar sgwter i'r ysgol. Caiff y cyllid hwn ei ategu gan y cyllid blynyddol gwerth £5m ar gyfer gwella llwybrau i ysgolion, ynghyd ag addysgu plant ysgol ar sut i fod yn ddiogel wrth gerdded ac wrth reidio beic.

92. Mae **ansawdd yr aer** wedi gwella ers yr 1970au ond mae rhai pryderon yn parhau. Mae gan lygredd yn yr aer ran yn nifer o'r heriau iechyd mawr heddiw, ac mae llygredd wedi'i gysylltu â morbidrwydd a marwolaeth o ganlyniad i glefydau anadlol, gan gynnwys asthma, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, strôc a chlefyd y galon, canser yr ysgyfaint ac effeithiau eraill. Gall ansawdd aer gwael effeithio ar iechyd planhigion ac anifeiliaid yn ogystal â phobl.

93. Rydym yn buddsoddi £9.29m rhwng 2019 a 2021 i gefnogi gwaith ar ansawdd aer, yn bennaf ar gyfer yr ardaloedd hynny lle y mae lefelau allyriadau yn uwch, fel arfer wrth ochr ffyrdd prysur. Mae'r lefelau nitrogen deuocsid yn yr ardaloedd o Gymru lle y mae pobl yn byw yn is o lawer na'r terfyn cymedrig blynyddol a bennwyd i ddiogelu iechyd pobl. Fodd bynnag mae tua 40 o ardaloedd penodol yng Nghymru sydd wedi'u dynodi'n **Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer** gan yr awdurdodau lleol oherwydd bod y mesuriadau yn yr ardaloedd hyn wedi mynd y tu hwnt i'r nod ar gyfer ansawdd yr aer.

## Uchelgais a Dysgu

### *Cefnogi pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial*

94. Ni ddylai'r cyfle i fanteisio ar addysg ddibynnu ar amgylchiadau personol ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i chwalu'r rhwystrau i ddysgu a sicrhau tegwch a rhagoriaeth i bob plentyn a pherson ifanc.

95. Mae cyrhaeddiad mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi cynyddu yn ddiweddar, er hynny, mae Cymru yn parhau i fod y tu ôl i weddill y DU o ran asesiadau rhyngwladol. Fodd bynnag mae anfanteision economaidd-gymdeithasol yn parhau i fod yn anghydraddoldeb allweddol mewn perthynas â chyrhaeddiad addysgol. Er bod cyrhaeddiad yn gwella'n gyson ar draws pob grŵp disgyblion, mae canlyniadau'r rheini sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn waeth ym mhob cyfnod allweddol. Mae'r bwlch yn cynyddu wrth i’r disgyblion dyfu'n hŷn.

96. Mae *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*[13] yn nodi sut yr ydym yn diwygio'r cwricwlwm er mwyn parhau i godi safonau ar draws y system a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad sy'n parhau. Bydd cyllid gwerth £10m i gefnogi'r gwaith diwygio a'r £15m i gefnogi ysgolion yn sail i hyn drwy ddatblygu proffesiwn addysg o safon uchel, arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithredu i godi safonau, ysgolion cryf a

[13] https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf

chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a llesiant; a threfniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunan-wella.

97. Mae sgiliau craidd a rhifedd yn sail i'r holl ddysgu a’r gwaith o godi safonau ac rydym yn cynnal ein buddsoddiad yn y meysydd drwy fuddsoddi £6.6m. Mae dau o'r meysydd dysgu yn y cwricwlwm newydd yn canolbwyntio ar Lythrennedd a Chyfathrebu a Mathemateg a Rhifedd.

98. Rydym hefyd yn buddsoddi £25.5m yn 2019-20 fel rhan o'n hymrwymiad o £100m ar gyfer safonau ysgolion, sydd ochr yn ochr â'r ffaith ein bod unwaith eto yn rhoi cyllid ar gyfer y **Grant Gwella Addysg** yr ydym wedi gallu ei ddarparu.

99. Mae'r cymorth gwerth £1m ar gyfer yr **Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol** yn cefnogi'r uchelgais o roi'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i holl arweinwyr yn system addysg Cymru iddynt er mwyn bod y disgyblion yn gallu elwa arnynt; a darparu’r cwricwlwm newydd. Rydym yn rhoi £1.2m i gefnogi mwy o ddefnydd ar **Reolwyr Busnes Ysgolion** i gefnogi arweinwyr ysgolion ac athrawon, fel y gallant hwythau ganolbwyntio'n well ar godi safonau yn ein hysgolion.

100. Mae buddsoddi mewn ysgolion ac addysg yn cael effaith anghymesur o gadarnhaol ar bobl ifanc yn gyffredinol ac mae'n bwysig o dan Erthygl 28 CCUHP (bod gan blant yr hawl i gael addysg). Drwy ganolbwyntio yn gyffredinol ar wella safonau, y bwriad yw cynyddu cyrhaeddiad i bawb. Fodd bynnag, drwy ganolbwyntio cyllid gwerth £93.7m yn benodol drwy'r **Grant Amddifadedd Disgyblion** ac £8.7m yn benodol i gefnogi **dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr** bydd yn cael effaith mwy cadarnhaol ar rai grwpiau ethnig, sydd, yn y gorffennol, wedi profi llai o gyrhaeddiad neu sy'n fwy tebygol o fod mewn ardal amddifadedd economaidd-gymdeithasol.

101. Bydd ein buddsoddiad gwerth £2.5m mewn **ysgolion bach a gwledig** yn 2019-20 yn parhau â'r gwaith a wnaed hyd yn hyn i annog arloesi (er enghraifft defnyddio technolegau digidol newydd i fynd i'r afael â materion megis ynysu proffesiynol drwy ddefnyddio grym TG). Bydd hefyd yn cefnogi mwy o weithio ysgol i ysgol gan gynnwys cydweithredu a ffedereiddio i godi safonau, darparu cymorth gweinyddol mewn ysgolion lle mae'r pennaeth wedi ymrwymo ei hun ar yr amserlen i wneud gwaith addysgu, a chynyddu'r defnydd ar adeiladau ysgolion gan y gymuned. Cyhoeddwyd y cynllun gweithredu addysg wledig i Gymru, y cyntaf o'i fath, y mis hwn.

102. Mae tystiolaeth ac ymchwil ryngwladol yn dangos bod cysylltiad cadarnhaol rhwng **dosbarthiadau llai o faint a chyrhaeddiad**, yn enwedig ar gyfer disgyblion o gefndiroedd tlotach. Mae hyn i'w weld fwyaf ymhlith plant iau a dyma paham ein bod yn buddsoddi gwerth £5m o gyllid refeniw a £5 o gyllid cyfalaf. Rydym yn cydnabod nad lleihau maint dosbarthiadau yw'r unig ffactor sy'n ysgogi gwelliant yn ein hysgolion, a dyma paham mae'r polisi hwn yn cael ei weithredu yng nghyd-destun ein diwygiadau ehangach.

103. Bydd y **cynllun mynediad i’r PDG** yn cael effaith gadarnhaol ar grŵp arbennig Pobl Iau â nodweddion gwarchodedig (disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim yn y dosbarth derbyn neu ym mlwyddyn 7) o ganlyniad i gyllid ychwanegol, meini prawf ehangach ar gyfer hawlio, ac ychwanegu cyllid ar gyfer disgyblion

dosbarth derbyn sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim o’i gymharu â'r grant gwisg ysgol blaenorol. Yn ychwanegol, bydd effaith gadarnhaol ar rieni’r plant sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim yn y dosbarth derbyn neu ym mlwyddyn saith, sydd o bosibl o fewn y grwpiau pobl 18-50 oed neu bobl hŷn (50+). Mae'n bodloni'r CCUHP drwy erthygl 26 (dylai'r Llywodraeth ddarparu arian ychwanegol i blant teuluoedd sydd mewn angen), ac erthygl 29 (dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalentau pob plentyn i'r eithaf).

104. Fel rhan o'n pecyn cymorth i newid disgwyliadau, profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, rydym yn buddsoddi £5.7m yn 2019-20. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar nodweddion gwarchodedig anabledd ac yn sicrhau bod pob dysgwr sydd ag **anghenion dysgu ychwanegol** (ADY) yn cael eu cefnogi i chwalu'r rhwystrau i ddysgu a chyflawni eu potensial llawn, gan sicrhau bod anghenion, safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r dysgwyr yn ganolog yn y broses.

105. Mae'r **rhaglen addysg ac ysgolion gyfer yr 21ain ganrif** yn fuddsoddiad strategol hirdymor yn ein hystad addysgol ledled Cymru. Mae rhaglen yn enghraifft o gydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol, colegau ac esgobaethau. Rhwng 2019 a 2021 byddwn yn buddsoddi cyllid cyfalaf gwerth £386m i gefnogi cyfleusterau addysg er mwyn darparu'r amgylchedd ffisegol cywir ar gyfer ein dysgwyr er mwyn iddynt gyflawni.

106. Rydym yn parhau i fuddsoddi £18.8m yn ***Gyrfa Cymru*** sy'n pontio'r bwlch rhwng ysgol, astudiaethau pellach a byd gwaith, gan roi cefnogaeth i bobl o bob oedran ddatblygu sgiliau a chodi uchelgais. Un agwedd bwysig ar y gwaith yw hyrwyddo mwy o barch cydradd rhwng llwybrau academaidd a chonfensiynol, ac yn benodol sicrhau bod pobl ifanc a'u rhieni yn gwybod am y llwybrau prentisiaeth, i gefnogi penderfyniadau sydd wedi'u hystyried yn ofalus o ran yr opsiynau dysgu a pharhau i gynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan ac yn cyflawni mewn addysg a hyfforddiant.

*Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw*

107. Mae Addysg Bellach (AB) yn cefnogi edrych ar anghenion economaidd Cymru yn y tymor hir a hynny drwy ddatblygu sgiliau. Mae'n rhoi cyfle i bobl gyflawni'u huchelgeisiau drwy gydol eu bywydau drwy wella eu sgiliau, sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau i gael swydd ac yn gallu cyfrannu i economi sy'n fwy ffyniannus. Mae addysg ôl-16 yn gwneud cyfraniad mawr o ran mynd i'r afael ag anfanteision economaidd-gymdeithasol drwy well lefel sgiliau gweithlu Cymru. Mae addysg a hyfforddiant ôl-16 hefyd yn bwysig o ran ateb yr her o ran lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt yn gweithio, yn y byd addysg nac yn hyfforddi.

108. Mae cadw'r lefel gyllido yn y **Grant Dysgu Cymunedol** yn cynnal y ddarpariaeth dysgu oedolion sydd wedi'i anelu at fynd i'r afael ag anghenion y rhai hynny o'n cymdeithas sydd anoddaf eu cyrraedd a dysgwyr hŷn. Yn ogystal, mae cynyddu'r cyllid ar gyfer **Cymorth Dysgu Ychwanegol** yn rhoi gwasanaethau ychwanegol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol er mwyn eu cefnogi i ddysgu. Bydd parhau i gyllido cynllun peilot Datrysiadau Creadigol **Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill** (ESOL) yng Nghaerdydd ac estyn y prosiect i fannau eraill yng Nghymru yn helpu i sicrhau gwasanaeth ESOL mwy effeithiol ar gyfer dysgwyr o grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig, Pobl Dduon ac Asiaidd (gan gynnwys Ffoaduriaid, Ceiswyr Lloches, a Mudwyr).

109. Gwnaeth yr adolygiad annibynnol o gyllido addysg uwch a threfniadau cyllid myfyrwyr a gynhaliwyd gan yr Athro Syr Ian Diamond ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid a chafwyd cryn dipyn o dystiolaeth ar nifer o faterion sy'n ymwneud ag effaith cymorth i fyfyrwyr a chyllido addysg uwch. Gall **addysg uwch** drawsnewid bywydau a lleihau anghydraddoldebau drwy roi hwb mawr i symudedd cymdeithasol.

110. Dylai cael lle mewn addysg uwch fod yn seiliedig ar yr egwyddor o allu yn unig, nid ar y gallu i dalu amdano. Dylai'r penderfyniad i fynd ymlaen i addysg uwch gael ei seilio ar y cymwysterau addysgol a gyflawnir cyn mynd i'r brifysgol yn unig. Fodd bynnag, mae plant o ardaloedd difreintiedig yn llai tebygol o fynd i addysg uwch hyd yn oed os ydynt yn llwyddo i gael yr un canlyniadau â rhywun o ardal sy'n fwy breintiedig. O ganlyniad i argymhellion adolygiad Diamond, gofynnwyd i CCAUC weithio gyda swyddogion i ddatblygu rhaglen weithredu ar gyfer Addysg Uwch ar ehangu'r mynediad i addysg uwch erbyn diwedd Ionawr 2019.

111. Mae ein pecyn newydd o grantiau a benthyciadau cymorth wedi'u hehangu i gefnogi myfyrwyr ôl-raddedig a myfyrwyr rhan amser. Mae lwfansau myfyrwyr anabl ar gael ar gyfer myfyrwyr addysg uwch sydd ag anabledd, cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol, er mwyn helpu i dalu'r costau ychwanegol a ddaw o ganlyniad uniongyrchol i anabledd.

112. Nid yw **benthyciadau cymorth myfyrwyr** ar gael yn gyffredinol, nid yw myfyrwyr sy'n 60 oed neu'n hŷn ar ddiwrnod cyntaf y cwrs addysg uwch yn gallu gwneud cais am fenthyciad. Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 mae pennu terfyn oedran yn wahaniaethol oni bai y gellir ei gyfiawnhau fel modd cymesur o sicrhau nod cyfreithlon. Penderfynwyd na fyddai myfyrwyr sy'n 60 oed a throsodd ac sy'n ymrwymo i fenthyciad at ddibenion cyllid myfyrwyr, yn gallu o ddifrif ad-dalu'r benthyciad. Byddwn yn parhau i adolygu'r angen am derfyn oedran.

113. Rydym yn cydnabod mai myfyrwyr gofal iechyd yw dyfodol ein GIG ac yn parhau i'w cefnogi wrth iddynt astudio gyda'r addewid eu bod yn ymrwymo i weithio yng Nghymru drwy gynllun **Bwrsariaeth y GIG** sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys sy'n hyfforddi i fod yn nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd.

114. Yn 2017-18, o'r 2180 o fyfyrwyr a wnaeth cais am fwrsari, dim ond 3% wrthododd gwaith yng Nghymru ar ôl iddynt gymhwyso, sy'n golygu y bydd y mwyafrif helaeth o'r myfyrwyr a hyfforddwyd yng Nghymru yn gweithio yng Nghymru ar ôl iddynt orffen astudio.

115. Ynghyd ag ymrwymiad i estyn y bwrsari, rydym yn buddsoddi'r lefelau uchaf erioed yng ngweithlu'r GIG, gyda £350m ar gyfer cefnogi addysg a hyfforddiant. Ers 2014, mae nifer y lleoedd hyfforddi a gomisiynwyd i nyrsys wedi cynyddu 68%. Rydym hefyd yn cymryd camau cadarnhaol i ddenu rhagor o weithwyr proffesiynol o'r DU a thu hwnt i Gymru, i hyfforddi, gweithio a byw.

*Sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy’n newid*

116. Ar y cyfan, mae lefel y cymwysterau sydd gan weithwyr o oedran gweithio yng Nghymru wedi cynyddu. Yn ôl data diweddar mae gan 78% o oedolion o oedran gweithio sy'n 18 oed neu'n hŷn gymwysterau lefel 2 (pump TGAU A*-C neu gymhwyster cyfatebol), mae gan 58% gymwysterau lefel 3 (dwy safon uwch neu gymhwyster cyfatebol) ac mae gan 37% gymwysterau addysg uwch neu gymwysterau cyfatebol o leiaf.

117. Rydym yn cydnabod y rôl ehangach sydd gan **sgiliau a dysgu gydol oes** mewn datblygu economaidd ac mae dysgu seiliedig ar waith yn cyfrannu'n sylweddol ato. Rydym wedi cynnal lefelau cyllido drwy wneud y defnydd gorau posibl o’r cyllid Ewropeaidd sydd ar gael. Mae'r ystod hon o gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith yn golygu y gall pobl sydd â gwahanol lefelau o gyrhaeddiad economaidd ac ystod o uchelgeisiau gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fynd i mewn i'r byd gwaith. Mae dysgu seiliedig ar waith yn rhoi'r dilyniant sydd ei angen ar bobl i gyrraedd eu potensial. Fel rhaglen i bawb o bob oed mae'n galluogi pobl i wella'u sgiliau ac ailhyfforddi.

118. Rydym yn ysgogi diwydiant, ysgolion, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a cholegau i gydweithio'n agosach er mwyn sicrhau'r sgiliau presennol a'r sgiliau fydd eu hangen yn y dyfodol i gefnogi economi Cymru.

119. ***Cymru'n Gweithio,*** sydd wedi cael cyllid gwerth £24m, fydd ein rhaglen gyflogadwyedd newydd i gyfrannu at ein nod o gael gwared ar y bwlch o ran cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd rhwng Cymru a chyfartaledd y DU o fewn 10 mlynedd. Bydd y rhaglen hon yn lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET), a bydd yn cefnogi'r rhai sy'n ddi-waith, yn economaidd anweithgar a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu diswyddo, i gael gwaith.

120. Mae'r rhaglen yn rhan o'n **Cynllun Cyflogadwyedd** sy'n nodi sut yr ydym yn bwriadu codi lefelau sgiliau i ddiwallu anghenion yr economi, gan gynnwys y rhan sydd gan gyflogwyr o ran gwella sgiliau eu gweithlu er mwyn cadw ar drywydd technoleg sy'n newid a dulliau newydd o weithio.

121. Mae angen rhoi cyfleoedd i bobl ddatblygu eu sgiliau ar gyfer yr 21ain ganrif a hynny o oedran ifanc iawn. Mae rhoi cyfle i bob plentyn ddefnyddio **band eang cyflym** yn sicrhau nad yw unrhyw blentyn o dan anfantais o'i gymharu â phlant eraill a gall hynny wella cyfleoedd y plentyn hwnnw o ran addysg a chael gwaith yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae angen i rieni feddu sgiliau er mwyn gallu ddiogelu eu plant ar-lein.

122. Mae ein cynlluniau yn cynnwys cyllid refeniw gwerth £1.25m i gefnogi **cynhwysiant digidol**. Gall datblygu sgiliau digidol cymunedau arwain at ragor o gyfleoedd economaidd, cymdeithas sy'n fwy cyfartal a gwella cydlyniant cymdeithasol. Mae rhoi sgiliau digidol sylfaenol i bobl sydd heb y sgiliau hynny allu defnyddio technoleg yn eu galluogi i elwa ar yr holl brofiadau a ddaw yn sgil bod ar-lein. Gall hefyd helpu i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol drwy dechnolegau cefnogol a helpu pobl hŷn a phobl sydd ag anableddau i beidio â theimlo'n ynysig.

123. Roedd yr *Adroddiad ar Wasanaethau Cynhwysiant Digidol yng Nghymru* a luniwyd gan gwmni cydweithredol Cymru, yn dangos bod diwydiant erbyn hyn yn dibynnu ar wasanaethau digidol, sy'n golygu nad yw pobl hŷn yn gallu manteisio ar arbedion sydd werth hyd at £560 y flwyddyn. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at arolwg a gynhaliwyd gan Gymdeithas y Prif Lyfrgellwyr ledled Cymru yn 2016 a oedd yn dangos y lefelau cynhwysiant digidol sydd gan lyfrgelloedd a staff llyfrgelloedd yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae cwsmeriaid sy'n defnyddio cyfleusterau TG mewn llyfrgelloedd fel arfer yn gwneud hynny oherwydd bod angen iddynt ddefnyddio cyfrifiaduron, argraffwyr, sganwyr neu fand-eang. Yn ôl yr arolwg, caiff y gwasanaethau ar-lein a gynigir mewn llyfrgelloedd eu defnyddio fwyaf i ddarllen negeseuon e-bost (46%). Nododd yr arolwg bod angen cyfeiriad e-bost ar bawb er mwyn iddynt allu cofrestru ar gyfer Credyd Cynhwysol, chwilio am swyddi, cysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau a chael negeseuon gan Feddygon Teulu ac asiantaethau iechyd, sydd dod yn fwyfwy cyffredin erbyn hyn. Mae hyn yn cefnogi'r safbwynt bod y rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus bellach yn cael eu darparu ar-lein, ac mae methu â chael gafael ar y gwasanaethau hynny yn gallu bod yn rhwystr i unigolion.

124. Rydym yn rhoi'r un cyllid i'r **Academi Wyddoniaeth Genedlaethol** ag yn 2018-19. Mae wedi datblygu a rheoli portffolio cyfoethogi Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) o brosiectau allgymorth ledled Cymru. Mae menywod yn perfformio'n well na dynion mewn addysg yn gyffredinol ac yn fwy tebygol o gael gradd dda. Er hyn, mae mwy ohonynt yn gweithio mewn swyddi sy'n gofyn am sgiliau sydd islaw eu lefel addysgol. NId oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithlu STEM. Felly bydd y buddsoddiad hwn yn cael effaith gadarnhaol ar y ffaith nad oes gan fenywod gynrychiolaeth ddigonol.

125. Nod y buddsoddiad yn y seilwaith ymchwil a thimau ymchwil yw rhoi hwb i'r economi a chynyddu gwerth ychwanegol gros Cymru. I gydnabod yr effaith sylweddol, cafodd £0.5m ychwanegol ei flaenoriaethu er mwyn cefnogi'r **Prif Gynghorydd Gwyddonol** i ymgysylltu â'r gymuned wyddonol yn fyd-eang, i gydweithredu gyda busnesau a phrifysgolion er mwyn bod yn fuddiol i bawb ac i ehangu economi Cymru. Bydd hyn o fantais i bawb yng Nghymru a bydd yn cynnig manteision ategol er mwyn lleihau tlodi drwy gynnig gwell cyfleoedd i gael swyddi sy'n talu'n dda.

126. Mae gan Gymru bedair prifysgol sydd wedi'u rancio ymhlith y 500 gorau yn rhestr QS o brifysgolion gorau'r byd. Yn ôl asesiad diweddaraf y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) roedd mwy na thri chwarter o'r holl waith ymchwil a gyflwynwyd i baneli REF wedi'u hasesu'n waith ymchwil o'r radd flaenaf neu'n rhagorol ar draws y byd. Caiff hyn ei gefnogi gan raglenni megis **Sêr Cymru**.

## Unedig a Chysylltiedig

### *Creu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth*

127. Dim ond yn ddiweddar y casglwyd y dangosyddion ar gyfer cymunedau cydlynus yn Adroddiad Llesiant Cymru 2017-18, felly ychydig iawn o ddata sydd ar gael o ran y tueddiadau i allu asesu effaith y polisïau. Y prif fesurydd a ddefnyddiwyd yw a yw pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal leol, a yw pobl yn yr ardal sydd o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda, ac yw pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch.

128. Mae **unigrwydd** yn agwedd bwysig ar gydlyniant cymunedol ond mae ganddo hefyd gysylltiadau â materion iechyd meddwl. Yn seiliedig ar yr atebion i gwestiynau'r Arolwg Cenedlaethol, gwelwyd bod 16 y cant o bobl yng Nghymru yn teimlo'n unig yn 2017-18. Mae pobl o oedran gwaith (16 i 64) yn fwy tebygol o deimlo'n unig na'r rhai sy'n 65 oed neu'n hŷn. Mae pobl sy'n byw mewn amddifadedd materol yn fwy tebygol o deimlo'n unig (37% o'r rheini sy'n byw mewn amddifadedd materol, o'u cymharu â 12% o bobl nad ydynt yn byw mewn amddifadedd materol).

129. Mae ein cynllun peilot ar gyfer rhagnodi cymdeithasol yn un ffordd o edrych ar sut y gellir trin pobl gyda gwasanaethau nad ydynt yn rhai clinigol gan edrych ar yr ystod o ffactorau sydd efallai yn effeithio ar eu llesiant.

130. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol 2017-18, yr oedd 77% o bobl yn fodlon eu bod yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, neu'n gallu cael gafael ar y gwasanaethau hynny. Nid oedd pobl yn fodlon iawn ar y gallu i gael gafael ar wasanaethau trefol megis canolfannau cymuned, ysgolion uwchradd, llyfrgelloedd a chlybiau ieuenctid neu chwaraeon.

131. Mae ein buddsoddiad o £72m i **ganolfannau iechyd a gofal integredig**, £2m i estyn **System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru**, a £15m i **ganolfannau dysgu cymunedol** o fewn ysgolion ymhlith rhai o'n buddsoddiadau sydd wedi'u targedu er mwyn dod â gwasanaethau yn agosach i gartrefi pobl, yn eu cymunedau.

132. Mae **tai o safon uchel** yn bwysig i lesiant pobl mewn nifer o wahanol ffyrdd, o gael cartref cynnes sy'n effeithlon o ran ynni, i deimlo'n ddiogel ac yn sefydlog, cael lle i fod yn annibynnol ac i deimlo'n rhan o gymuned. Drwy ein hymrwymiad i ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy, mae gennym ystod o gynlluniau tai sydd â'r nod o gefnogi grwpiau gwahanol o bobl.

133. Yn ystod 2017-18, cafodd 16% o oedolion eu cyfrif fel rhai a oedd y byw mewn amddifadedd materol (sef, yn methu â fforddio pethau sylfaenol megis cadw'r tŷ yn gynnes), gyda chanran uwch o fenywod (18%) na dynion (14%) yn dioddef o hyn. Mae plant sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn fwy tebygol o fyw mewn amddifadedd materol na'r rhai sy'n byw mewn llety rhent preifat neu gartrefi sy'n eiddo i berchen-feddiannwyr.

134. Rydym yn helpu pobl i gael eu hunain ar yr ysgol o ran prynu tŷ er mwyn bod yn berchen ar eu cartref, neu'n berchen ar ran ohono drwy gynlluniau megis **Cymorth i Brynu** a **Rhenti i Brynu**, gyda buddsoddiad gwerth £63.1m yn 2019-20.

135. Er mwyn sicrhau bod **pobl yn byw mewn cartrefi boddhaol**, rhaid i'r holl eiddo cymdeithasol fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn mis Rhagfyr 2020. Byddwn yn cefnogi'r gwaith hwn gyda chyllid cyfalaf gwerth £108m yn 2019-20. Yn ogystal, er mwyn lleihau tlodi tanwydd rydym yn buddsoddi er mwyn **gwella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi** drwy gynllun NYTH. Bydd sicrhau gwell perfformiad o ran ynni yn ein cartrefi nid yn unig yn lleihau'r galw am ynni yn y sector domestig ond hefyd yn helpu perchenogion tai a thenantiaid i reoli'r gost o gynnal a chadw cartref cynnes. Mae'r buddsoddiadau hyn yn cael effaith

gadarnhaol ar bobl sydd â nifer o nodweddion gwarchodedig, yn enwedig yr ifanc a'r henoed oherwydd dyna'r grwpiau sy'n fwy agored i ddioddef iechyd gwael o ganlyniad i amgylchedd gwael.

136. Yn ystod 2017-18, am bob 10,000 o aelwydydd yng Nghymru, gwnaeth 45 o aelwydydd ofyn i'r awdurdod lleol am gymorth tai a llwyddwyd i'w **hatal rhag bod yn ddigartref** am 6 mis o leiaf. Yn y flwyddyn ddiwethaf gweld lleihad bach yn nifer yr aelwydydd a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae menywod sy'n mynd at awdurdod lleol i gael cymorth tai yn fwy tebygol o gael cymorth i'w rhwystro rhag bod yn ddigartref na dynion gan fod blaenoriaeth yn cael ei roi i fenywod oherwydd plant dibynnol neu feichiogrwydd. Rydym hefyd yn sefydlu **Grant Cymorth Tai** cynhwysol gwerth £126.7m - sy'n cynnwys Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd, a Gorfodi Rhentu Doeth Cymru er mwyn parhau i fynd i'r afael â digartrefedd.

137. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod 780 o bobl ifanc 16-17 oed a 6,804 o bobl 18 - 24 oed wedi holi awdurdodau lleol am gymorth mewn perthynas â digartrefedd posibl. Rydym yn buddsoddi £10m ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn ystod 2019-20.

138. Rydym hefyd yn cryfhau'r cysylltiad sydd gan bobl â'u cymuned leol drwy fuddsoddi £5m yn y **Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol** yn ystod 2019-20.

139. Mae'r gyllideb cyfalaf wedi cynyddu £8.5m ar gyfer 2019-21 er mwyn i **Cadw** allu gwneud gwaith datblygu cynaliadwy fel bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu mwynhau a chael mynediad i safleoedd treftadaeth. Mae treftadaeth yn cefnogi tua 40,700 o swyddi, gyda nifer ohonynt mewn ardaloedd gwledig, sydd fel arfer yn gymunedau Cymraeg eu hiaith.

140. Mae Cadw yn cefnogi nifer cynyddol a mathau gwahanol o gyfleoedd gwirfoddoli mewn safleoedd ledled Cymru - sy'n rhoi cyfle i'r hen a'r ifanc, y profiadol a'r dibrofiad gefnogi eu treftadaeth leol, cwrdd â phobl newydd, dysgu sgiliau newydd a magu hyder.

141. Mae'r iaith Gymraeg yn gydran sylweddol o ddiwylliant hanesyddol a hunaniaeth Cymru. Roedd cwestiynau newydd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod 86% o oedolion sy'n 16 oed a throsodd yn cytuno â'r datganiad bod yr iaith Gymraeg yn rhywbeth y dylai pob un ohonom ymfalchïo ynddi. Cafwyd canlyniadau calonogol o'r arolwg blynyddol o'r boblogaeth, gyda chynnydd yn nifer y rhai a gofnododd eu bod yn siarad Cymraeg.

142. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn yr **Iaith Gymraeg** i gefnogi ein nod hirdymor o gael miliwn o siaradwyr erbyn 2050, drwy roi cyllid refeniw gwerth £29m i'r Gymraeg mewn addysg a £5.9m i'r iaith Gymraeg. Caiff hyn ei gefnogi hefyd gan gyllid cyfalaf gwerth £30m i'r rhaglen addysg ac ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

143. Mae'r *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* yn cydnabod bod yr economi'n hanfodol er mwyn creu'r amodau cymdeithasol lle gall siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, neu ddychwelyd i'r cymunedau hynny. Bydd y dull rhanbarthol o weithredu yn grymuso economïau lleol ffyniannus i'n helpu i gyrraedd ein targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

*Darparu seilwaith modern a chysylltiedig*

144. Mae'r buddsoddiad mewn seilwaith, yn arbennig **trafnidiaeth integredig a band eang y genhedlaeth nesaf**, yn hanfodol i helpu pobl i gael mynediad at leoedd, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth. Gwyddom, ar gyfer oedolion ifanc a'r rhai isel eu cyflog yn benodol, bod diffyg mynediad at gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus dibynadwy a fforddiadwy yn medru bod yn rhwystr rhag cyflogaeth neu astudiaeth.

145. Mae seilwaith trafnidiaeth yn hanfodol ar gyfer darparu'r gwasanaethau angenrheidiol i gyrraedd at gyflogaeth, gan hwyluso cysylltiadau rhwng busnesau a chefnogi cynhyrchiant a thwf yn ein cymunedau. Bydd gwella gwasanaethau ac amseroedd teithio yn arwain at well cysylltiadau rhwng cymunedau, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchodedig (er enghraifft mae integreiddio dulliau teithio mewn canolfannau allweddol yn chwarae rhan bwysig yn cysylltu cymunedau ac yn lleihau ynysiad cymdeithasol).

146. Derbynnir yn eang bod rhai grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn fwy tebygol o ddibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus a theithiau llesol i gyrraedd at swyddi a gwasanaethau yn sgil oedran, tlodi, iechyd neu anabledd. Dylai gwelliannau o ran mynediad, argaeledd, diogelwch a chostau trafnidiaeth gyhoeddus chwarae rhan allweddol yn y tymor hir i leihau anfantais ymysg y grwpiau gwarchodedig.

147. Mae Contract Gwasanaeth Trenau nesaf Cymru a’r Gororau, a ddechreuodd ar 14 Hydref yn cynnwys £1.9bn o fuddsoddiad i greu rhwydwaith sy’n hygyrch i bawb wrth galon cymunedau, saith diwrnod yr wythnos; cynyddu symudedd cymdeithasol ac ehangu mynediad, gan gysylltu pobl â chyfleoedd swyddi, addysg, iechyd a hamdden; gwneud Cymru’n fwy deniadol i fusnesau a thwristiaid; a gwneud teithio ar y trên yn fwy pleserus, gyda threnau modern yn defnyddio cysylltedd digidol y genhedlaeth nesaf.

148. Yn ôl data'r Arolwg Teithio Cenedlaethol, mae oedolion o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fyw ar aelwyd heb fynediad at gar, o gymharu ag oedolion gwyn Prydeinig, felly mae'n bosibl bod mwy o ddibyniaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn rhannau o Gymru (y De-ddwyrain a'r Gogledd-ddwyrain) lle mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau trên a bws yn cael eu darparu. Mae tua 60% o'r gweithgarwch teithwyr ar wasanaeth trenau Cymru a'r Gororau wedi crynhoi ar Cledrau'r Cymoedd ac yn ardal Caerdydd.

149. Yn 2019-20, bydd y Contract Gwasanaeth Trenau newydd yn cael cymorth dyraniad refeniw ychwanegol o £32.61m. Ar ben hynny, bydd Depo Ffynnon Taf yn cael cyfanswm o £44.9m o fuddsoddiad, gan gynnal fflyd o gerbydau modern newydd a fydd yn gweithredu ar y metro canolog.

150. Gan gefnogi Erthygl 27 CCUHP (hawl plant i gael safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol), dan yr ymrwymiadau ar gyfer y contract gwasanaethau trên newydd bydd darpariaeth yn y gyllideb i alluogi plant dan 11 i deithio am ddim ac i ymestyn y cymhwysedd am docyn hanner pris i'r rhai 16-18 oed. Mae hyn yn golygu trafnidiaeth fwy fforddiadwy i deuluoedd, plant a phobl ifanc, gan arwain at well mynediad at addysg a gwasanaethau cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd cynnar pwysig.

151. Mae'n bwysig edrych ar effeithiau negyddol posib datblygu seilwaith rheilffyrdd a gwella gwasanaethau ar grwpiau gwarchodedig yn y tymor byr, ac fe fydd angen i gontractwyr ystyried sut y gellid lliniaru neu reoli hyn yn effeithiol drwy gydol y gwaith adeiladu ac ar ddechrau'r cyfnod gweithredu.

152. Wrth adeiladu, bydd hygyrchedd i orsafoedd sy'n cael eu huwchraddio yn gyfyngedig, gan olygu efallai na fydd modd i rai grwpiau gyrraedd at rai gorsafoedd a gwasanaethau. Mae hyn yn debygol o gael effaith negyddol am gyfnod penodol o amser ar rieni â phlant ifanc, pobl hŷn â phroblemau symudedd a phobl anabl.

153. Efallai y bydd effeithiau hefyd yn ymwneud â'r amgylchedd, yn arbennig ansawdd aer a lefelau sŵn. Gall plant, pobl ag anableddau dysgu, pobl hŷn a phobl anabl gael eu heffeithio'n negyddol gan lefelau sŵn o waith adeiladu sy'n agos i gyfleusterau cymunedol. Yn ystod y cyfnod gweithredu, mae'n debygol y bydd llai o sŵn yn sgil trydaneiddio cledrau craidd y Cymoedd a chyflwyno'r cerbydau newydd ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd sy'n dawelach na'r trenau presennol.

154. Gan gydnabod pwysigrwydd bysiau, mae'n cynlluniau yn cynnwys £32.2m i gefnogi bysiau. Mae'r cyllid i gefnogi rhwydwaith bysiau Cymru yn darparu mynediad at wasanaethau a chyfleusterau allweddol i'r rhai heb fynediad at drafnidiaeth breifat; helpu i leihau tagfeydd traffig, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a gwella ansawdd aer; galluogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth, i dargedu grwpiau penodol sy'n arddangos nodweddion gwarchodedig i'w galluogi i deithio'n rhatach na'r boblogaeth ehangach o deithwyr bws.

155. Bydd cyllid yn darparu gwasanaethau bws a thrafnidiaeth gymunedol na fyddai ar gael fel arall, yn arbennig mewn cymunedau anghysbell neu wledig - gan alluogi mwy o bobl i fyw mewn tai fforddiadwy a darparu mynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl sy'n byw yn y cymunedau hynny. Mae'n cynlluniau yn cynnwys £60m o ddarpariaeth flynyddol. Mae hefyd yn helpu nifer o bobl fwyaf agored i niwed ein cymdeithas i gyrraedd at wasanaethau a chyfleusterau iechyd pwysig mewn ffordd gyfleus ac, ar gyfer y 750,000 sydd â thocynnau teithio rhatach yng Nghymru, am ddim.

156. Buddsoddwyd i gefnogi **teithio rhatach ar fysiau** i bobl ifanc 16-18 oed, fel bod modd iddynt gyrraedd at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a hefyd at ddibenion cymdeithasol. Mae £1m ychwanegol yn 2019-20 wedi'i ailgyfeirio i ehangu'r cynllun hwn.

157. Gwella **ansawdd aer** drwy leihau allyriadau carbon, nitrogen deuocsid a gronynnau yw un o'r prif amcanion ar gyfer gwasanaethau bysiau yng Nghymru. Cadarnhaodd astudiaeth ddiweddar fod angen cyflwyno ystod o fesurau i annog mwy o bobl, yn arbennig cymudwyr, i newid o deithio mewn car i deithio mewn bws (fel prisiau deniadol, gwell prydlondeb, llai o orlenwi, bysiau amlach, safonau ansawdd uwch a mesurau i roi mwy o flaenoriaeth i fysiau). Rhaid i fysiau glanach hefyd gael mynediad, lle bo angen, at fesurau i roi blaenoriaeth i fysiau fel na fydd teithwyr yn cael eu dal mewn tagfa ar fws yn yr un ffordd ag yr oeddent yn eu ceir. Rydym yn buddsoddi £78m o gyfalaf yn ystod 2018-2021 i gefnogi'r **Gronfa Trafnidiaeth Leol** sy'n canolbwyntio ar fannau cul a thagfeydd, gan gynnwys ar lwybrau bysiau, gyda'r nod o wella amseroedd teithio.

158. Nod ein buddsoddiad parhaus ym **Maes Awyr Caerdydd** yw manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i economi a busnesau Cymru a gwella'r cysylltiad â Chymru. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol o'r rôl bwysig sydd gennym wrth reoli effaith amgylcheddol y maes awyr.

159. Er mwyn lleihau'r angen i deithio, mae band eang cyflym yn cael ei gyflwyno i helpu unigolion sydd am weithio o'r cartref, ac mae technoleg band eang cyflym yn galluogi busnesau a sefydliadau i gysylltu drwy ddefnyddio cyfleusterau fel 'Skype'.

160. Rydym yn cydnabod y bydd mynediad at fand eang yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ag anabledd gan y byddai rhai pobl anabl ddi-waith yn ei gweld yn haws dod o hyd i waith addas a chadw swydd pe bai hyn yn eu cartrefi eu hunain (yn hanesyddol mae lefelau diweithdra pobl anabl wedi bod yn sylweddol uwch yn gyson na'r rhai ar gyfer y gweithlu yn gyfan) - ac eto, bydd hyn yn cynyddu wrth i lefelau cysylltedd cartrefi wella dros amser. Amcangyfrifir y bydd y gwerth ychwanegol gros blynyddol net y gellir ei briodoli i ymyriadau gan well cyfranogiad gan ofalwyr a phobl anabl yn cyrraedd tua £14m erbyn 2024. Mae hyn yn cyfateb i tua 460 o ofalwyr ychwanegol a thua 200 o bobl anabl ychwanegol yn cael swyddi drwy deleweithio, na fyddai wedi bod yn bosibl heb yr ymyriad i ddarparu band eang cyflymach mewn ardaloedd heb wasanaeth digonol yng Nghymru.

161. Mae'r sector TGCh wedi profi anhawster yn denu recriwtiaid benywaidd. Fodd bynnag, gall cael mynediad at fand eang helpu pobl i weithio o'r cartref, ac fe fyddai hynny, er enghraifft, yn cael effaith gadarnhaol ar fenywod sydd o bosib â chyfrifoldebau gofal ac yn methu mynychu gweithle penodol.

162. Yn yr adroddiad *UK Broadband Impact Study for the Department of Culture Media and Sport* amcangyfrifwyd y bydd band eang cyflymach yn cyfrif am arbed tua 1.6 miliwn o dunelli o allyriadau sy'n cyfateb i garbon deuocsid (CO2e) y flwyddyn erbyn 2024 ar draws y DU. Er na wnaed ymchwil yng Nghymru, nid oes rheswm i feddwl na fydd yr effeithiau yr un mor sylweddol.

163. Mae dathlu ein diwylliant, iaith a naws am le unigryw yn rhan annatod o **frand Cymru**. Byddwn yn cyflwyno'r Gymraeg fwy a mwy fel nodwedd neilltuol am Gymru – yn arbennig ym maes twristiaeth mewn marchnadoedd rhyngwladol pwysig. Rydym yn buddsoddi i ehangu ein swyddfeydd dramor er mwyn helpu i gyrraedd at farchnadoedd newydd ac ehangu cyfleoedd i fusnesau Cymru.

### *Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd*

164. Darparwyd £2m ychwanegol i gynnal y gwariant ar **dwristiaeth a marchnata** i adeiladu ar y brand cyson ar gyfer Cymru fel lle i fuddsoddi, gweithio, byw, ymweld ac astudio ynddo. Mae hyn yn cynnwys gwella proffil, enw da a dylanwad Cymru a datblygu a chynnal sawl perthynas ar draws y byd i helpu i hyrwyddo Cymru a chynorthwyo busnesau i dyfu. Rydym yn gwario £13.8m ar dwristiaeth, drwy Croeso Cymru, a marchnata.

165. Mae enw da iawn gan y **diwydiant bwyd a diod** yng Nghymru, ar sail nifer o ffactorau gan gynnwys diogelu iechyd pobl, rheolaeth effeithiol o glefydau anifeiliaid, safonau amgylcheddol, y defnydd o enwau bwydydd gwarchodedig a safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid. Rydym yn buddsoddi £5.2m i gefnogi

datblygiad a thwf cynhyrchu bwyd a'r diwydiant bwyd a diod. Bydd effaith Brexit i'w deimlo'n gryf yn y diwydiant hwn yng Nghymru, ac rydym yn cefnogi nifer o brosiectau drwy Gronfa Bontio'r UE i gael mwy o ymchwil a thystiolaeth i'r sector a helpu busnesau i baratoi.

166. Bydd ein gwaith marchnata yn ceisio apelio at ystod eang o gynulleidfaoedd amrywiol, gan gysylltu â nhw yn ddigidol i brofi Cymru mewn ffyrdd newydd. Bydd ein gwaith marchnata yn bodloni safonau hygyrchedd, a thrwy dechnoleg ddigidol byddwn yn cyflwyno gweithgareddau a digwyddiadau sy'n apelio i grwpiau marchnad penodol fel elfen ganolog o frand Cymru - fel Pride Caerdydd.

167. Mae tirwedd, arfordir a moroedd Cymru yn asedau cenedlaethol pwysig sy’n cynnal amgylchedd bioamrywiol, amaethyddiaeth a physgota, a'r diwydiant twristiaeth. Mae tirwedd naturiol Cymru yn rhan bwysig o ddiwylliant a threftadaeth y wlad, yn ogystal â bod yn bwysig i'r diwydiant twristiaeth, a all yn ei dro gefnogi twf economaidd. Mae parciau cenedlaethol Cymru a'r ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol yn asedau cenedlaethol pwysig sy'n cwmpasu 25% o dir Cymru. Rydym yn defnyddio cyllid cyfalaf fel y buddsoddiad o £7m rhwng 2019-21 ym **Mharc Rhanbarthol y Cymoedd** i wella'r asedau hyn sy'n ysgogi twf economaidd a gwella iechyd a llesiant.

## Blaenoriaethau trawsbynciol

168. Yn ein Cyllideb ddrafft amlinellol fe nodwyd effaith ein buddsoddiadau refeniw ychwanegol yn 2019-20 a'n buddsoddiadau cyfalaf yn 2019-20 a 2020-21 ar flaenoriaethau trawsbynciol y blynyddoedd cynnar, tai, gofal cymdeithasol, sgiliau a chyflogadwyedd, iechyd meddwl gwell a datgarboneiddio.

## Atodiad E: Mapio Ffyniant i Bawb


1. Eleni rydym wedi cyflwyno ein cyllideb yn unol â’r themâu a’r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn ein strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb*. Mae’r tablau o ran Llinell Wariant y Gyllideb (BEL) yn cael eu cyflwyno yn ôl Prif Grŵp Gwariant, gyda dadansoddiad o ran Camau Gweithredu a BEL, sy’n cynrychioli cyfansymiau rheoli i ddibenion rheolaeth ariannol.

2. Mae llawer o’n rhaglenni a’n prosiectau yn cael eu hariannu drwy nifer o linellau cyllideb ac yn cyfrannu at nifer o amcanion llesiant a meysydd blaenoriaeth. O ganlyniad mae’n anodd iawn creu cysylltiad un-i-un rhwng cyllideb benodol a chanlyniad penodol. Mae hyn yn arbennig o anodd lle yr ydym yn darparu grantiau heb eu clustnodi i bartneriaid, fel llywodraeth leol neu fyrddau iechyd, lle y gwneir penderfyniadau gwariant ar y lefel honno.


### Themâu

3. Rydym wedi adolygu gwariant Llywodraeth Cymru er mwyn cael y ffit orau gyda’r pedair thema a nodwyd yn Ffyniant i Bawb — Ffyniannus a Diogel, Iach ac Egnïol, Uchelgeisiol ac yn Dysgu ac Unedig a Chysylltiedig. Mae rhywfaint o wariant yn ymwneud â gofynion ehangach o ran rhedeg llywodraeth ac rydym wedi categoreiddio hyn fel llywodraethu da.

### *Adnodd*



*Cyfalaf*





## Meysydd Blaenoriaeth


4. Rydym hefyd wedi adolygu gwariant er mwyn darparu dadansoddiad yn erbyn ein chwe maes blaenoriaeth — y blynyddoedd cynnar, tai, gofal cymdeithasol, gwell iechyd meddwl, sgiliau a chyflogadwyedd a datgarboneiddio.

5. Rydym wedi gwneud hyn drwy aseinio gwariant i'r maes blaenoriaeth lle y mae'n gwneud y cyfraniad mwyaf, a all fod yn oddrychol. Nid yw holl gyllid Llywodraeth Cymru'n cael ei dargedu ar y meysydd blaenoriaeth hyn. Mae peth cyllid yn cyfrannu tuag at sawl maes neu cymerir penderfyniadau ar wariant y tu allan i Lywodraeth Cymru ac mae'n anodd dosbarthu'r gyllideb yn yr achosion hyn. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad isod yn rhoi darlun bras o'r modd y mae cyllid yn cael ei gysoni.

*Adnodd*




*Cyfalaf*



## Atodiad F: Geirfa ariannol

| | |
|---|---|
| ***Cam Gweithredu*** | *O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu.* |
| ***Cwmpasoedd*** | *Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae disgrifiadau o'r cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng nghynnig y Gyllideb flynyddol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant.* |
| ***Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)*** | *Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL, ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac adroddiad rhag-gyllidebol Trysorlys EM. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw, er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr.* |
| ***Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)*** | *O fewn pob Cam Gweithredu caiff cyllidebau eu dyrannu i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn BEL. Mae tablau sy'n dangos y cyllidebau ar lefel BEL ar gael yn: [http://gov.wales/funding/budget/?lang=cy](http://gov.wales/funding/budget/?lang=cy)* |
| ***Cynnig y Gyllideb*** | *Y dull a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru.* |
| ***Cyfalaf*** | *Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae cyfran o'r DEL Cyfalaf yn cynnwys cyfalaf trafodiadau ariannol.* |
| ***Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)*** | *Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennwyd gan Drysorlys EM. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail amlflwyddyn mewn Adolygiadau o Wariant. Mae gan gyllidebau DEL ac AME Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf ac adnoddau.* |

| | |
|---|---|
| ***Dibrisiant*** | *Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o DEL Llywodraeth Cymru ond mae'n eitem DEL adnoddau anghyllidol.* |
| ***Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru*** | *Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol gofyn i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y costau uniongyrchol mae cyflog y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.* |
| ***Cyfalaf Trafodiadau Ariannol*** | *Mae cyfalaf trafodiadau ariannol yn rhan o'r setliad DEL cyfalaf, a dim ond at ddibenion benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i drydydd partïon y gellir eu defnyddio. Ar y cyfan, rhaid ad-dalu'r cyllid i Drysorlys Ei Mawrhydi.* |
| ***DEL Adnoddau Ariannol*** *(arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')* | *Y gyllideb DEL Adnoddau Ariannol sy'n dangos y rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Caiff y gwariant ei gofnodi ar sail croniadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau adnoddau a chymorthdaliadau.* |
| ***Prif Grŵp Gwariant (MEG)*** | *Caiff DEL Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ceir chwe Phrif Grwpiau Gwariant ar hyn o bryd: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus; yr Economi a Thrafnidiaeth; Addysg; Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig; a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.* |
| ***DEL Adnoddau Anghyllidol*** *(arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')* | *Y gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol sy'n dangos gwariant cyfredol yr adran mewn perthynas ag amhariad benthyciadau myfyrwyr a dibrisiant. Mae'r DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol.* |
| ***Derbyniadau*** | *Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol.* |

| | |
|---|---|
| **Cyllidebu adnoddau** | *Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllideb adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd.* |
| **Adnoddau** (arferid cyfeirio atynt fel 'refeniw' | *Gwariant cyfredol, er enghraifft arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau a gwasanaethau traul.* |
| **Adolygiad o Wariant** | *Bob dwy neu dair blynedd mae Trysorlys ei Mawrhydi yn adolygu gwariant pob un o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Mae cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng Fformiwla Barnett. Dyma'r dull a ddefnyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr.* |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | *Cyfanswm rheoli gan Drysorlys EM yw hwn ac mae'n cynnwys y Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol yn ogystal â'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol.* |
| **Cronfa Wrth Gefn Cymru** | *Mae Cronfa wrth Gefn Cymru, sydd ar waith ers mis Ebrill 2018, yn arf newydd a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb dros gyfnod o flynyddoedd. Bydd modd i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r Gronfa i gynilo'r refeniw a fydd yn weddill o'r trethi datganoledig a'r tanwariant ar y Terfyn Gwariant Adrannol, i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Bydd modd i'r Gronfa gadw hyd at £350m, gyda chyfyngiad defnyddio blynyddol o £125m ar gyfer adnoddau a £50m ar gyfer cyfalaf. Ni fydd cyfyngiad blynyddol ar yr arian a delir i mewn i'r Gronfa* |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | *Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn unol â phleidlais Senedd y DU.* |
| **CNLlC** | *Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, er enghraifft Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.* |